

## Brexit yn bygwth.....



Efallai nad yw'r mwyafrif ohonom yn ymwybodol o gynllun a elwir yn Erasmus+. Mae'n rhaglen o fewn gwledydd yr Undeb Ewropeaidd i gefnogi addysg, hyfforddiant, ieuencid a chwaraeon. Mae'n gwario tua £15 biliwn i roi cyfleoedd i dros 4 miliwn o aelodau'r UE i astudio, hyfforddi ac ennill profiadau dramor.

Mae Ysgol Brynrefail, drwy gyfrwng y cynllun goleuedig hwn wedi gefeillio gydag ysgol yn Rwmania, ac yn ystod y mis daeth pump o ddisgyblion a dwy athrawes draw i rannu profiadau gyda disgyblion yr ysgol. Darllenwch yr hanes ar y dudalen ganol, ac ystyriwch o ddifrif baragraff olaf yr adroddiad a'r golled fydd i genedlaethau'r dyfodol yma yn ardal Ysgol Brynrefail os collir yr hawl i fod yn rhan o raglen Erasmus+.

## Dyfodol Eco'r Wyddfa

Cynhelir y cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol Eco'r Wyddfa yn y Sefydliad Coffa, Llanrug ar nos Fercher, Tachwedd 27ain am 7 o'r gloch.

ISSN 2516-7235



9 772516 723001 >



# ECO'r Wyddfa

CYMRAG

**RHIF 481**  
**Tachwedd 2019**  
 Argraffwyd gan  
 Wasg Dwyfor  
 Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Straeon ac erthyglau**  
**ar e-bost i**  
**Dafydd Whiteside Thomas**  
**Bron y Nant, Llanrug**  
**01286 673515**  
**ecorwyddfa@gmail.com**

## CADEIRYDD

### Y PWYLLGOR GWAITH

Tony Elliott, Bwlch Cae Mawr,  
 Deiniolen LL55 3LU 07798552238  
 tonyelliott17@yahoo.com

### GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.  
 (01248) 670115

### GOLYGYDD YR IFANC

Marged Rhys  
 marged\_3@hotmail.com

### FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Hafan,  
 Llanrug (672221)  
 glasgoed@hotmail.com

### TREFNYDD HYSBYSEBION

Rhian Elin George, Sw'n yr Egan,  
 Brynrefail (01286) 872306  
 ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

### TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon  
 Rhos, Llanrug (01286 674839)

### TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon  
 Rhos, Llanrug (01286 674839)

### TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,  
 Dinorwig (870292)

### TREFNYDD DOSBARTHU

Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.  
 01286 673838

#### GOHEBWYR PENTREFI

**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)

**BETHEL:** Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,  
 Bethel. (01248) 670115

**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts,  
 Godre'r Coed (870580)

**CAEATHRO:** Lowri Ceiriog,  
 4 Erw Wen.  
 lowriceiriog@hotmail.co.uk

**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen,  
 Bodafon, Ceunant (650799)

#### CWM-Y-GLO:

**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt,  
 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**LLANBERIS:** Eifion Roberts,  
 Sw'n-y-Gwynt (870740)

**LLANRUG:** Eryl Roberts, Peris,  
 56 Glanffynnon (675384)

**NANT PERIS:** Kate Pritchard (872331)  
 neu econantperis@hotmail.com

**PENISARWAUN:** Katie Williams, Ty'n  
 Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622  
 ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts,  
 Pantafon, Waunfawr (650570)

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2019

### Rhifyn

Rhagfyr

Nadolig/Ionawr

### Copi i law

17eg Tachwedd

8fed Rhagfyr

### Bwndelu

29ain Tachwedd

20fed Rhagfyr

### Ble

Llanrug

Llanrug

## LLYTHYRAU

### Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï

Yng nghyfarfod Hydref o'r Cylch uchod fe gawsom gwmni yr  
 Athro Sioned Davies o Gaerdydd.

Arweiniodd Sioned ni trwy rai o chwedlau'r Mabinogi a'r  
 cysylltiadau â'r ardaloedd hyn. Canolbwyntiodd yn bennaf ar  
 Chwedl Macsen, yr Ymerawdwr o Rufain a freuddwydiodd am  
 ferch dlos o'r enw Elen a syrthio mewn cariad â hi a'i phriodi ger  
 Aber Afon Saint yn Caersaint yn Arfon. Soniodd fel y bu i Elen  
 adeiladu ffyrdd, fel Sarn Helen o Gonwy i Gaerfyrddin, a'i brawd  
 Cynan yn gwladychu Llydaw ac efallai esgor ar y tebygrwydd  
 rhwng y Gymraeg a'r Llydaweg. Ceir cyfeiriad at Gaersaint yn  
 chwedl Branwen ac yn y bedwaredd gainc, Dylan fab y Don  
 yn rhoi i ni Trwyn Maen Dylan a Maen Dylan. Cafwyd sawl  
 enghraifft arall ac roedd pawb wedi mwynhau noson ddifyr dros  
 ben.

Ar Dachwedd 19eg byddwn yn cael cwmni Mari Emlyn, "Awduron  
 o'r Iawn Ryw". Dowch draw. Croeso cynnes yn eich aros. (Ystafell  
 Gymuned Llyfrgell Caernarfon am 7.30 yr hwyr. )

### Annwyl Olygydd

Y mae partneriaeth o gyrff cyhoeddus, "Grŵp Llywio Tirwedd  
 Llechi Gogledd Orllewin Cymru", tan arweiniad Cyngor  
 Gwynedd, wedi cynnig y dylid enwebu Tirwedd Llechi Gogledd  
 Orllewin Cymru yn Safle Treftadaeth y Byd. Un o amcanion  
 sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd yw cynyddu twristiaeth yn  
 yr ardaloedd chwarelyddol, gan gynnwys Llanberis a'r Cylch.

Mae Cylch yr Iaith wedi mynegi amheuan ynghylch yr enwebiad,  
 oherwydd natur annormal, ddinistriol twristiaeth yn yr  
 ardaloedd Cymraeg. Yn ei chyflwr presennol, y mae twristiaeth  
 yn erydu cymunedau Cymraeg, gan effeithio ar y farchnad dai ac  
 ar ansawdd swyddi, a chan achosi mewnlifiad. Mae ymchwil wedi  
 dangos y gall cael Safle Treftadaeth y Byd mewn ardal waethygu'r  
 effeithiau hynny.

Yr hyn fyddai'n normaleiddio twristiaeth yng Nghymru fyddai ei  
 datblygu fel ag i gyfrannu at ffyniant a sefydlogrwydd cymunedau  
 Cymraeg. Byddai hynny'n gyson ag amcanion Fframwaith  
 Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, sy'n gosod  
 ffyniant y Gymraeg yn un o'i gonglfeini, a rhoddai gyfrifoldeb  
 ar Lywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol i sicrhau hynny.  
 Oni cheir sicrwydd y gosodir amodau ffyniant y Gymraeg yn  
 gymunedol, yng nghyd-destun ceisiadau cynllunio a chyfrannu  
 arian cyhoeddus ar ffurf cymhorthdal a nawdd, yna ni fyddai'r  
 cynllun Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru hwn o fudd i  
 gymunedau Gwynedd.

Y mae Cylch yr Iaith yn gofyn i'r Bartneriaeth sydd y tu cefn i'r  
 cynllun alw ar Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd i sefydlu  
 a gweithredu cynllun rhagbaratoawl a fydd yn gosod ffyniant  
 y Gymraeg yn gymunedol yn amcan hanfodol ym meysydd  
 cyflogaeth, tai a chynllunio, a thwristiaeth. Byddai angen sefydlu  
 polisi yn nodi y byddai'n rhaid i unrhyw ddatblygiad a ddeilliai'n  
 uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ddynodi'r ardaloedd dan  
 sylw yn Safle Treftadaeth Byd fod yn Gymraeg a Chymreig –  
 yn adlewyrchu'n llawn hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol y  
 cymunedau – ac o dan berchnogaeth a rheolaeth leol gyda lles  
 ieithyddol, diwylliannol ac economaidd y cymunedau'n hanfod.

Yn gywir,

Howard Huws

Cydlynydd Ymgyrch Twristiaeth Gymraeg Cylch yr Iaith  
 cyfarchiad@yahoo.co.uk

## RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan**  
**Lywodraeth Cymru**

£50.00 Er cof am Les Orritt,  
 Moranedd, Cwmyglo gan  
 Hilda a'r teulu.

£20.00 Er cof am Yvonne  
 gan Malcolm Pitts a'r teulu,  
 Y Gelli, Llanrug; Er cof am  
 Nellie Morris, Llanberis gan  
 y teulu.

£10.00 Teulu Bron Eilian,  
 Dinorwig.

## WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

**London House**  
**LLANRUG**

**PEN**  
**CIGYDDION**  
**Y FRO**

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS  
 SELSIG CARTRE  
 CIGOEDD PAROD I'W BWYTA  
 ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST  
**MYNWCH Y GORAU**  
**DEWCH ATOM NI!!**

**(01286) 673574**

## ECO'r Wyddfa

**Cefnogwch**  
**ein**  
**hysbysebwy**

## Cofiwn

Ar ddechrau Hydref ymddangosodd ‘Cofiwch Fynydd Epynt’ ar dalcen cysgodfan bws yng Ngroeslon Marc, Llanrug. Rydym yn hen gyfarwydd â’r arwyddion ‘Cofiwch Dryweryn’ sydd wedi britho adeiladau a waliau led-led Cymru ers i’r slogan gwreiddiol gael ei ddifrodi a’i adfer yn gynharach eleni. Ond pam cofio Mynydd Epynt?

Mae Epynt, fwy neu lai, mewn triongl rhwng Aberhonddu, Llanymddyfri a Llangamarch yn yr hen Sir Frycheiniog, yn cynnwys nifer o blwyfi gwledig. Yn 1940 ar fyr rybudd, a heb unrhyw drefniant i ail-gartrefu’r boblogaeth, meddiannwyd 54 o dai gan y Llywodraeth, a chollodd 219 o bobl a phlant eu cartrefi. A hynny er mwyn sefydlu maes ymarfer milwrol ar erwau’r mynydd. Drylliwyd talp o ddiwylliant Cymraeg o fewn ychydig fisoedd. Dros y blynyddoedd aeth llawer o’r hanes yn angof.

Galwyd ar Iorwerth Peate o’r Amgueddfa Werin i ymweld â phob un o’r tai, eu mesur a thynnu lluniau. Roedd ei ymweliad olaf yn ystod wythnos olaf Mehefin 1940, a’r ymarfer saethu i gychwyn ar y cyntaf o Orffennaf. Y cartref olaf iddo ymweld ag ef oedd y Waun Lwyd, a lori wrthi’n cael ei llwytho cyn ymadael. Ac meddai gwraig y tŷ wrtho, “Mae’n ddiwedd byd yma.”

A dyna deitl llyfr Herbert Hughes am hanes Mynydd Epynt a’r troad allan yn 1940. Llyfr a ddylai fod ar restr darllen pob un, yn enwedig y ddwy bennod olaf, ddirdynnod – ‘Y Wasgarfa Fawr’ a ‘Eu tir a gollant’, sy’n dangos diymadferthedd unrhyw gorff na sefydliad Cymreig i wrthsefyll Llywodraeth Lloegr.

Cofiwn Fynydd Epynt.



## Yn ystod y mis aeth heibio ....

• Prinder olew. Na, nid yr un i’w roi yn eich car neu i gynnal eich gwres canolog, ond yr un bwytafwy. Mae coed olewydd, yn enwedig yn yr Eidal, yn dioddef o afiechyd marwol. Hyd yn hyn mae 20 miliwn o goed wedi eu colli, a’r golled i gynhyrchwyr yr olew yn cael ei hamcangyfrif tua £1 biliwn. Daw bron i 70% o holl olew y byd o Ewrop, a’r Eidal yw’r ail gynhyrchydd mwyaf. Bellach, mae’r afiechyd, a elwir yn ‘wahanglwyf olewydd’ wedi lledu i dde Ffrainc.

• Hiliaeth. Cafodd y trafferthion yn Bulgaria yn ystod y gêm bel-droed yn erbyn Lloegr gryn sylw ar y cyfryngau. Disgwylir cosb drom gan Gymdeithas Pel-droed Ewrop a’r corff FIFA. Ond wedi’r holl gondemnio, lai nac wythnos wedi’r digwyddiad, roedd rheolwr tim Haringey Borough yn arwain ei dim oddi ar y cae mewn gem Cwpan FA Lloegr, a hynny oherwydd fod ei golgeidwad yn cael ei bledu â sylwadau hiliol gan gefnogwyr Yeovil. Bu’n rhaid i’r dyfarnwr roi’r gorau i’r gêm. Bydd yn ddiddorol gweld beth fydd ymateb awdurdodau pel-droed Lloegr i’r digwyddiad yn dilyn eu galw am gosb llym i Bulgaria.

• Trydan. Mae cynlluniau cymunedol i gynhyrchu trydan a dwr yn eithaf cyffredin bellach. Ac mae gwynt a haul hefyd yn ddulliau llawer mwy cyfeillgar i’r amgylchedd. Cyhoeddwyd fod y chwarter blwyddyn diwethaf wedi torri record. Am y tro cyntaf roedd mwy o drydan wedi ei gynhyrchu yng ngwledydd Prydain o’r dulliau cynladwy hyn nac o’r hen ddulliau.

• Catalonia. Naw o arweinyddion y mudiad sy’n ymgyrchu am annibyniaeth oddi wrth Sbaen yn cael eu carcharu am gyfanswm o dros gan mlynedd. Gorymdeithiau o rai miloedd a streic undydd yn ninas Barcelona yn gweld heddlu Sbaen yn ymosod ar y protestwyr.

• Morgrug. Mae gwyddonwyr wedi darganfod mai Morgrugyn y Tywod, sy’n byw yn niffeithdir y Sahara, yw’r credaur cyflymaf yn y byd. Gall redeg metr bob eiliad, sef 108 gwaith hyd ei gorff.

• Rhewi. Dyna ddigwyddodd i 39 o bobl a ddarganfuwyd yng nghefn lori yn Essex. Y lori, yn cael ei gyrru gan ŵr o Ogledd Iwerddon, wedi ei chofrestru ym Mwlgaria, ac wedi croesi o Wlad Belg i Essex, ond yn cynnwys Chineaid, a’r cyfan wedi rhewi i farwolaeth. Does wybod ai ffoaduriaid neu gaethion yn y fasnach caethweision oeddent. Ond dyma broblem gynyddol y dylai pob llywodraeth ym mhob gwlad fynd i’r afael â hi, a thrin y rhai sy’n marchnata pobl fel terfysgwyr.

• Brexit. Ydi, mae’n ymddangos fod estyniad arall ar y gweill, a rhai o’r pleidiau bellach yn ffraeo ymysg ei gilydd. Mae’n fis Tachwedd arnoch yn darllen hwn, a noson Calan Gaeaf ‘do or die’ Johnson wedi mynd heibio. Ac mae’n siwr y bydd ambell un mwy milain na’i gilydd yn cynnig ffos addas iddo. A welwn etholiad cyn diwedd y flwyddyn?

## Dyfodol yr ‘Eco’.

Cynhelir y cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol Eco'r Wyddfa yn y Sefydliad Coffa, Llanrug ar nos Fercher, Tachwedd 27ain am 7 o'r gloch.





## Ysgol Llanrug



Llongyfarchiadau i'r criw yma o'r Cyfnod Sylfaen am gwblhau'r sialens ddarllen yn y Llyfrgell dros yr Haf.

### Mis Prysur!!!



Llongyfarchiadau i dim Bl 5+6 ar ei llwyddiant yn nhwrmament Ysgol Friars heddiw. Cynhaliwyd y twrnament er cof am Mr Gareth Parry a oedd yn aelod gweithgar o lywodraethwyr yr ysgol. Mi fuasai mor falch o hogiau ei bentref.

**Hyfforddiant Beicio Cenedlaethol.** Llongyfarchiadau mawr i chi gyd am lwyddo!

#### Diwrnod Gwyrdd

Pawb wedi bod yn dyfalbarhau, cydweithio a mwynhau gweithgareddau meddylfryd o dwf.

#### Rygbi

Daeth y plant i'r ysgol yn eu dillad coch er mwyn cefnogi tim Cymru.



Dosbarthiadau Clegir ac Eilio wedi bod ar helfa'r Hydref yn chwilio ac yn casglu arwyddion yr Hydref.

#### Siarter Iaith

Bu i bawb fwynhau eu bwyd Cymreig tra'n gwrandao ar gerddoriaeth Gymreig.

#### Swyddog Diogelwch

Daeth Shirley Williams draw i wobreuo Llio am ei phoster 20milltir yr awr.

### Cystadleuaeth Tyfu Nionod, Glanffynnon

Dyma'r tro cyntaf i ni gynnal y gystadleuaeth hon dan ofal Colin Jones, 55 Glanffynnon. Cychwynnodd Colin y nionod yn ei dŷ gwydr a rhoi tri nionyn bach i bawb. Cafwyd noson hwyliog yn mesur a phwyso y nionod ar ddiwedd y tymor tyfu a dyma'r canlyniadau. Colin yn gyntaf, Linda yn ail, Emyr yn drydydd, Eryl yn bedwerydd, Harri yn bumed ac Ammelie a Sophia yn chweched. Mi fydd pawb yn ceisio gwella ar y tyfu y flwyddyn nesaf wedi codi 'tips' gan hwn a'r llall. Diolch i Colin am yr hwyl.





E

# Parhad LLANRUG

W

**Apêl Cancr** Yn dilyn Bore Coffi a gynhaliwyd ar yr 20o Fedi yn y Sefydliad Coffa, Llanrug gan grŵp Apêl Uned Cancr a Haematoleg Alaw, pleser yw cael cyhoeddi fod £282 wedi ei gasglu a llawer o ddiolch i bawb a wnaeth ein cefnogi a’n helpu.

Diolch yn arbennig i Haf Thomas, Treceiri, am ei chyfraniad o £25 trwy werthu cardiau mae hi yn eu cynllunio.

Yn wahanol i ‘Awyr Las’ mae’r holl arian yn mynd yn uniongyrchol i’r ward ym Mangor a’r llynedd trosglwyddwyd £23,000 gan y grŵp i brynu meicroscop arbennig i hwyluso gwaith yr uned

Dyma’r tro cyntaf i’r grŵp ddefnyddio’r Ganolfan yn Llanrug i godi arian a gobeithio y cawn ddod eto gyda’r un bwriad y flwyddyn nesaf.

Diolch, Menai Thomas

**Pen-blwyddi** Llongyfarchiadau mawr i Gwawr Evans, Llain Gro, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 60 oed.

Yn yr un modd, llongyfarchion i Daniel Parry, 2 Ffordd Glanffynnon ar ei ben-blwydd yn 40 oed. Gobeithio y cewch hwyl ar y dathlu.

**Pen-blwydd Priodas** Llongyfarchiadau mawr i Geraint a Margaret Parry, Bro Dawel, ar ddathlu eu Priodas Aur ar 18fed o’r mis.

**Gwellhad Buan** Dymunwn wellhad buan i Megan Axon, Hafan Elan. Mae wedi bod yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd ond adref erbyn hyn. Cymerwch ofal a gobeithiwn am wellhad buan. Cafodd ei merch, Anita, ddamwain a thorri ei braich wrth ymweld â’i mam yn yr ysbyty! Cofion gorau atoch chwithau hefyd.

Derbyniodd Rachel Thomas, Ffordd yr Orsaf, lawdriniaeth yn Ysbyty Gobowen yn ddiweddar. Deallwn ei bod hithau yn gwella.

Cafodd Megan Roberts, Gregynog, lawdriniaeth hefyd ac mae yn gwella yn raddol ond mae yn aros am ben-glin newydd ar ddechrau’r mis. Pob lwc ichi.

**Banc Bwyd** Mae basged wedi ei gosod yn y Co-op, wrth y cownter, i gasglu rhoddion at y Banc Bwyd yng Nghaernarfon. Byddent yn ddiolchgar iawn am bob rhodd, bach neu fawr, mae cymaint o deuluoedd mor ddibynnol arnom i’w cefnogi. Diolch yn fawr.

**Profedigaethau** Yn dawel ar y 12fed o Hydref, bu farw Hefin Goronwy Jones, 37 Glanffynnon, yn 73 mlwydd oed. Roedd Hefin yn Uwch Nyrs yn Ysbyty Gwynedd, lle y bu yn gofalu am lawer o gleifion o’r cylch yma o dro i dro yn ofalus a charedig iawn. Mawr oedd y parch tuag ato gan gleifion a chydweithwyr. Roedd yn weddw, yn dilyn marwolaeth ei wraig, Menna.

**Cydymdeimlwn** â’i chwaer, Megan, ei chworiydd yng nghyfraith Ellen a Sian a’u teuluoedd. Bydd colled fawr i’r teulu estynedig, ei gydweithwyr a’i ffrindiau oll, yn enwedig aelodau Band Deiniolen, gan ei fod wedi bod yn aelod ffddlon am flynyddoedd lawer iawn.

Roedd y rhoddion er cof amdano i’w cyflwyno i Wardiau Ogwen a Thryfan a Seindorf Arian Deiniolen.

**Cydymdeimlwn** â theulu Tom Hancock, Hafan Elan, a fu farw yn ddiweddar yn 73 mlwydd oed. Bu Tom yn byw yn ei flynyddoedd cynnar ym Mro Rhyddallt gyda’i rieni a’i chwaer, Margaret. Daeth yn ôl yma i Lanrug gan i’w iechyd ddirywio. Cofiwn at y plant a’i deulu oll.

Ar yr 28afn o Fedi, bu farw Anne Jones, Awelfryn, Nant y Glyn yn 71 mlwydd oed. Bu i’w gŵr, Michael, farw yn ddiweddar. Cydymdeimlwn yn arw â’i mab, Mark, a’i merch yng nghyfraith, Delyth, a’i wyres, Lowri.

**Cydymdeimlwn** hefyd â theulu Dafydd Morris, Cae’r Waun, Penisarwaun. Ganwyd Dafydd yn Ceunant a gyda’i ddau frawd yn berchnogion Becws Cwm y Glo. Anfonwn ein cofion diffuant at Alice, y genod a’u teuluoedd a’r teulu oll yn eu profedigaeth.

**Marwolaeth** Yn 72 mlwydd oed bu farw David Glyn Jones, gynt o Dan y Coed. Roedd yn byw nawr yng nghyffiniau Dinbych, wedi ymddeol a symud yno i fyw. Yn ifanc ef oedd perchennog ‘Fitlock’ a werthwyd i gwmni Hughes Gray.

Gedy wraig, dwy ferch, wyresau a brawd, Eric a Marian o Dan y Coed. Cydymdeimlwn yn fawr â chi i gyd yn eich profedigaeth lem.

**Ffrindiau Ysgol Gynradd Llanrug** Trip siopa, dydd Sadwrn, Tachwedd 23ain, yn cychwyn o Lanrug am 7.30 y bore a theithio’n syth i Lerpwl. Y gost fydd £12. I archebu lle defnyddiwch y linc drwy wefan Arvonia [http://bookings-arvonia.co.uk/Tour/triplerpwlysgol llanrug](http://bookings-arvon<span></span>ia.co.uk/Tour/triplerpwlysgol%20llanrug)

Bydd Ffair Nadolig yn cael ei chynnal nos Iau, 28ain o Dachwedd rhwng 5.0 a 7.0 o’r gloch yr hwyr. Adloniant, bwyd, stondinau busnesau lleol ac mi fydd Siôn Corn yn galw heibio. Croeso cynnes i bawb.

**Eglwys Sant Mihangel yn Y Sefydliad Coffa**

Tachwedd 3ydd : Eglwys Caffi. Gwasanaeth anffurfiol gyda chelf a lluniaeth ysgafn.

Tachwedd 17eg : Gwasanaeth y Cymun Sanctaidd.

Rhagfyr 1af : Eglwys Caffi. Gwasanaeth anffurfiol gyda chelf a lluniaeth ysgafn.

**Plaid Cymru**

Enillwyr Clwb Cant mis Hydref

1...Arwyn Roberts 2.. Carrie Owen

**Llongyfarchiadau** i Siwan Humphreys ar ennill i gradd gydag anrhydedd dosbarth cyntaf. Mae hi rŵan yn fydwraig yn Ysbyty Gwynedd. Braf yw meddwl ei bod yn dilyn ôl troed ei nain, y ddiweddar Mrs Gwyneth Bowyer, Caernarfon. Pob dymuniad da i ti Siwan.

Hefyd llongyfarchiadau i ferch Siwan, sef Betsan Haf. Hi oedd un o’r ddwy chwaer – merched y meddyg – a ymddangosodd yn y gyfres Pili Pala ar S4C yn ddiweddar.



Cefnogwch ein hysbysebwyr

Capel y Rhos  
Oedfaon Tachwedd

3 – Y gweinidog, Parch. Marcus Robinson, Oedfa Cymun  
10 – Parch. D. Coetmor Williams  
17 – Y gweinidog  
24 – Mr Richard Parry Jones, Caernarfon

Dyfodol yr ‘Eco’.

Cynhelir y cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol Eco'r Wyddfa yn y Sefydliad Coffa, Llanrug ar nos Fercher, Tachwedd 27ain am 7 o’r gloch.

## Parhad LLANRUG

### Hafan Elan

Cafwyd diwrnod agoriad swyddogol ar ei newydd wedd ar y 10fed o Hydref. Bu gwaith adnewyddu'r ganolfan yn mynd ymlaen drwy fisoedd yr haf. Mae cegin newydd wedi ei gosod, mwy o le i fyrddau a chadeiriau, toiled ar gyfer yr anabl a sawl gwelliant yn unol â deddfau perthnasol. Mae swyddfa i'r Warden, Beverley, sydd yn ei galluogi i gael lle preifat i drafod anghenion personol.

Agorwyd y Ganolfan gan y Cynghorydd Charles Jones, a oedd yn bresennol yn yr agoriad cyntaf hefyd.

Daeth plant Ysgol Brynrefail yno i ddiddori gyda offerynnau chwyth, a chafwyd cyflwyniad campus ganddynt. Hefyd roedd criw o fechgyn yr ysgol yn bresennol, hwy oedd wedi cynorthwyo i dcluso a harddu yr ardd, dan ofal Beverley, y warden. Roedd dau aelod o staff y Cyngor Tai yno i werthfawrogi y defnydd o'r cyfleusterau.

Cafwyd gwledd o fwyd wedi ei ddarparu gan drigolion a ffrindiau y ganolfan a diolchwyd iddynt am y bwyd bendigedig. Daeth y Blismones Gymuned yno ynghyd â'r merched fydd yn gweini y cinio ar ddydd Mawrth. Mae'r trigolion a'u ffrindiau yn gwerthfawrogi y cwbl, oherwydd bydd yn gwella y cyfleusterau sydd yn cael eu defnyddio bob dydd o'r wythnos.



**Merched y Wawr** Estynnwyd croeso cynnes i nifer dda o aelodau ynghyd ag Anwen, aelod newydd, gan ein Llywydd, Nan Humphreys. Cychwynnwyd gyda Chên y Mudiad a derbyniwyd rhai ymddiheuriadau. Anfonir ein cofion at Megan, Eirianwen a Rachel ac unrhyw aelod nad yw'n teimlo'n dda ar hyn o bryd.

Derbyniwyd cerdyn o ddiolch gan Meirwen yn diolch o galon i bawb a gefnogodd y Penwythnos Breswyl mor lwyddiannus ym Mangor. Dymuna Olwen a Linda ddiolch am y gefnogaeth gref a gafwyd eto eleni. Diolchir am y rhoddion hael gan siopau'r pentref ac am eu cyfraniadau ac i bawb fu'n helpu yn y caffi a'r stondinau. Diolch yn arbennig i Haf am ei chyfraniad eto eleni. Fe gasglwyd y swm anrhydeddus o £437 tuag at Gronfa Macmillan.

Cynhelir Cwis Hwyl Cenedlaethol ar nos Wener, Tachwedd 8fed yn Pant Du. Bydd detholiad o gwestiynau ar y themâu canlynol: Blodau ac amrywiol; Ffasiwn; Cerddoriaeth a'r Cyfryngau; Chwaraeon ac Enwogion. Bydd y buddugwyr yn cael eu cyhoeddi ar Radio Cymru ar ddiwedd y noson. Bydd angen i Gangen Llanrug roi'r raffl yn y noson Cwis.

Cynhelir Ysgol Undydd i Ddysgwyr ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 16eg, yn y Ganolfan Gymraeg i Oedolion, Stryd y Deon, Bangor, rhwng 2.0 a 3.0 o'r gloch pryd y bydd aelodau canghennau Merched y Wawr yn dod i sgwrsio hefo'r dysgwyr.

Bydd Caffi Cartref, Age Cymru, Y Cartref, Bontnewydd, yn darparu Cinio Nadolig bob dydd Mawrth a dydd Iau yn cychwyn Tachwedd 12fed. Archebwch ymlaen llaw ar 01286 808737 os gwelwch yn dda. Ar Ragfyr 4ydd bydd noson i godi arian gyda Wynne 'Elvis' Roberts, Tocynnau £20 yn cynnwys Cinio Nadolig traddodiadol 3 chwrs. Croeso i chi ddod â'ch gwin eich hun. Y noson i ddechrau am 7 o'r gloch.

Beth am ddangos eich doniau creadigol drwy gynllunio cerdyn Nadolig Merched y Wawr 2020 mewn unrhyw gyfrwng. Mae cystadleuaeth cyfansoddi cerdd neu farddoniaeth wreiddiol hefyd i'w roi o fewn y cerdyn. Rhaid i'r cynnyrch gyrraedd y Ganolfan Genedlaethol erbyn Rhagfyr 10fed 2019. Bydd y buddugwyr yn derbyn 2 becyn o gardiau ac £20.

Gŵr gwadd y noson oedd Wil Aaron, arloeswr ym myd teledu fel Cyfarwyddwr a Chynhyrchydd annibynnol a sefydlodd gwmniau teledu ac adnoddau dylanwadol yn lleol. Ffurfiodd gwmni teledu Ffilmiau'r Nant yn 1976, sef y cwmni a gynhyrchodd raglenni fel Hel

Straeon, Sgorio, Almanac a C'mon Midffild i S4C. ef yw awdur 'Poeri i Lygad yr Eliffant' sy'n olrhain hanes 5,000 o arloeswyr o Gymru a deithiodd i'r Gorllewin Gwyllt yn y 19eg ganrif gan groesi y Rockies i Ddinas y Llyn Halen. Dewisodd sôn am ferch arbennig iawn i ni, sef Martha, Maria (Mattie) Hughes Cannon, a anwyd yn Stryd Madog, Llandudno i Peter Hughes ac Elizabeth Evans ar Orffennaf 1af 1857. Pan oedd hi yn dair oed fe ymfudodd y teulu Mormonaidd i Lyn Halen, Utah, ar Fawrth 30, 1860.

Dechreuodd weithio yn 14 oed ac yna aeth i Brifysgol Utah i astudio Cemeg. Graddiodd fel meddyg a gweithiodd yn ddiflino i wella sefyllfa merched yn eu bywyd bob dydd. Yn 1896 llwyddodd i drechu ei gŵr, Angus Cannon, mewn etholiad a dod yn seneddswraig gyntaf yn yr Unol Daleithiau. Gweithiodd yn ddiflino dros iawnderau merched - ym myd addysg ac iechyd a brwydrodd i gael pleidlais i ferched. Bu farw yn 1932 yn 75 mlwydd oed.

Gan nad oedd y ffydd Mormonaidd yn dderbyniol yma yng Nghymru nid oes cofnod ohoni yma. Y mae cerflun efydd ohoni yn Ninas y Llyn Halen, Utah. Yn y dyfodol agos y mae Cyngor Conwy yn bwriadu codi cofeb o lechen er cof amdani ar y Gogarth, Llandudno - y ferch o Landudno a newidiodd wleidyddiaeth yr Unol Daleithiau. Diolchwyd i Wil Aaron am noson hynod ddifyr ac addysgiadol gan Nan. Diolch i Margret, Avril a Menna am ofalu am y baned.

Ar Dachwedd 12fed cawn fwynhau 'Trefniadau Blodau ar gyfer y Nadolig' gyda Petalau Pert.

**Dalier Sylw** Yn hytrach na chael noson o 'Brethyn Cartref' i ddathlu'r Nadolig, byddwn yn mynd i fwyty Y Gwynedd, Llanberis, ar nos Fawrth, Rhagfyr 10fed i fwyta am 7.30. Y mae bwydlen yn mynd o gwmpas. Os gwelwch yn dda dewch â'ch dewis o fwyd ynghyd â'r arian (£20) mewn amlen i'r cyfarfod nesaf neu ei roi i Pat, Ann Lloyd neu aelod o'r pwyllgor..

Bydd Parti Canu'r Gangen dan arweinyddiaeth Mair Huws a Susan, y cyfeilydd, yn cyfarfod yn Ffestri Capel y Rhos, ar gyfer Gwasanaeth Nadolig Capel y Rhos nos Sul, Rhagfyr 1af.

Clychau'r Grug Treuliwyd orig ddifyr a chymdeithasol yng Ngwesty'r Celt bnawn Iau, Hydref 17. Byddwn yn cyfarfod eto yma bnawn Iau, Tachwedd 14, am 2 o'r gloch. Nos Wener, Rhagfyr 13eg byddwn yn dathlu'r Nadolig yng Ngwesty'r Celt am 6.30.

## Dyfodol yr 'Eco'.

Cynhelir y cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol Eco'r Wyddfa yn y Sefydliad Coffa, Llanrug ar nos Fercher, Tachwedd 27ain am 7 o'r gloch.




## CWMYGLO



### Undeb y Mamau

Cyfarfu'r aelodau yn Eglwys St Mair bnawn Mawrth, 17eg o Fedi. Agorwyd y cyfarfod gyda gwasanaeth o'r Cymun Bendigaidd gyda'r Canon R. Donaldson yn gweinyddu. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth rhai aelodau, a chafwyd adod Gorffennaf. Trafodwyd trefniadau am y gwasanaeth fis Tachwedd i ddatlu'r canmlwyddiant. Yn gofalu am y lluniaeth roedd Gwen a Val, ac enillwyd y raffl gan Carys.

Terfynwyd y cyfarfod gyda'r gras yn Gymraeg a Saesneg.



Ymateb y Cymry i'r difrod i'r murlun eiconig ger Llanrhystud yn gynharach eleni fu'r symbyliad i'r awdur Mari Emlyn greu cyfrol ddwyieithog – Cofiwch Dryweryn: Cymru'n Deffro (Y Lolfa).

Meddai'r awdures, Mari Emlyn: "Mae ein dyled yn fawr i'r criw ifanc aeth ati i ailgodi'r wal ac i ailbeintio'r murlun; pobl nad oedd wedi eu geni pan foddwyd Capel Celyn yn chwedegau'r ganrif ddiwethaf. Efallai i fandaliaid y murlun wneud ffafwr â ni wrth i'r deffroad torfol gwladgarol gynyddu fel caseg eira yn sgil eu hanfadaeth. A hyd yn oed pan mae rhai o'r murluniau yma'n cael eu dileu, mae'r Cymry'n dychwelyd yn dawel urddasol i ailbeintio eu teyrngedau."

Peintiwyd y slogan wreiddiol gan yr awdur toreithiog Dr Meic Stephens, a oedd yn fyfyrwr yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth ar y pryd, yn brotest yn erbyn y penderfyniad i foddio Cwm Tryweryn er mwyn darparu dŵr ar gyfer trigolion Lerpwl. Er ei holl gynnyrch llenyddol aruchel, fe daerodd Meic Stephens: 'Dyma fy natganiad enwocaf, fy ngherdd huotlaf, fy ngweithred boliticaidd bwysicaf.'

Mae'r gyfrol yn rhoi hanes ffenomenon murluniau eleni yng nghydestun hanes Capel Celyn gyda chyfraniadau gan dri sydd â'u gwreiddiau o dan ddyfroedd Llyn Celyn: Eurgain Prysor Jones, Gwyn Roberts ac Elwyn Edwards. Adroddir penodau cynnar y stori o'u persbectif personol, yn ogystal â chyfraniad gan Emyr Llewelyn a garcharwyd am flwyddyn am ei ran (gydag Owain Williams a John Albert Jones) i geisio rhwystro adeiladu'r argae yn Chwefror 1963. Ceir hefyd gyfraniad gan y cyflwynydd teledu a radio Huw Stephens, mab awdur y murlun gwreiddiol.

Dilyni'r hyn gan oriel o luniau a phytiau gan y cyhoedd a fu un ai'n peintio neu'n gwerthfawrogi ymdrechion eraill yn ystod y gwanwyn a'r haf – o Ben-y-bont ar Ogwr i Fwlch y Groes, o Langrannog i Lanuwchllyn - a hyd yn oed i Chicago. Blas yn unig a geir o'r cannoedd o furluniau sydd yn parhau i gael eu creu.

Meddai Siôn Jobbins, Cadeirydd Yes Cymru: "Roedd dymchwil mur Cofiwch Dryweryn yn ymgais i ddymchwil cof a hunaniaeth Cymru fel cenedl. Mae'r llyfr hwn yn dangos na wnawn adael i hynny ddigwydd fyth eto. Mae'n gofnod o'r geiriau heriol, dewr ar waliau Cymru i gofio ein hanes a mynnu dyfodol gwell i'n cenedl."

Mae stori Tryweryn wedi dwyshau ei chred bod angen i Gymru, os yw hi am fod yn genedl falch a hyderus, gael gwybod ei hanes ei hun.

## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts  
Ffôn: 870580



**Sefydliad y Merched** Yng nghyfarfod mis Hydref cafwyd cwmni ein Llywydd, Pat Jones, yn arddangos ei dawn o osod blodau. Balch oeddem oll o'i gweld yn gwella yn dilyn ei thriniaeth yn yr ysbyty. Aeth ati i greu tri gosodiad gyda deunyddiau o liwiau'r hydref. Cafwyd cyfle i ennill y gosodiadau mewn raffl a thair o'r aelodau yn cael cludo'r tair arddangosfa adref.

Y cyfarfod nesaf fydd ein Cyfarfod Blynnyddol fis Tachwedd.

Edrychir ymlaen hefyd ar hyn o bryd at gyrsiau Plas Tan y bwlch yn niwedd y mis.

A'r Nadolig yn nesau, mae llawer o'r aelodau eisoes wedi rhoi eu henwau ymlaen ar gyfer y cinio blynnyddol sydd wedi ei drefnu a gyfer eleni ym Mwyty Gwynedd, Llanberis.

Profedigaeth Gofid dwys oedd deall am farwolaeth ddisymwth Diana McBryde, Bryn Llwyd. Mae ein cydymdeimlad cywiraf a'r teulu oll y neu profedigaeth.

### Yr Eglwys Bresbyteraidd

Yr Ŵyl Ddiolchgarwch Bu'r gwasanaeth diolch blynnyddol nos Sul, Hydref 20fed. Y pregethwr gwadd eleni oedd y Parch Carwyn Siddall, Llanuwchllyn. Cafwyd oedfa arbennig a bendithiol dan ei ofal gyda neges dreiddgar a chyfoes wedi ei seilio ar Ddameg yr Heuwr.

Oedfaon Tachwedd am 5 yr hwyr

3: Parch Marcus Wyn Robinson, Gweinidog

10: Parch Ddr Dafydd Wyn Wiliam, Bodedern

17: Parch Cath Williams, Caernarfon

24: Dim Oedfa

### Dyfodol yr 'Eco'.

Cynhelir y cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol Eco'r Wyddfa yn y Sefydliad Coffa, Llanrug ar nos Fercher, Tachwedd 27ain am 7 o'r gloch.

**Cynnyg GOFAL PLANT CYMRU**  
**The CHILD CARE Offer for WALES**

Addysg gynnar a gofal • Early education and care

30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y Llywodraeth i rieni cyn i'ys sy'n gweithio ac sydd a phlant tair a phedair oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

30 hours a week of Government funded early education and childcare for eligible working parents of three and four year olds for up to 48 weeks of the year.

Ar gael yn • Available in  
**Gwynedd a Môn**  
01248 352436  
gofalplant30awr@gwynedd.llyw.cymru



### NOSON CAWS A GWIN:

Ar nos Sadwrn yr 28ain o Fedi cafwyd noson hynod lwyddiannus yn blasu gwin yng nghwmni Marcus Wyn Robinson. Cynhaliwyd y noson er cof am Dewi Jones (Erw Wen) a braf yw cadarnhau fod £950.00 wedi ei gasglu yn ystod y noson. Bydd y swm yma'n cael ei gyfrannu at elusennau o ddewis teulu Dewi. Braf oedd gweld cynifer o drigolion y pentref wedi dod at eu gilydd – a diolch yn fawr i Marcus am ei ddoethineb ac am ein diddannu yn ei ffordd ddi-hafal ei hun!

**CAPEL:** Ar y 3ydd o Dachwedd bydd Gwasanaeth am 2:00pm dan arweiniad y Gweinidog, Y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Ar y 17eg o Dachwedd bydd Gwasanaeth dan arweiniad y Bonheddwr Arwel Williams.

**GWELLHAD BUAN:** Dymunwn yn dda i Nia Jones (Y Dderwen) wedi iddi dreulio cyfnod yn yr Ysbyty yn ddiweddar. Yn yr un modd, cofion cynhesaf a gwellhad buan i Aled Jones (Bryn Gof) wedi iddo yntau dreulio cyfnod yn yr Ysbyty. Cofion atoch eich dau.

**CYDYMDEIMLO:** Estynnwn ein cydymdeimladau dwysaf at Harriet Roberts, 5 Erw Wen, a'r teulu estynniedig yn dilyn eu profedigaeth ddiweddar o golli ei brawd, Victor Pritchard (Bryn Gof gynt).

**CREFFT, CAN, STORI A PHANED PRYNHAWN:** Ar ddydd Sul y 10fed o Dachwedd rhwng 2:30pm a 4:00pm yng Nghanolfan y Capel bydd prynhawn 'Miri a Moli' yn cael ei gynnal. Unwaith eto, bydd digwyddiadau nid yn unig i blant oedran blyneddod 4 – 6, ond eu rhieni yn ogystal. Edrychwn ymlaen i groesawu unwaith eto y sawl sydd wedi mynychu'r miri yn y gorffennol, ond hefyd wynebau newydd!

**CYMDEITHAS CAE CHWARAE CAEATHRO - CYFARFOD BLYNYDDOL 2019:** Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol y Gymdeithas ar nos Lun y 18fed o Dachwedd 2019 yng Nghanolfan y Capel i ddechrau am 8:15pm. Croeso cynnes i unrhyw un o drigolion Caeathro, Rhos Bach a'r cyffiniau. Os oes gan unrhyw un eitem i'r Agenda, cysylltwch â Hefin Hughes Cefn Y Gof. Byddem yn falch o weld aelodau newydd i'r Pwyllgor ar y noson.

**AMSER BWS:** Oherwydd fod y ffordd rhwng Caeathro a Chaernarfon ar gau tan fis Mawrth wrth i waith adeiladu'r bypass newydd barhau, nodwch nad ydi'r bws S4 sy'n gadael Caernarfon am 12:30pm ar ddyddiau Llun – Gwener yn stopio yng Nghaeathro. Mae'r bws yn mynd yn ei flaen yn syth i Geunant. Cadwch lygad ar yr amserlenni bysiau am unrhyw newidiadau eraill yn ystod y cyfnod hwn.

### TYNFA MISOL :


1af (£40) – Pat Jones (Tyddyn Cae);  
2il (£25) – Eryl Jones (Bryn Mair);  
3ydd (£15) – Menna Jones (15 Erw Wen);  
4ydd (£5) – Harriet Roberts (5 Erw Wen).

## Dyfodol yr 'Eco'.

Cynhelir y cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol Eco'r Wyddfa yn y Sefydliad Coffa, Llanrug ar nos Fercher, Tachwedd 27ain am 7 o'r gloch.

## Byw Iaith

### Taith i fyd y Llydaweg



Aneirin Karadog (Gwasg Carreg Gwalch, £8.50)

Mae'r teulu hwn newydd ddychwelyd o Lydaw. Ond nid gwyliau haf oedd eu hymweliad. Aeth y Prifardd Aneirin Karadog, Laura ei wraig, Sisial ac Erwan eu plant a Mukti'r ci i fyw am flwyddyn i wlad y tad-cu a'r fam-gu. Byw drwy'r Llydaweg oedd y nod. Dewch i glywed eu hanesion a'u profiadau!



## Nadolig yn y Cartref

Luned Aaron (Gwasg Carreg Gwalch £5.95)

Mae 'Adfent' yn golygu siocled i blant heddiw. Dyma gyfrol sy'n aildarganfod traddodiadau'r Nadolig yn y cartref a all fynd ar goll ynghanol prysurdeb yr ŵyl heddiw. Lluniau lliw hyfryd, clawr caled – mae'n addurn yn ogystal â bod yn bleser i'w ddarllen.



## Atgofion o Chwarel Dinorwig (parhad)

Yn ystod y blynyddoedd 1937 -1939 yr oedd mynd garw ar y llechi ac yr oedd yn werth gweld y diwydiant yn llwyddo ar ôl y dirwasgiad a fu yn y blynyddoedd cynharach. Yn ystod 1929 ni symudwyd yr un garreg bron o'r chwarel a bu gweithio amser byr. Er hyn yr oedd cyflwr ariannol y cwmni y cyfryw iddynt ddal i gyflogi 3000 o ddynion. Pan agorwyd y farchnad fodd bynnag yr oedd y cerrig yn llifo ohoni fel gorlif afon. Cofiaf yn dda ym Melin Muriau a rhes o waliau yn gweithio cerrig pwysau mawr ac yn llwytho eu hunain i'r wageni, ac yn wir yn methu cael digon o wageni i symud eu cerrig. Byddai criwiau yma yn cuddio y tu ôl i'r felin fach pan ddoi injan fach efo rhes o wageni ac yna yn neidio arnynt gan ddadfachu wagan tra yr oedd yr injan yn symud a'r gyrrwr yn eu rhegi nerth esgyrn ei ben am iddynt ddwyn y wageni a fwriadwyd ar gyfer Braich neu Hafod Owen. Yn yr amser yma daethai injan fawr a phum taith o gerrig i'r Felinheli bob dydd. Golygai hyn ar draws tua 300 tonnall y dydd.

Yn y Caban Bwyta y bwyta y rhan fwyaf o'r chwarelwyr yn bwyta eu cinio ac yno y trafodwyd pynciau perthnasol â'r gwaith, materion Undeb ac yn y blaen. Byddai llywydd a phwyllgor i bob caban a chronfa ariannol ynghyd â phwyllgor elusennol. Yng nghyfarfodydd ffurfiol y caban ni feiddiai neb siarad yno heb dynnu ei het neu ei gap a sefyll ar ei draed. Dygid materion i sylw a chaed trafodaeth arnynt yna pasio penderfyniadau a'u rhoddi i'r cynrchiolwyr i'w cyflwyno i'r cyfrinfa a gynhelid unwaith y mis yn Festri capel Brynrefail. Yno byddai trefnydd yr Undeb yn cyfarfod holl gynrhychiolwyr cabanau y chwarel. Cysylltid yr holl faterion a'r cas achosion ac yn y blaen ac yna tynnu allan penderfyniadau i'w dwyn i sylw'r orychwyliaeth. Arferiad cymeradwy ydoedd y cyfarfod elusennol. Os buasai chwarelwr yn wael dros gyfnod o amser ac amgylchiadau yn o dynn, yna rhoddwyd ei achos i'r pwyllgor elusenol a galwai y cynrchiolwyr ei gaban i'w weld ac i ofyn os oedd yn dymuno cael help. Wedi cael ei gydsynio rhoddwyd ei achos i holl gabanau y chwarel a threfnid darlith neu gyngerdd a chyflwyno yr elw iddo. Gwerthid tocynnau yn y chwarel ac anaml neu byth y gwrthodai neb brynu un. Gellid cael tua £50 o elw i helpu'r anghenus yr adeg honno. Cofiaf yn dda i un bachgen ifanc a oedd wedi bod yn wael am beth amser gael cyngerdd elusenol ac ymhen y mis roedd ganddo fotor beic newydd sbon. Fe'i rhegwyd a'i felltithio ond yn y pen draw, ei gymeryd yn hwyl a wnaï pawb.

Disgrifiai Emyr Jones yn ei lyfr 'Canrif y Chwarelwr' yr agwedd yma i fywyd y chwarelwyr yn gywir iawn ac enwa rhai o'r datgeinwyr a roddai eu gwasanaeth yn ddi-dal yn y cyngherddau yma.

Cynhelid eisteddfodau yn y cabanau mwyaf hefyd a chaed safon uchel o gystadlu ynddynt ynghyd â llawer o hwyl. Cofiaf un hanesyn byr am un yn cystadlu ar yr unawd 'Yr Eneth Gadd Ei Gwrthod'. Aeth i ysbryd y darn mor effeithiol nes ei fod yn beichio crio hanner ffordd drwy'r darn a'r rhan fwyaf o'r rhes flaen yn eu dagrau hefyd.

Y gystadleuaeth gorau oedd uchafbwynt yr eisteddfod. Fodd bynnag cofiaf i gôr caban Muriau o dan arweiniad bob Lloyd Hughes Llanberis guro côr enwog Pen Garret o dan arweiniad Martin Owen. Heriwyd ni i ornest arall, a chytunwyd i gystadlu yn eisteddfod Cefn y Waen Deiniolen. Hogiau Deiniolen ydoedd mwyafrif Côr Pen Garret a hogiau Llanberis a'r cylch oedd aelodau Côr Muriau. Pan gyrhaeddodd ni Ddeiniolen ar noson yr eisteddfod roedd hogiau Deiniolen yn ei haros wrth y bws ac yn ein croesawu'n gynnes i'r Bull am ddiod gan fod digon o amser cyn y gystadleuaeth. Gwelsom y tric yn rhy hwyr. Yr oeddem allan o diwn ar ôl y ddiod a Phen Garret ennillodd ynghanol cymeradwyaeth a hwyl fawr. Cynhaliwyd eisteddfodau yn rheolaidd hyd at 1939 a chafwyd llawer o addysg a hwyl ohonynt. Pan ymddeolai hen chwarelwr, cynhaliwyd cyfarfod ymadawol iddo ynghyd a'i gyflwyno ag anrheg gan y gweithwyr i gyd. Byddai digon o dalentau i gynnal y cyfarfod – canwr, adroddwr, bandiwr a bardd a fuasai'n cyfansoddi pennillion i nodi'r achlysur. Byddai'r bardd neu rigymwr ymhob libart bron a phe byddai modd casglu eu holl ymdrechion buasai llên gwerin pur helaeth gennym.


O'm blaen mae hanes cyfarfod ymadawiad fy nhaid o'r Allt Ddu yn 1924 ac mae'r ffon ddraenen ddu a gafodd bryd hynny yn fy meddiant o hyd. Gyda llaw – mwynhai'r hen ŵr gael bwyd chwarel gan nain a'i gludo o Dŷ'r Ysgol Dinorwig i gaban yr Allt Ddu i'w fwyta gyda'r hogiau amser cinio wedi iddo ymddeol.

Pan oeddem wedi bwrw trwy waith am rhyw ddwy neu dair blynedd yr oeddem yn dechrau meistrol'r grefft ac yn wir yn ymfrostio yn ein medr. Ein camp ydoedd naddu pentwr mwyafrif o gerrig perffaith sgwar ac i fesur a'i gosod yn rhes ddestlus. Yr oedd cael peilen ar draws y wal erbyn cinio yn gryn gamp yr anelem ati, ac yna eu gorffen yn ddwy cyn diwedd y dydd. Golygai hyn tua mil neu ragor o gerrig.

Cynhelid seremoni blodau a garddio yn y cylch ac ynddi cynhelid primin gweithio cerrig lle y cystadleuem am y gwaith gorau o fewn amser penodedig. Ymfalchïaf hyd heddiw i mi ennill ail wobwr yn yr adran dan 18 am hollti a naddu 15 carreg o 18x9 mewn saith munud. Gordon Huws ennillodd y wobwr gyntaf. Cofiaf Dafydd Parri yn ennill yr adran yma hefyd. Y pencampwr ymysg y dynion yr adeg yma fodd bynnag oedd Rheinallt Roberts Caernarfon. Ennillodd dair gwaith yn olynol. Cyfrifid Dafydd yr Helfa a Dafydd ei fab yn awr o Bryngwyddfan Llanberis yn rhai medrus iawn hefyd ac fe ennillon nhw nifer o wobrau ynghyd â Wil Penri Williams a Wil Mona Parry. Un o'r rhai mwyafrif llwyddiannus fodd bynnag oedd Owen Huws Llangadwaladr a oedd wedi gwneud gwyddor bron o weithio primin. Byddai ef yn dysgu jermyn Y Braich yn ystod yr awr ginio ac yn eu cynghori a dangos pob tric iddynt ac roedd sgelin ar eu gwaith ar ei ôl. Llwyddodd fy nhad yng nghyfraith Thomas Williams Blaen Nant a Twm ei fab ennill cwpan ym mhrimin Caernarfon unwaith a chafodd llawer arall wobrau ond nis gallaf eu henwi i gyd.

## Dyfodol yr 'Eco'.

Cynhelir y cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol Eco'r Wyddfa yn y Sefydliad Coffa, Llanrug ar nos Fercher, Tachwedd 27ain am 7 o'r gloch.



**FFRAMIA**  
Parc Padarn Llanberis  
(01286) 870922

**Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU**

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN  
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwyr


www.fframia.com

**BYSUS RHIWLAS**

**BYSUS BACH A MAWR**  
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT  
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.  
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-  
Ffoniwch (01248) 361044

**D. P. OWENS RHIWLAS**





## Mwy o giperiaid – a dyn mewn sgert.....

Mae'r ymateb i hanes ciperiaid y fro yn parhau. Cafodd ciperiaid y Faenol sylw dros y rhifynnau diwethaf, ond y mis hwn trown at Stad arall; stad a fu'n denu enwogion o fyd y cyfryngau a gwleidyddiaeth.

Gan Eirwyn Williams, Llwyncoed, Cwm y Glo y cefais ei hanes pan yn blentyn, yn gweld 'dyn mewn sgert' yn cerdded i lawr yr allt i'r pentref. A phwy oedd y dyn mewn sgert, ond Mr Bell, cipar Bryn Bras, a Sgotyn yn gwisgo kilt ! Dyna, o bosib, y tro cyntaf i rywun yn gwisgo kilt gael ei weld yn y pentref. Adroddai fod Mr Bell yn arbenigwr ar ddal llwynogod mewn trapiau – sy'n anghyfreithlon erbyn heddiw, wrth gwrs. Ond yn od iawn, roedd ganddo lwynog hefyd fel anifail anwes, a gerddai wrth ei ochr ar dennyn. Oes rhywun arall yn cofio hyn?

Elliot Alves, miliynydd oedd perchennog Bryn Bras o'r Rhyfel Byd Cyntaf hyd y 1950'au. Fe fu'n hael iawn i fudiadau lleol a sirol yn ystod ei gyfnod yn byw yma. Fo, wrth gwrs oedd noddwr Cwpan Alves, gyda chystadlu brwd amdano gan glybiau pel-droed y gogledd. Pan fu farw ar ddechrau'r 1950'au, dyna ddiwedd cyfnod, a diwedd cyflogi ciperiaid ym Mryn Bras.

Ond nid Elliot Alves oedd y cyntaf i gyflogi ciperiaid, ac nid Mr Bell oedd y cyntaf. Miliynydd arall o'r enw Stewart Barnard oedd perchennog Bryn Bras ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, ac yr oedd ei dir yn ymestyn ar draws mynydd y Cefn Du ac i lawr at lannau afon Rhythallt. Fel Alves yn ddiweddarach, roedd Barnard yn cyflogi ciperiaid i fagu aci warchod grugieir, gyda gwahoddedigion yn dod draw i'w saethu a gwledda'n ddiweddarach yn y castell.

Wrth gwrs, roedd y trigolion lleol hefyd yn ddigon parod i roi cynnig ar eu saethu – nid am yr hwyl, ond er mwyn cael pryd o fwyd i'r teulu – a hanes y rhai hynny sydd i'w gael yng nghofnodion llys y cyfnod.

Gwr o'r enw Henry Holden oedd yn gipar i Barnard, ac yn 1899 daliodd ddau o Gwm y Glo – Robert H. Hughes a Richard Roberts – yn saethu grugieir ar y Cefn Du. Cawsant ddirwy o bunt yr un.


Fis yn ddiweddarach, yn Hydref yr un flwyddyn, enwir cipar arall – John Roberts a ddioddefodd ymosodiad gan rywun o'r enw Morris Williams. Mae'n ymddangos mai rhyw ffræ bersonol fu achos yr ymosodiad, a ddigwyddodd yn ardal Caeathro. O bosib fod John Roberts, yn wahanol i'r mwyafrif o giperiaid y gwahanol stadau, yn ddyn lleol, a bod ei safle gymdeithasol yn un digon dirmygus yng ngolwg y trigolion.

Flwyddyn yn ddiweddarach, yn 1900, daw achos diddorol o flaen y Fainc yng Ngaernarfon. Roedd dau frawd o Gwm y Glo – Thomas a Robert Williams, eisoes wedi eu cael yn euog o herwheila efo gwn ar fynydd Cefn Du, a hynny ganol pnawn. Ond honnai William Jones, Tanymarian fod y ddau yn y chwarel am dri o'r gloch y pnawn, ac na allent fod ar y mynydd yn saethu. Roedd angen ail-gysidro'r ddedfryd, ond nid felly, oherwydd cafwyd tystiolaeth ychwanegol (ni enwir gan bwy) yn adrodd fod y ddau frawd wedi bod yn cystadlu mewn ymrysonfa saethu yng Nghaeathro ychydig wedi tri o'r gloch y pnawn. Dyna eu gosod mewn tri lle gwahanol ar yr un prynhawn!

Nid yw'r chwarel yn cael ei henwi. Gallai fod yn un o fân chwareli Glyn Rhonwy a Chefn Du. A fyddai'n bosib i'r brodyr fod yn eu gwaith ar ddechrau'r pnawn cyn cerdded ar draws y mynydd (a saethu ambell i rugiar) er mwyn cyrraedd Caeathro i'r ymrysonfa? Pwy â wŷr. Ond cadarnhawyd y ddedfryd o euog, ac anfonwyd William Jones o flaen ei well am ddweud celwydd ar lw.

Ond nid grugieir oedd yr unig adar i gael eu hela ar dir Bryn Bras. Mewn achos llys yn Nhachwedd 1906, rhyddhawyd William Maxwell a William John Hughes o Lanrug ar gyhuddiad o ddwyn ceiliogod y coed o Fryn Bras. Ai cyfflog (woodcock) oedd y rhain?

Ac o ran diddordeb i'r naturiaethwyr yn eich plith, deuthum hefyd ar draws cyfeiriad at Aderyn y Bwn (bittern) yn cael ei saethu ar lannau'r afon Saint, ar dir Bryn Bras, ym mis Rhagfyr 1899. Yn ôl yr adroddiad cafodd yr aderyn ei anfon at rhyw Mr Francis, Naturalist, 105 Stryd Fawr, Bangor.



**GWAITH  
COFFAOL  
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith  
(01286) 672898**

**Cartref  
(01286) 871833  
Symudol 07778 127394**

**Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA**

**Dylan Griffith**  
*Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol*

**TROS-Y-WAEN PENISARWAUN**

*Gwaith Cerrig Beddi  
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol  
24 Awr y Dydd  
Capel Gorffwys Preifat  
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal*

**Ffoniwch ar 1286 871833 (SYMUDOL - 07778127394)**

**Hefyd**



**CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**  
*Cyrhaeddwrch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce  
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL*



## Y Parch J. Eifl Hughes .....

Anfonodd Dafydd Guto fwy o wybodaeth am gyn weinidog Dinorwig a’r Fachwen. Mae’n ymddangos mai ym Mhenmorfa y cafodd ei eni, ac nid yn Nhremadog. Mae’n ymddangos i’r teulu symud i Lanaelhaearn pan oedd tua chwech oed. Ar gyfrifiad 1911 mae’n nodi ei alwedigaeth fel ‘pregethwr’.

A Margaret Roberts, Caernarfon anfonodd gopi o lun y teulu tra’n byw yn yr ardal. Roedd yn weinidog ar ei theulu yn Y Fachwen.

Ond hyd yn hyn, does neb wedi anfon enghraifft o farddoniaeth J. Eifl Hughes. Beth amdani?

## Gleifar Chwarel Cae .....

Anfonodd Margaret Roberts, Caernarfon, adroddiad personol am gipar Moel Rhiwen, a phrofiad un o’i pherthnasau ar lethrau’r mynydd. Yng Ngharreg y Gath, Rhiwlas y trigai ei nain a’i thaid, ond yn 1902 symudodd y ddau i Gaeau Uchaf, Deiniolen. Gyda hwy roedd dau blentyn ifanc: Jennie a Ioan (sef tad Margaret). Cigydd oedd ei thaid, yn danfon o ddrws i ddrws, ond yn ystod Streic Fawr y Penrhyn, ni allai’r chwarelwyr dalu am gig iddo. Ganwyd chwech o blant eraill iddynt tra yng Nghaeau Uchaf.

Tua 1913 aeth Jennie’r ferch i dorri coed ar y slei i Foel Rhiwen. Roedd ganddi gleifar (cleaver) o ddur, pres a phren caled; gwaith cywrain a wnaethpwyd gan frawd ei mam yn Chwarel Cae tua 1890. Tra’n torri’r brigau, clywodd swm, a gwelodd y cipar yn agosau. Dychrynodd gymaint fel y gadawodd y gleifar a’r brigau ar ôl ar y mynydd a rhedeg nerth ei thraed am adref.

Ymhen rhai blynyddoedd daeth gwraig y cipar â’r gleifar yn ôl i’w nain ac mae’n dal i gael ei thrysori gan Margaret heddiw. Bu farw Jennie yn 22ain oed yng Nghaeau Uchaf, flwyddyn ar ôl iddi briodi Richie Morris Deiniolen a chladdwyd hi ym mynwent Macpela.



.....

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro’r “Eco”, neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: [dafydd.wthomas@btinternet.com](mailto:dafydd.wthomas@btinternet.com) neu ar safle [chwilota.wordpress.com](http://chwilota.wordpress.com)

.....



Cysylltwch â Dioni i siarad am eich bwthyn gwylia  
Gwion Llwyd 01341 247 200 [gwion@dioni.co.uk](mailto:gwion@dioni.co.uk)  
**BUSNES LLEOL...CWSMERIAID BYD EANG**

**DODREFN A LLORIAU**  
**PERKINS**  
*FURNITURE & FLOORING*

••• **01286 673535** •••

[www.perkinsfurniture.co.uk](http://www.perkinsfurniture.co.uk)  
16 Stryd Porth Mawr , Caernarfon , Gwynedd . LL55 1AG

## Plaid Cymru

Cynhelir cyfarfod yn Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen ar Nos Lun, Tachwedd 18fed, pan fydd Siân Gwenllian AC yn ymuno â ni ar gyfer cyfarfod cychwynnol cangen newydd Plaid Cymru Deiniolen a Dinorwig. Croeso cynnes i bawb.

Sul y Cofio Cynhelir gwasanaeth eleni am 9.15 ar y 10fed o Dachwedd o flaen y gofgolofn. Gobeithio y bydd cefnogaeth deilwng eto eleni.

**Llongyfarchiadau Mawr** i Ceinwen ar ennill y gadair yn Eisteddfod Benllech mis diwethaf, Cariad mawr oddi wrth Taid a Nain a'r teulu a phob lwc i ti yn y dyfodol.

**Gŵyl Deiniolen yn dathlu'r 10** Eleni, i ddathlu 10 mlynedd o gynnal yr Ŵyl yn Neiniolen, mae gig fawr wedi ei threfnu ar nos Wener, Tachwedd 22ain, yng nghlwb Llanberis. Yn diddanu fydd Dylan a Laura, Dilwyn Morgan a Gwibdaith Hen Fran. Mi fydd bws o'r pentref i Lanberis ar y noson. Tocynnau ar gael gan aelodau'r pwyllgor, dewch yn llw i gefnogi.

**Profedigaeth** Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at deulu a ffrindiau Mr Hefin Goronwy Jones yn dilyn ei farwolaeth yn ddiweddar. Mi roddodd flynyddoedd o wasanaeth i fand y pentref ac, yn rhinwedd ei swydd yn nyrsio yn Ysbyty Gwynedd, fe roddodd ofal a chysur i gannoedd o blant ac oedolion fel rhan o'i waith. Dyn arbennig iawn ym mhob ystyr o'r gair.

**Cymdeithas Lenyddol Deiniolen** Cafwyd noson agoriadol hynod o ddifyr eleni yng nghwmni Mr Neville Hughes, Bethesda, a fu'n diddanu'r rhai a fynychodd gyda straeon a chan gan sôn am ei gyfnod yn aelod o Hogia Llandygai. Roedd yn dda gweld ambell aelod newydd ar y noson ond mi fyddai'n dda gweld mwy o gefnogaeth i'r nosweithiau yma gan eu bod yn nosweithiau digon difyr a hwyliog. Mi fydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 28ain yng nghwmni Annwen Jones o Archifdy Caernarfon ac yna ar Dachwedd 25ain gyda Gari Wyn o Ceir Cymru.

**Cyngerdd y Nadolig** Cynhelir cyngerdd mawr yr Ŵyl yn Eglwys Crist ar nos Sul, Rhagfyr 22ain, am 6yh. Bydd nifer o artistiaid lleol a chenedlaethol yn cymryd rhan a chynhelir y cyngerdd er mwyn codi arian at gronfa atgyweirio'r eglwys. Ceir mwy o wybodaeth mis nesaf.

## COFIO'R OFFEIRIAD HOFFUS

Trist oedd clywed am farwolaeth un o gyn Ficeriaid Plwyf Llandinorwig ym mis Hydref eleni, sef y Canon Evan Trefor Jones, yn 87 oed. Ym Mawrth 1997 ymddeolodd gan symud i fyw i Landudno gyda'i briod, Beryl, a mwynhau bywyd yn fawr iawn yno. Mwynhaodd fywyd Cymraeg y dref gan fod yn aelod o'r Cymrodorion, Clwb y Gogarth a phregethu a wnaeth yng Nghapeli Cymraeg y dref ac yn Nyffryn Conwy a mynychu Eglwys y Drindod Sanctaidd lle roedd gwasanaeth Cymraeg bob bore Sadwrn. Roedd yn falch o'i wreiddiau cynnar ym Mlaenau Ffestiniog a hynny yn gymdeithasol, addysgol ac Eglwysig. Unig blentyn i Trevor a Gladys Jones ydoedd a threuliodd flynyddoedd hapus yn Ysgolion Maenofferen a'r Moelwyn cyn mynd i Brifysgol Bangor gan raddio yn y Gymraeg a Hanes yn 1954. Yno y cyfarfu â Beryl, ei briod, a oedd yn fyfyrwr Almaeneg a phriododd y ddau yn 1957 yn Eglwys y Santes Fair ym Mangor lle yr aeth Trefor yno fel curad am chwe mlynedd ar ôl ei ordeinio yn 1956. Cyn ei ordeinio aeth i Goleg Diwinyddol arbennig iawn yn Mirfield yng ngorllewin Efrog a chafodd y sefydliad Eingl Gatholig hwn ddylanwad mawr arno. Ar ôl ei guradiaeth gwasanaethodd ym mhlwyfi y tair "LL" sef Llandinorwig, Llanbeblig a gorffen yn Llanfairfechan.

Tra yma yn Neonïaeth Arfon bu'n ysgrifennydd Siapter a Chynhadledd y Ddeoniaeth am dair blynedd ar ddeg; yn Olygydd cylchgrawn y Ddeoniaeth am ddeng mlynedd ac yn Olygydd Y Ddolen, sef cylchgrawn Esgobaeth Bangor am yr un cyfnod. Pedair ar ddeg oeddwn pan ddaeth i blwyf Llandinorwig i ofalu am Eglwys Crist, Llandinorwig a'r Santes Fair yn Ninorwig. Fel teulu ni wnawn fyth anghofio ei garedigrwydd enfawr pan gafodd fy nhad lawdriniaeth fawr oherwydd llwch y Chwarel yn Ysbyty Llangwyfan, a olygai arhosiad hir yno. Mewn dyddiau argyfyngus roedd ei garedigrwydd yn gwbl arbennig ac fe brofodd eraill yr un gofal o fewn yr ardal. Pan ysgrifennais Gwynfyd Gwaun Gynfi (2007) sef hanes Canrif a hanner Eglwys Llandinorwig cefais ganddo ei atgofion hynod ddiddorol a llawn am ei gyfnod yn y plwyf o 1962-i 1971 ac maent yn werth eu darllen. Perthynai rhinweddau arbennig iddo ac roedd ei waith offeiriadol a chymdeithasol yn cyfoethogi pawb; roedd ei hoffter o bobl a'i barch at bawb yn nodedig, ac roedd y traddodiad Cristnogol ac Eglwysig a'r Gair Sanctaidd yn bwysig iddo. Aiff ein cydymdeimlad gyda'i briod Beryl a'r hogia Dewi, Huw ac Arwel a'u teuluoedd.

Idris Thomas

## Trefi Cymru'n derbyn hwb i gynllunio ar lawr gwlad

Bydd pobl sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli mewn trefi a chymunedau ar draws Cymru'n elwa ar adnodd newydd i'w helpu i ddod o hyd i gyfleoedd yn eu hardaloedd.

Gwefan ddwyieithog newydd sy'n cael ei gydlyn gan y Sefydliad Materion Cymreig yw Deall Lleoedd Cymru, sy'n darparu gwybodaeth am economi, cyfansoddiad demograffig a gwasanaethau lleol mwy na 300 o leoedd yng Nghymru a hynny ar ffurf hylaw a hawdd.

Bydd yr ystadegau'n darparu gwybodaeth am ystod eang o bynciau gan gynnwys nifer y lleoedd ysgol, siopau ac elusennau yn yr ardal, cyflogaeth, pellteroedd teithio, hunaniaeth genedlaethol a niferoedd siaradwyr Cymraeg.

Bydd hyn nid yn unig yn caniatáu i bobl â diddordeb yn eu tref ddysgu mwy am eu hardal, ond bydd y wefan hefyd yn helpu cynghorau tref, grwpiau cymunedol, elusennau a llunwyr polisi i greu gwasanaethau sy'n gweddu i gymunedau unigol ar draws Cymru.

Er bod gwefannau data eraill yn cyflwyno gwybodaeth ar lefel awdurdod lleol, mae Deall Lleoedd Cymru'n caniatáu i bobl ddadansoddi ystadegau am bob lle yng Nghymru lle mae mwy na 2,000 o drigolion.

Yn ogystal ag archwilio data am leoedd unigol, gall pobl gymharu trefi a dysgu am berthynas eu lle â chymunedau cyfagos ac eraill ar draws Cymru. Y nod yw annog pobl i greu perthnasau ar draws ffiniau cymunedol, rhannu syniadau a deall yn well y perthnasau sy'n bodoli yn holl drefi eu hardal.

Mae Deall Lleoedd Cymru, sy'n cael ei hariannu gan Ymddiriedolaeth Carnegie UK Trust a Llywodraeth Cymru, yn cynnwys cofnodion unigol ar gyfer pob lle yng Nghymru lle mae mwy na 1,000 o drigolion a'r gallu i gymharu lleoedd gyda mwy na 2,000 o drigolion. Lansiwyd y wefan ym Mae Caerdydd ar yr 8fed Hydref.

Gellir cyrchu'r wefan newydd yn [www.dealllleoeddcymru.cymru](http://www.dealllleoeddcymru.cymru) ac mae fersiwn Saesneg ar gael yn [www.understandingwelshplaces.wales](http://www.understandingwelshplaces.wales).



## Ysgol Gwaun Gynfi



Wythnos Godio - plant Blwyddyn 6 yn dysgu am Alan Turing / Yr Enigma



Disgyblion y Meithrin



Diwrnod Owain Glyndŵr. Welsh Whisperer wedi perfformio i'r holl ysgol. Wedi cyfansoddi cân gyda disgyblion y CA2.



Mr Owen wedi cychwyn clwb pêl-droed yma yn yr ysgol ar nos Fercher.

## GWAHODDIAD I GASGLU TORIADAU EITHIN I AEAFU ANIFEILIAID FFERM - AM DDIM.

Bydd prosiect Cysylltu Comin a Chymunedau Uwch Gwyrfai yn ymgymryd mewn gwaith rheoli rhostir trwy ystod y misoedd nesaf. Amcan y rheoli yw gwella safon cynefin rhostir ar gomin Uwch Gwyrfai.

Adnodd gall un weld fel gwastraff yw toriadau eithin a grug o waith rheoli. Mewn gwirionedd gall toriadau grug ac eithin fod yn fuddiol i ffermydd fel gwlâu i stoc, yn enwedig os mae am ddim. Gall arbed arian ar wellt ac yn y blaen.

Mae'r toriadau yn cael yw defnyddio fel gwlâu i aeafu anifeiliaid mewn siediau ledled y wlad mewn nifer o esiamplau llwyddiannus. Mae'n adnodd sy'n hawdd yw storio. Gall storio tu allan yn yr awyr agored.

Mewn siediau mae angen gosod tua 30cm o'r toriadau ar y llawr. Ond mwy y gorau! Caiff yw defnyddio gan ffermwyr gwartheg, defaid, moch ac ieir ym Mhen Llyn ac Ynys Môn.

Wedi ei ddefnyddio gall yw casglu gyda thail ac yw gwasgaru ar y caeau yn y gaeaf. Fel arall gall adael i bydru am ddwy flynedd. Mae manteision trwy wasgaru ar y tir nodiadol. Er enghraifft - 4.88kg o Nitrogen am bob tunnell gwasgarwyd.

Am fwy o wybodaeth am y manteision o ddefnyddio eithin fel gwely i stoc, ymchwiliwch - 'Defnyddio Gwasarn Rhostir' gan PONT.

Os mae diddordeb gan y chi cysylltwch â Dion Roberts ar 01766 772 221 neu 07917651973.

## Plaid Cymru

Cynhelir cyfarfod yn Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen ar Nos Lun, Tachwedd 18fed, pan fydd Siân Gwenllian AC yn ymuno â ni ar gyfer cyfarfod cychwynnol cangen newydd Plaid Cymru Deiniolen a Dinorwig. Croeso cynnes i bawb.

## Profedigaeth

Y mis yma eto yr ydym fel ardal yn gorfod wynebu colli un o blant y pentref. Yr ydym wedi colli Hefin Goronwy Jones, gynt o 5 Maes Eilian, ond yn byw ers priodi yn Llanrug. Yr oedd yn fab i'r diweddar Mr a Mrs David Jones ac wedi bod yn weddw ers wyth mlynedd ers pan gollodd Menna Wyn. Yr oedd Hefin yn ei saith degau cynnar ac yn frawd i Margaret Arfon, neu fel yr adnabuwyd hi yn yr ardal, Megan. Deallaf i'r enw newid pan fu iddi hi yn gynnar yn ei hoes symud at ei nain i fyw i Ynys Môn. Mae'n golled fawr i Megan oherwydd ei bod yn naw deg tri oed ac yn dibynnu ar Hefin, ac i'r ddiweddar Mair. Cafodd salwch blin ac er ei fod yn gweithio yn Ysbyty Gwynedd ers tri deg chwech o flynyddoedd, gwrthodai fynd i weld ei feddyg teulu na meddyg yn yr ysbyty hyd nes y bu rhaid rhoi pwysau arno i gysylltu â meddyg, a rhaid cyfaddef ei fod wedi gadael pethau yn rhyw hwyr, Mwya'r piti.

Pan yn blentyn yma yn Ninorwig yr oedd yn selog iawn yn Eglwys Sant Mair a byth yn colli'r Ysgol Sul. Ar ôl derbyn ei addysg yn Ysgol Brynrefail aeth i weithio i Peblig yng Nghaernarfon. Pan aeth yno gyntaf, y Parchedig Gwynfor Williams, Llanberis gynt, oedd yn gyfrifol am yr ochr iechyd a diogelwch ac ar ôl iddo fo adael, cafodd Hefin ei

le. Yr adeg hynny bu i Gwynfor Williams drio'i berswadio i fynd i nyrsio. Pan fu i Peblig gau aeth yn syth fel nyrs i Ysbyty Gwynedd, lle y bu iddo weithio ei hun i'r top a phawb yn ei ganmol am ei waith a'i wên bob amser. Y doctoriaid bob amser yn ei ganmol.

Rhaid peidio anghofio am y band oherwydd dechreuodd chwarae corn yn ifanc iawn. Os yn pasio Maes Eilian nid yn aml y gallech fynd heibio heb glywed Hefin yn chwythu y corn. Dyma oedd ei bleser reit i'r diwedd. Nid wyf yn credu yr aiff yn angof tra y bydd sôn am fand arian Deiniolen.

Bu farw ar Sadwrn, 13eg o Hydref, yng nghwmni rhai o'i deulu yn Ysbyty Gwynedd lle yr oedd wedi treulio cymaint o'i oes. Yr ysbyty a'r band oedd ei fywyd.

Nid oedd wiwsôn am ymddeol, felly gwaith a gwely fu ei oes. Nid oedd yn hoffi bod yn ei gartref heb neb i siarad â fo. Yr oedd unigrwydd yn llethol iddo. Y mae rhyw ddywediad 'Nid da fod dyn ei hunan'.

Bu'r gwasanaeth yn yr Amlosgfa ym Mangor ddydd Sadwrn, 19eg o Hydref, dan ofal y Parchedigion R.O. Jones, Gaerwen; Gwynfor Williams, Caernarfon a John Pritchard, Llanberis. hefo'r lle dan ei sang, heb anghofio Band Deiniolen. Yn methu bod yn bresennol roedd y Canon Idris Thomas a'r Parch Geraint Roberts. Rhoddwyd ei weddillion i orffwys hefo Menna, ei ddiweddar wraig, ym Mynwent Macpela Deiniolen.

Cydymdeimlwn yn fawr â Megan, gan y byddai hefo hi bob dydd Mawrth a llawer amser arall, mae'r golled yn anferth. Megan, cymerwch gysur bod Hefin heddiw allan o'i boen yng ngofal y Brenin

mawr ac yr wyf yn gobeithio y cewch nerth ac iechyd i ddal y brofedigaeth mae eich Duw yn siŵr o ofalu amdano. Credwch ynddo.

Hefin, Diolch i ti am yr hyn a wnest i lawer a chei seibiant yng ngofal dy Greawdwr.

'Cwsg a gwyn dy fyd'.

Yn ystod y mis daeth y newydd trist i'r ardal am farwolaeth Mrs Beryl Owen, neu i ni Beryl Evans. Daeth Beryl i'r ardal i fod yn gwmni i'w nain, Mrs Morris, 2 Maes Eilian, gan fod ei modryb Mrs Katie Lloyd Hughes yn gweithio fel athrawes. Yr oedd Beryl yn weddol ifanc ar y pryd. Bu iddi gartrefu hefo'i modryb hyd nes y bu iddi briodi hefo Dr Tudor Owen.

Bu hefo ni yn yr ysgol bach Dinorwig ac yna yn ysgol Brynrefail. Aeth o'r ysgol i weithio yn y lab yn ysbyty C & A Bangor lle y bu iddi gyfarfod â Tudor a phriodi. Bu iddynt gartrefu yng Nghonwy lle yr oedd Tudor yn feddyg teulu a dyna lle y bu hyd iddynt ymddeol. Ganwyd iddynt dri o blant, dau ohonynt ar Fawrth 1af. Os wyf yn cofio, dau o hogiau ac un ferch. Dewi oedd enw y mab cyntaf ar ôl Dewi Sant, wrth gwrs.

Yn ôl a ddeallaf bu farw yn sydyn yn wyth deg oed. Bu y gwasanaeth claddu yn yr Amlosgfa ym Mangor. Cydymdeimlwn â'i phriod a'r plant a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth. Boed iddynt gael nerth oddi uchod yn ystod y dyddiau tywyll yma a chael eu creawdwr yn agos. Derbyniwch fel teulu ein cydymdeimlad llwyraf â chwi fel ardal Dinorwig.

**Diolch** Rwyf yn sicr ein bod, fel ardalwyr, yn hynod

o ddiolchgar i Curiad Calon Cymru a Gorsaf Drydan Dinorwig am gael diffibriliwr yn yr ardal a'i osod yn hen iard y Ganolfan. Hefyd diolch i'r Cynghorydd Elfed Williams am gydweithio â hwy. Diolch o galon iddynt gan obeithio na fydd raid gwneud defnydd ohono ond os bydd, gobeithio y bydd yno cyn diwedd y flwyddyn.

**Diolchgarwch am y Cynhaeaf** Mae tymor y Diolchgarwch hefo ni unwaith eto a dyn a ŵyr mae gan bob un ohonom le mawr i ddiolch amdano, er nad yw fel y diolchgarwch yr ydym ni yn ei gofio, pryd yr oedd tri gwasanaeth y Sul a'r Llun, ac wrth gwrs cael cwmni y plant ar y pnawn Llun i gymeryd y gwasanaeth. Yn anffodus mae'r Ysgol Sul wedi peidio â bod yn y mwyafrif o'r capeli, heb sôn am gynnal gwasanaeth Diolchgarwch. Tybed a welwn y bydd Diolchgarwch iawn yn dod yn ôl, mae yn sicr ein bod wedi colli rhywbeth arbennig iawn. Os oes capel yn dal mewn bod ar ei draed, capel hefo rhyw ddwsin neu lai ydyw. Mae dydd Llun Diolchgarwch heddiw wedi ei anghofio, Mae'r gair bach 'Diolch' wedi peidio â bod. Gwyn fyd y gwelwn ef yn ôl rhyw ddydd.

Fel y llynedd mae aelodau Cefn y Waun ac Ebeneser wedi cael eu cyfarfod Diolchgarwch yn Nhŷ Elidir, pryd y cyflwynwyd rhoddion i Fanc Bwyd Caernarfon a'r gwasanaeth yng ngofal y Gweinidog, y Parchedig John Pritchard.

Cofion Hefo llawer o gwyno yn yr ardal, gobeithio am wellhad a chofion annwyl atoch i gyd. Hefyd cofion annwyl iawn at Mrs Megan Morris, Minffordd gynt, yn y cartref yn Llanberis ers peth amser yn awr.

## Dyfodol yr 'Eco'.

Cynhelir y cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol Eco'r Wyddfa yn y Sefydliad Coffa, Llanrug ar nos Fercher, Tachwedd 27ain am 7 o'r gloch.



**Pwyllgor Gymuned** **Neuadd** Enillwyr y Clwb Cant am fis Tachwedd oedd Sharon Cunningham ac Eurgain Haf, Rhiwen, Pontypridd.

Dymunir diolch i'r gwirfoddolwyr am stiwardio ym Marathon Eryri fore Sadwrn, Hydref 26ain. Anfonir ein cofion at Liz a Pat Larsen a phawb sydd ddim yn dda eu iechyd yn y pentref.

**Cinio Nadolig y Pensiynwyr** Byddwn yn mynd i Westy Buckley, Biwmares, ar Sadwrn Rhagfyr 14. Bydd y bws yn cychwyn o flaen yr Ysgol Gymuned am 12.45. Enwau i Mrs Janet Ash ar 871265 erbyn Tachwedd 29ain os gwelwch yn dda.

**Cydymdeimlad** Anfonir ein cydymdeimlad dwysaf at deulu Cae'r Waun yn eu profedigaeth o golli Dafydd (Dafydd Becar), priod annwyl Alice, tad a thaid amhrisiadwy, brawd a brawd yng nghyfraith hoffus.

Ein cydymdeimlad hefyd â Carol, Doris, Margaret a'r teulu yn eu profedigaeth o golli ewythr annwyl, Eryl Adlam.

**Pêl Bonws** Enillydd mis Mehefin oedd Arnold Roberts, Hafan Elan, Llanrug. Llongyfarchiadau.

**Ysgol Sul Undebol Bosra** Fore Sul, Hydref 6ed, treuliwyd orig hyfryd llawn gweithgareddau gyda Susan Williams, Gweithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd EFE, elusen Gristnogol a sefydlwyd gan aelodau rhai o gapeli ac eglwysi dalgylch Eco'r Wyddfa.

Fe fwynhaodd y plant gyfuniad o chwarae gemau, peintio, croeseiriau, caneuon llawn symudiadau yn ymwneud â stori Noa. Cafodd pob un plentyn gyfle i addurno teisennau bach gyda eisin glas fel awyr a smartis amryliw fel yr enfys - arwydd o heddwch. Diolch i Siân Arfon a Leona am helpu gyda'r plant.

Fore Sul, Hydref 13, treuliwyd orig hyfryd yng Ngwasanaeth Diolchgarwch Sul y Teulu ar y cyd ag ysgolion Sul Llanberis a Bethel yng Nghapel Cysegr Bethel am 10.30. Diolchir i'r plant a gymerodd ran ac am gefnogaeth y rheini. Diolchir hefyd am y croeso cynnes ac am y baned ar ddiwedd gwasanaeth hyfryd a chyfeillgar. Rydym yn anfon ein cofion anwylaf at Anti Liz ac yn gobeithio y caiff driniaeth i'w chlun cyn y Nadolig. Gobeithir trefnu trip i Lanberis i weld Siôn Corn cyn y Nadolig.

Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul, Tachwedd 10fed. Mae croeso o hyd i aelodau newydd ymuno â ni yn yr Ysgol Gymuned o 10 tan 11.15 y bore.

Bwriedir ymuno ag aelodau Eglwys Santes Helen fore Sul y Cofio, sef Tachwedd 10fed wrth Cofeb yr Eglwys am 11.00.

### Eglwys St Helen

#### Gwasanaethau'r Eglwys

Cynhelir Gwasanaeth o Gymun Bendigaid yn Eglwys pob dydd Sul am 11yb

Sul y Cofio 10/11/2019 Fe fydd Gwasanaeth y Sul yma yn ddechrau am 10.45yb gyda

#### Gwasanaeth

wrth y gofeb am 11yb. Bydd aelodau o Ysgol Sul Bozra yn ymuno â ni ac mae croeso i bawb ymuno yn y Gwasanaeth arbennig a phwysig yma.

#### Gwasanaethau Diolchgarwch am y Cynhaeaf

Carai swyddogion yr Eglwys ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd flodau, llysiau, ffrwythau ac a i bawb wnaeth helpu i addurno'r Eglwys mor brydferth ar gyfer yr Ŵyl, Fe gynhaliwyd Cymun Bendigaid Teuluol ar fore Dydd Sul, Hydref 13eg, a derbyniwyd nifer fawr o fwydydd yn ystod y Gwasanaeth i'w rannu gyda Banc Bwyd yng Nghaernarfon a chartref y

digartref ym Mangor. Braf oedd gweld cynulleidfada dda yn y gwasanaeth. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

Ar nos Lun, Hydref 14eg, am 6yh cynhaliwyd gwasanaeth hwyrol Diolchgarwch a chafwyd pregeth arbennig o dda gan ein pregethwr gwadd, y Parch Ganon Dylan J Williams, Ficer Bro Eifionydd a da oedd gweld nifer lluosog yn y gwasanaeth yma.

**Swper y Cynhaeaf** Yn dilyn y Gwasanaeth Diolchgarwch yn Neuadd yr Eglwys fe gynhaliwyd Swper y Cynhaeaf am 7yh. Cafwyd sgwrs wych gan ein siaradwr gwadd Mr Dafydd Glyn Ellis o Frynrefail gan iddo rhannu rhai o'i dalentau Gwaith Coed gyda ni. Da oedd gweld y Neuadd yn llawn i'r achlysur

blynyddol yma.

**Dydd Sul y Digartref** Dydd Sul, Hydref 13eg, yn Eglwys St Helen fe gynhaliwyd gwasanaeth

arbennig i gofio am y digartref. Gwnaed casgliad rhydd o £73.30 a bydd yn cael ei rhoi i Shelter Cymru a thaleb o £10 i un o'r digartref ar y stryd yn Llandudno, Diolch o galon i bawb a gyfrannodd yn hael.

**Cronfa'r Fynwent** Fe gydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd canlynol tuag at gronfa

cynnal a chadw'r fynwent: £30 gan Mr & C Baylis Llanberis; £20: Mr Ron Beechey, Biwmares a £10: er cof am Mr & Mrs P Williams gan Mr & Mrs K. Williams, Waun.

**Te, Tost a Sgwrs** Fe gynhelir te, tost a sgwrs yn Neuadd yr Eglwys am ddim! bob bore dydd Llun o 9 tan 11yb. Croeso cynnes i bawb.

Gyrfa Chwist Cynhelir Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys pob nos Fawrth am 7yh.

**Bingo Arian** Fe gynhelir Bingo Arian yn Neuadd yr Eglwys pob nos Fercher, drysau yn agor am 7yh, bingo yn ddechrau am 7.15yh.

**Noson Jin** Fe gynhelir noson blasu Jin yn Neuadd yr Eglwys Nos Wener Tachwedd 8fed o 7 tan 9.30yh. Bydd cyfle i chi ddod i samplu gwahanol 'jins', gan ddistyllfeydd Aberfalls a Dinorwig, a phrynu anrhegion Nadolig tra yn gwrandao ar adloniant gan y band, Bwncath. Mae tocynnau ar gael drwy Mrs

Louise Ingham Evans, Gilwern, neu ar lein drwy gwnglo Noson Gin Penisarwaun a'r facebook



**Siân Gwenllïan**  
Aelod Cynulliad  
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a hi yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

**Swyddfa Etholaeth**  
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR  
(01248) 372948

**Swyddfa Etholaeth**  
8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE  
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



**Hywel Williams**  
Aelod Seneddol  
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

**Swyddfa Etholaeth**  
8 Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE  
01286-672076

**neu**  
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR  
01248- 372948  
williamshy@parliament.uk

## Bore coffi Macmillan

Ar y seithfed ar hugain o fis Medi fe gynhaliwyd Bore Coffi Macmillan yn llyfrgell yr ysgol ar gyfer disgyblion y chweched dosbarth a staff yr ysgol. Eleni fe lwyddwyd i gasglu £462.53 ar gyfer yr elusen. Cafodd y bore coffi ei drefnu gan grŵp o ddisgyblion o flwyddyn 12. Cafwyd llawer o gyfraniadau o gacenni gan y disgyblion a'r athrawon. Derbyniwyd nifer fawr o gacennau blasus i'w rhannu ar y diwrnod. Rydym yn ddiolchgar am yr holl gyfraniadau, rhai ariannol ac eraill.

Eleni, yn ychwanegol at y bore coffi yn y llyfrgell fe ddaeth criw o enethod blwyddyn 11 at ei gilydd er mwyn gwerthu cacennau ar stondin yng nghefn y neuadd ar gyfer y disgyblion iau. Fe wnaethant hwythau elw da ar y diwrnod.

Mae'r arian a gasglwyd am alluogi i ddioddefwr cancr gael nyrs Macmillan i'w cefnogi drwy eu triniaeth cancr. Arbenigwyr yn y maes gofal cancr yw nyrsus Macmillan sydd hefyd yn gynghorwyr i'r cleifion. Maent yn cynnig ysgwydd i grio arni yn ystod adegau caled a hefyd mewnbwn a chymorth proffesiynol, nid yn unig i'r cleifion ond i'w teuluoedd hefyd.

Erbyn hyn mae Bore Coffi Macmillan yn draddodiad yn Ysgol Brynrefail sy'n cael ei gynnal o flwyddyn i flwyddyn gan y disgyblion hŷn ac rydym yn falch iawn o gefnogi'r elusen hynod bwysig yma. Diolch i bawb a helpodd ar y diwrnod ac i bawb a wnaeth gyfraniad.

## Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

Roedd cyfle i bawb wisgo coch dydd Gwener Hydref 18 gan ei bod hi'n ddiwrnod 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth'. Rydym yn arfer cefnogi'r elusen yma yn flynyddol bellach gan ein bod fel cymuned gynhwysol yr ysgol am ddangos ein bod yn erbyn unrhyw fath o ragfarn tuag at bobl ac yn yr achos yma yn gwrthwynebu hiliaeth o unrhyw fath. Fe aeth rhai o flwyddyn 12 ati i werthu bisgedi coch i godi arian ar amser egwyl a chynhaliwyd gem bel-droed rhwng y chweched dosbarth a'r staff. Diolch i bawb oedd yn gyfrifol am y trefniadau ac i'r holl ddisgyblion am gefnogi'r diwrnod pwysig yma. Rydym yn falch o gefnogi'r elusen yma yn yr ysgol sy'n cyhoeddi bod pob person waeth bynnag beth fo lliw ei groen yn haeddu ei drin yn deg ac â pharch bob amser.

## Prif ddisgyblion 2019 - 20



Ar ddiwedd tymor yr haf cyflwynodd nifer o ddisgyblion blwyddyn 12 geisiadau i fod yn brif ddisgyblion o Fedi 2019 ymlaen. Cawsom ein plesio gan gynnwys y ceisiadau a'r syniadau oedd gan y disgyblion am fywyd yn yr ysgol a'r chweched dosbarth. O ganlyniad penderfynwyd creu Swyddogion i gynorthwyo'r Prif Ddisgyblion wrth eu gwaith.

Prif Ddisgyblion 2019-20 – Gwenllian Griffiths ac Ynyr Pritchard

Dirprwyon – Rhydian Williams a Beca Jones

Swyddog Amgylchedd – Elen Williams

Swyddog Cyfle Cyfartal – Anna Thomas

Swyddog Cymdeithasol – Twm Herd

Swyddogion Iechyd a Lles – Iolo Roberts ac Osian Thomas.

Llongyfarchiadau iddynt bob un a phob lwc wrth eu gwaith eleni.

## Adroddiad Ymweliad Colegiul "Ion Ghica", Târgoviște, Rwmania 30 Medi – 3 Hydref 2019

Trwy gynllun Erasmus+ a ariannir gan yr Undeb Ewropeaidd, rydym yn Ysgol Brynrefail wedi bod yn ddigon ffodus i gael ein gefeillio gydag ysgol yn Rwmania – Colegiul "Ion Ghica" yn Târgoviște, sydd oddeutu 50 milltir o'r brifddinas, Bucharest.

Amcan y prosiect yw rhannu arfer dda ym maes Cymhwysedd Digidol. Gyda datblygiadau ym myd Technoleg Gwybodaeth a Chyfrifiaduereg yn symud yn gyflym a chyson, a Chymru yn y broses o gyflwyno Fframwaith Cymhwysedd Digidol newydd, mae'n fwriad gan y ddwy ysgol i gymharu addysgeg yn y maes, wrth ddysgu am ddiwylliant, hanes a thraddodiadau Cymru a Rwmania.

Wedi hir baratoi, a chyfathrebu trwy e-bost am bron i flwyddyn ymlaen llaw, fe laniodd 5 o ddisgyblion (Alexia, Armand, Radu, Maria ac Andreea), a dwy athrawes (Carmen Rădulescu a Cristina Tanislav) o Colegiul "Ion Ghica" ym maes awyr Luton ar brynghawn Sul, Medi 30, cyn dal bws mini a theithio i Ddoc Fictoria, Caernarfon, ble roeddent yn aros tra ar eu hymweliad.

Roedd yn fwriad i ddangos i'n gwsteion sut mae Gogledd Cymru wedi tyfu i fod yn un o gyrchfannau antur gorau'r byd, felly i ffordd a ni'r bore canlynol i Zip World yn Chwael y Penrhyn i gymryd rhan mewn cartio, ac wrth gwrs, mynd ar y wifren wib fyd enwog. Wedi dod dros eu pryder cychwynnol o orfod taflu eu hunain o ben hen chwael, a hedfan trwy'r awyr ar gyflymder o hyd at 100 milltir yr awr, roeddent yn llawn cyffro a gwefr – roedd yn sicr yn un ffordd o dorri'r garw gyda'n cyfeillion newydd!

Treuliwyd y ddeuddydd nesaf yn yr ysgol yn arsylwi a chymryd rhan mewn gwersi. Gyda chydweithrediad y staff, cawsant gyfleoedd eang i brofi arlwy Ysgol Brynrefail ym maes Cymhwysedd Digidol, o wersi Kitronik, mewnbwnu ac allbwnu, adnabod cydrannau cyfrifiadurol a rhyngweithiau cyfrifiadurol i ddefnyddio Techsoft 2D Design yn y gwersi Technoleg a Keynote mewn gwrs Gymraeg. Cawsant hefyd gyfle i gyfarfod swyddogion y 6ed dosbarth er mwyn cymryd rhan

mewn gweithgaredd cwestiwn ac ateb. Roedd hyn yn gyfle i ddysgu am y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y system addysg yng Nghymru a Rwmania. Daeth yr uchafbwynt ar brynghawn Mercher, gyda staff a disgyblion Colegiul "Ion Ghica" yn ymuno gyda disgyblion blwyddyn 7 Brynrefail i gymryd rhan yng nghystadleuaeth Brwydr y Bygis.

Yn ddiweddarach y noson honno, fe ymunodd athrawon a disgyblion y 6ed dosbarth gyda'r Rwmaniaid yn nhafarn y Black Boy yng Nghaernarfon er mwyn cyd swpera. Roedd yn gyfle euraidd i bawb ymlacio a chymdeithasu a rhannu straeon am ein profiadau o dyfu i fyny yng Nghymru a Rwmania. Diddorol i ni fel athrawon oedd deall oherwydd bod adeilad Colegiul "Ion Ghica" yn rhy fach i'r 1,300 o fyfyrwyr, bod yr addysgu yn digwydd mewn shiftiau o 8:00 y.b. hyd 1:00 y.p. a 2:00 y.p. hyd 7:00 y.p. Roedd Carmen Rădulescu o ganlyniad yn rhinwedd ei swydd fel dirprwy yn gorfod gweithio o 8:00 y.b. hyd 7:00 y.p. bob dydd. Roeddent yn ystyried ein hunain yn ffodus bod gennym yma ym Mrynrefail bennaeth, dau ddirprwy a dau bennaeth cynorthwyol i rannu baich y dyletswyddau rheolaethol, o gymharu gyda phennaeth ac un dirprwy yn Colegiul "Ion Ghica" – er bod yna 500 yn fwy o ddisgyblion yn yr ysgol.

Tra bu'r athrawon yn siarad siop, roedd y bobl ifanc hwythau'n mwynhau'r cymdeithasu. Mae'n amlwg iddynt fwynhau cwmni ei gilydd, gan iddynt i gyd fynd ymlaen ar ôl bwyd i gartref Ynyr Pritchard ym Mhorth yr Aur i chwarae cardiau a gwrando ar gerddoriaeth. Diwrnod o weithgareddau oedd y dydd Iau olaf, felly cyfarfu pawb ein tywysydd Emrys Llewelyn ar y Maes yng Nghaernarfon am 9:30 y.b. i gael taith dywys o amgylch y dref hynafol, rhannu straeon, dweud jôcs a datguddio rhai o berlau cuddiedig Caernarfon. Cafwyd toriad byr er mwyn cynhesu dros de, siocled poeth a choffi yng Nghaffi Maes, cyn mynd i gael taith dywys o amgylch castell Caernarfon gyda Sue Kirk. Wedi gwrando'n astud ar straeon am hanes Macsen Wledig, Llywelyn ap Gruffudd, Madog ap Llewelyn ac Owain Glyndŵr, roedd pawb yn





haeddu cinio blasus yn Wal, Stryd y Plas.  
Wedi hamddena ychydig a phrynu ambell anrheg i deulu a ffrindiau yn ôl yn Rwmania, roedd hi'n amser dal y siarabang drachefn ar gyfer ein gweithgaredd olaf – taith ar gwch RIB ar y Fenai. Er bod y glaw wedi dod erbyn hyn i roi gwir groeso Cymreig i'n ffrindiau, ni lesteiriwyd ein brwdfrydedd wrth i ni wibio o dan Bontydd Menai a Britannia, a heibio Eglwys Sant Tysilio ac Ynys Gorad Goch. Rhannwyd straeon diddorol am breswylwyr lliwgar Plas Newydd, Kyffin Williams, y Llyngesydd Nelson a Syr David Hughes.  
Gyda'r amser wedi dod i ffarwelio fe rannodd y disgyblion a'r athrawon rai o'u prif argraffiadau o'u cyfnod yma yng Nghymru. Yr hyn oedd wedi eu taro fwyaf oedd y modd roedd addysg yng Nghymru'n bartneriaeth, gyda'r athro a'r disgybl yn rhanddeiliaid cyfartal. Roeddent yn hoff o weld bod addysgu'n seiliedig ar broses o ddysgu mentro a methu gan arwain at lwyddiant yn y diwedd. Roeddent yn credu bod y modd y defnyddir dysgu cydweithredol hefyd yn gryfder mawr.  
Yng ngeiriau Maria Neaga "Wedi treulio amser yng Nghymru – roeddem yn teimlo mor gartrefol fel fy mod am aros! Er bod y dyddiau'n lawog, roedd y profiadau'n wych. Dysgais lawer, cefais hwyl a gwnes ffrindiau. Cyfrannodd at fy natblygiad personol a phroffesiynol, ac ni allaf aros i'r myfyrwyr o Gymru ddod i Rwmania i mi gael eu tywys o amgylch y dref a'r Ysgol". Ategwyd hyn gan Radu Neaga a ddisgrifiodd y profiad fel "Un

o brofiadau gorau fy mywyd. Cefais ddysgu am addysg yng Nghymru, datblygu fy sgiliau digidol a chyfarfod llawer o bobl fendigedig. Felly hefyd Andreea Dumitrache a ddywedodd "Roedd yn brofiad anhygoel. Yn ogystal â phensaerniaeth unigryw'r ardal, mwynheais gwrdd â'r bobl – a oedd mor agored a chroesawgar, a chael profi Ysgol ble mae'r disgyblion yn rhydd i fynegi eu hunain a ble gwerthfawrogrir creadigrwydd".  
Gyda chysgod BREXIT yn gwmwl cyson dros bopeth, un o brif gryfderau'r profiad gefeillio Erasmus+ i ni fel athrawon a phobl ifanc oedd gwerthfawrogi, er gwaethaf gwahaniaethau ieithyddol, hanesyddol a diwylliannol, ein bod fel pobl yn rhannu'r un dyheadau, uchelgeisiau, pleserau ac ofnau (gwifren wib!!) mewn bywyd. O weld y bobl ifanc yn cymdeithasu'n rhwydd a chwbl ddiragfarn â'i gilydd, credaf fod y dyfodol yn ddisglair.

Iwan Barker-Jones  
Cydlunydd Cysylltiadau Rhyngwladol



Profi antur y cartio a'r wifren wib yn Chwarel y Penrhyn




Sesiwn Cwestiwn ac Ateb gyda'r 6ed Dosbarth



Radu, Alexia ac Armand yn astudio cydrannau cyfrifiadur



Cymryd rhan gyda Blwyddyn 7 yng ngweithgaredd brwydr y Bygis



Taith dywys o amgylch Caernarfon gyda Emrys Llewelyn



Taith RIB ar y Fenai



Swper ffarwelio yn Nhafarn y Black Boy, Caernarfon





**Merched y Wawr** Nos Iau, Medi 26, croesawodd Bethan, ein Llywydd, am y tymor, bawb yn ôl i'r gangen wedi'r toriad dros yr haf. Llongyfarchodd Iris a Keith a Menna ac Elfyn, fu'n dathlu eu Priodas Ruddem. Anfonodd gofion annwyl at Cadi a'i chroesawu adref wedi iddi dreulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd gofynnodd i Glenys ein cofio at Haydn a Dylan. Cydymdeimlad â Nia a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam a nain. Hefyd cydymdeimlodd ac Olwen a theulu Llidiart Wen yn eu profedigaeth o golli modryb i Olwen. Llongyfarchwyd Doris, Heulwen a Sylvia ar ddathlu pen-blwydd arbennig. Diolchodd i Pat am baratoi adroddiad ariannol y gangen am 2018 - 2019.

Bu Menna, Trysorydd y gangen, yn brysur yn derbyn a chofnodi tâl ymaelodi a chyfraniad yr aelodau at y baned a'r raffl. Soniodd Bethan am y Cwis Cenedlaethol sydd yn cael ei gynnal ym Mhant Du, Penygroes, nos Wener, Tachwedd 8fed. Bydd pryd o fwyd i'w gael am 6.30 o'r gloch am £10 y pen. Timau o bedair fydd yna a'r cwis yn dechrau yn brydlon am 7.30 o'r gloch. Mae Ysgol Undydd wedi ei threfnu i ddysgwyr a chyfle i Ferched y Wawr fynd i helpu rhwng 2 a 3 o'r gloch ar Tachwedd 16, yn Canolfan Cymraeg i Oedolion, Stryd y Deon, Bangor. Bydd noson Gelf a Chrefft ar nos Wener, Hydref 18, yn cael ei gynnal yng Nghlwb Golff Caernarfon. Bydd croeso cynnes i bawb. Os ydych am fwy o fanylion am y gweithgareddau cysylltwch â Carys, yr Ysgrifennydd neu Bethan. Bu cryn drafod a dewis lleoliad y Cinio Nadolig ond fe benderfynwyd. Bydd Carys yn brysur yn trefnu. Hefyd trafodwyd cefnogi ymgyrch y Llywydd Cenedlaethol i gasglu sbwriel o amgylch y Ganolfan a'r maes chwarae.

Roedd Heulwen wedi dod â ffeiliau yn cynnwys hanes cyfarfodydd Cangen Merched y Wawr a fu ac roedd yn ddiddorol edrych drwyddynt. Diolch i aelodau y pwyllgor fu'n paratoi paned a lluniaeth ysgafn blasus iawn. Gill

enillodd y raffl. Bydd y cyfarfod nesafar nos Iau, Hydref 24, yn y Ganolfan. Delyth Parry fydd yn cynnal y noson, yn arddangos a thrafod nwyddau 'Body Shop'. Mae croeso cynnes i aelodau newydd ymuno.

**Y Cylch Meithrin** Mae'n dda gweld y Cylch Meithrin wedi ailgychwyn yn y Ganolfan a'r plant bach dwy a thair oed yn cael cyfle i gyfarfod, adnabod a mwynhau cwmni ei gilydd. Diolch i'r rhai fu'n gyfrifol am ymdrechu i ailsefydlu y cylch. Yn y Ganolfan am 8.45 o'r gloch hyd 10.45 y bore y mae'r cylch yn cyfarfod yng ngofal Meleri Gwyrfaï a Ffion Roberts, ac am un ar ddeg o'r gloch maent yn croesawu disgyblion Dosbarth Meithrin yr ysgol i'r Clwb Cinio am ddwy awr. Dymuna rheini y plant sy'n mynd yn selog i'r Cylch ddiolch i'r rhai weithiodd yn selog a llwyddo i ailagor y cylch Meithrin yma.

Mae Cylch Ti a Fi y pentref yn cyfarfod yn wythnosol yn y Ganolfan hefyd, ac yn falch o groesawu mamau neu warchodwyr a'r rhai bach rhwng 2 a 3 o'r gloch y pnaen.

**Clwb Bowlio** Mae Clwb Bowlio Mat Byr Waunfawr yn cyfarfod bob dydd Mawrth o 2 tan 4 y prynhawn ac ar ddydd Iau o 7 tan 9 yr hwyr yn y Ganolfan. Croeso i chi ddod i drïo. Rydym bob amser yn edrych am aelodau newydd. Mae peli ar gael i'w benthg yn y Clwb. Am fwy o fanylion ffoiniwch yr Ysgrifennydd ar 07919093877.

**Dathlu Pen-blwydd Priodas Arbennig** Estynnwn longyfarchiadau mawr i Beryl a Dewi, Dôl y Coed, Stad Bod Hyfryd, a fu'n dathlu cyrraedd dydd eu Priodas Aur ddydd Gwener, Hydref 18. Mwynhewch yr achlysur yn fawr.

**Croeso Adref** i Michael a Delyth, Stad Bod Hyfryd, wedi iddynt gael gwyliau hynod o ddiddorol a phrysus yn Japan. Roedd eu taith hedfan o faes awyr Manceinion i Tokyo yn cymryd 13 awr. Roedd tîm Rygbi Cymru yno a bu'r ddau yn gwisgo eu dillad coch yn eu cefnogi yn eu gêm yn erbyn Georgia a Chymru yn ennill.

Cafodd Michael fwyd Siapanaid - sushi, sef

psygodyn amrwd a reis blasus iawn, meddai, hefo diod sake. Doedd Delyth ddim yn rhy siŵr o'r bwyd ond fe fwynhaodd ddathlu ei phen-blwydd arbennig yno. Roedd Delyth wedi rhyfeddu at lendid y wlad a charedigrwydd a sirioldeb y trigolion ac yn ddiolchgar eu bod wedi cael bod yno.

**Ar y Teledu** Ar raglen Prynhawn Da un diwrnod gwelsom Gerallt Pennant, un o'r cyflwynwyr, yn ymweld â Karen yn arlunio a phaentio yn ei stiwdio Gelf yn y Waun ac yn sgwrsio â hi i am ei diddordeb a'r pleser sydd yn ei denu i'r gwaith.

Ar raglen arall gwelsom gyflwynydd Garddio a Mwy gyda Duncan Brown ym Mharc Dyddli ac ar fferm yn y pentref yn edrych ar y coed ynn ac yn trafod y clefyd sydd yn ymosod ar y coed y dyddiau yma.

Un nos Sul ary rhaglen Dechrau Canu Dechrau Canmol roedd y Parchedig Townsend yn ein harwain o amgylch Ynys Enlli ac yn tynnu ein sylw ac yn trafod llecynnau diddorol ar yr ynys. Roedd unigolion a chynulleidfya yn canu emynau ar y rhaglen hefyd.

Mae'r Parchedig Townsend a'r teulu wedi symud o'r Waun i ymgartrefu ym Miwmares. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd.

Brynhawn Iau, Hydref 10, gwelsom Diane a'r hogiau, William a Ianto, Afallon, ar y rhaglen Tŷ Arian yn arbrofi gyda nwyddau ac yn dyfalu pan un o dri oedd yn rhagori ac yn rhoi mwyafrif o werth am ei bris. Wedi arbrofi gyda hylif golchi llestri, blasu gwin, blasu bwyd a phrynu yn ofalus a chynnil, roedd yn bosib cynilo swm go dda o arian mewn blwyddyn. 'Profiad brilliant,' meddai Diane.

**Babanod Bach Newydd** Llongyfarchiadau i Rosie a Matthew sy'n byw yn Wrecsam ar enedigaeth eu merch fach, Ella Rose Winson. Wyres i Tony Brown, 2 Bryn Golau a Helen Brown.

Daeth Heulwen Huws, Argoed, yn nain i eneth fach, Begw Nel, merch i Elin a Meurig sy'n byw yng Nghaernarfon

a chwaer fach i Macsen. Llongyfarchiadau i chi a phob hwyl ar y magu a'r gwarchod.

Llongyfarchiadau i Beth ac Arron, 3 Cwrt Cae Glas, ar enedigaeth mab bach, sef Llew, brawd i Math. Wyr bach i Janet a Peter a gor-ŵyr i nain Gwladys a taid David ac, wrth gwrs, gor-ŵyr bach i nain Grace. Bydd Llew yn cael ei ben-blwydd yr un diwrnod â'i fam bob blwyddyn!

Llongyfarchiadau i Lyn a Barry Hanks, 2 Dôl Erddi, ar ddod yn nain a thaid i'w wyres fach newydd, Enia Lois, merch fach i Sharon eu merch a Mark. Cyfnither fach i Llio Mair.

Daeth Sharon a Steve, Stad Tref Eilian yn nain a thaid i Hari Alan, mab i Ffion a'i phartner, Leon. Llongyfarchiadau i chi a mwynhewch gwmni yr un bach. Mae'r teulu yn byw yng Ngarndolbenmaen.

**Bedydd** Yn newyddion Bethel ym mhapur bro Y Ffynnon, Bro Eifonydd, darllenais bod Gryffudd Morus, mab bach Sian ac Osian Elfryn, ŵyr newydd Ann a Morus Elfryn, Coed Gwydryn, wedi cael ei fedyddio. Gweinyddwyd gan y Parch Christopher Brew, brynhawn Sul, Medi 8fed.

**Profedigaeth** Cydymdeimlwn â Mark, Delyth a Lowri, Llys y Waun, yn eu colled a'u hiraeth o golli mam i Mark, mam yng nghyfraith Delyth a nain annwyl i Lowri.

Daeth y brofedigaeth o golli ei frawd, Raymond, i ran Bernard, 1 Stad Bryn Golau, brawd yng nghyfraith Pat ac ewythr Awen a Haf a'i theulu yng Nghaernarfon. Roedd y diweddard Raymond yn daid i Lisa a'i phartner, Iwan, sy'n byw ym Maes Teg yma yn y Waun. Anfonwn ein cofion cynnes atoch yn eich profedigaeth.

Yn dawel yn Ysbyty Eryri, wedi gwaieidd hir bu farw Leslie Jones, Bro Dawel, priod annwyl Eirian, brawd, brawd yng nghyfraith, cefnder ac ewythr hoff i'w nithoedd a'i neiaint. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda chi yn eich profedigaeth a'ch colled. Bu'r gwasanaeth angladd yn Amlogsgfa Bangor o dan ofal y Parch Marcus Wyn Robinson.



# Parhad WAUNFAWR



**Cydymdeimlo** Drwg oedd gennym glywed bod Victor John Pritchard, Bryn Gof, Caeathro, wedi marw ar 8fed o Hydref ar ôl hir gystudd. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w fab, Gethin, Maes Gwynedd; ei ferch, Delyth; ei wyresau Cadi a Ffion a'i fab yng nghyfraith, Rhys, Stad Tŷ Hen, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

**Capely Waun** Cyhoeddiadau mis Tachwedd am 10 o'r gloch

- 3: Mr Aled Job
- 10: i'w drefnu'r
- 17: Mrs Susan Williams
- 24: Mr John Robinson.

Wedi seibiant drwy fis Awst a gwasanaethau y capel yn ailafael ddechrau Medi, croesawyd Eurwyn Williams, Parc, atom i'r oedfaon.

Ar y Sul cyntaf ym mis Hydref, anfonodd Eurwyn Griffith gofion cynnes at Mrs Catherine Jones, Cadi, Haydn, Doctor Williams a Treflyn a Gwenda, meddai Pat. Maent wedi derbyn meddyginiaeth a gofal yn yr ysbyty. Anfonwn ninnau ein cofion gorau atynt.

**Adref o'r Ysbyty** Croesawn Mrs Margaret Owen adref o'r ysbyty wedi iddi dreulio cyfnod yno yn cael gofal.

Hefyd croesawn Mr Tomos H. Williams adref o'r ysbyty wedi iddo yntau dderbyn gofal yno am gyfnod.

Croeso adref o'r ysbyty hefyd i Mila, merch fach Jan, Stad Bro Waun, wedi iddi fod yn sâl ac angen gofal yn yr ysbyty.

Anfonwn ninnau ein cofion cynnes atynt hwythau

## Ysgol Waunfawr

Rydym yn dymuno'n dda i'r 17 cyn ddisgybl sydd wedi dechrau yn Ysgol Uwchradd Brynrefail.

**Plant Newydd a Staff** Estynnwn groeso arbennig i'r pymtheg o blant y dosbarth Meithrin. Maent wedi ymgartrefu'n hapus yn ein plith ac yn blant da iawn. Estynnwn hefyd groeso cynnes iawn i Mr Llion Wyn Jones yn athro yn nosbarth Moel Eilio, a Mrs Gwenan Elis Jones a fydd yn dysgu blwyddyn Derbyn ac 1 bob dydd Llun a blwyddyn 2 bob dydd Gwener.

**Diwrnod Roald Dahl** Dathlwyd Diwrnod Roald Dahl ddydd Gwener, Medi y 13eg, ac roedd hi'n hyfryd gweld y plant wedi gwisgo fel cymeriadau o'i lyfrau.

**Capteiniaid y tai** Etholwyd y canlynol o flwyddyn 6 yn gapteiniaid i'r timau gogyfer â'r flwyddyn i ddod. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Capteiniaid Eilio – Mirain a Math

Capteiniaid Cwellyn – Erin a Harri

Capteiniaid Gwyrfai –Cadi a Sion

Enwebwyd yr 8 disgybl sy'n weddill o flwyddyn 6 yn is-gapteiniaid i'r timau

**Y Cynghorau Ysgol** Eleni, rydym wedi gadael i ddisgyblion blwyddyn derbyn i flwyddyn 6 ddewis pa gyngor yr hoffent fod yn aelod ohono. Golyga hyn fod pob plentyn yn aelod unai o'r Cyngor Ysgol, Cyngor Siarter Iaith neu'r

Cyngor Eco.

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o bob cyngor yr wythnos diwethaf. Byddant yn cyfarfod unwaith bob hanner tymor.

Roedd yn braf iawn gweld y disgyblion hynaf yn arwain y sesiynau trafod gyda'r plant ieuengaf.

## Amcanion y tymor hwn

Y Cyngor Eco

- Cynnal pnawn di-drydan a gynhaliwyd ddydd Mercher.

- Cefnogi yr ymgyrch ailgylchu Genedlaethol.

- Cefnogi yr ymgyrch cerdded i'r ysgol ym mis Hydref.

- Cynnal gwersi beicio i flwyddyn 6.

## Cyngor Y Siarter Iaith

- Cefnogi Tîm Cymru yng Nghwpan Rygbi y Byd.

- Trefnu sesiwn ddrama/ miwsig / dawnsio gwerin i'r disgyblion.

- Dysgu am hanes yr ardal leol a chael ymweliadau i gyd-fynd â themâu tymhorol.

## Y Cyngor Ysgol

- Sefydlu Radio Ysgol

- Sicrhau sesiynau cerddoriaeth Gymraeg rheolaidd

**Y Ras Hwyl** Cafwyd Ras Hwyl a Ffair Fedi lwyddiannus iawn. Gwnaed dros £1000 o elw. Mawr ddiolch i'r criw bach o aelodau y Pwyllgor Rhieni am drefnu'r noson. Diolch i chwi fel rhieni am gefnogi. Enillwyr y ras oedd:

Blwyddyn 1: 1af Beca Beech, 2il Catrin Jones, 3ydd Jacob

Blwyddyn 2: 1af Alfie Roberts, 2il Alffi Harris, 3ydd Loti Jen

Blwyddyn 3: 1af Cai Dafydd,

2il Lewis Clack, 3ydd Tomos Jones

Blwyddyn 4: 1af Llio, 2il Ceiri, 3ydd Jac

Blwyddyn 5: 1af Dion, 2il Tyrese, 3ydd Brython

Blwyddyn 6: 1af Hari, 2il Cadi, 3ydd Math.

**Ailgylchu** dillad Diolch i bawb am gefnogi yr ymgyrch ailgylchu dillad. Derbyniodd yr ysgol tua £150.00 gan yr Antur dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Tric a Chlic** i rieni y dosbarth Meithrin a Derbyn. Diolch i bawb a ddaeth i'r noson.

## Gweithgareddau Hybu Sgiliau Beicio

Bydd disgyblion bl.6 yn derbyn gwersi beicio ar ôl yr hanner tymor.

## Cyfrif Trydar yr ysgol

- Cofiwch hefyd ddilyn digwyddiadau yr ysgol ar ein cyfrif 'Trydar' (Twitter) @ysgolwaunfawr Bydd yr athrawon dosbarth yn anfon lluniau a gwybodaeth yn wythnosol, fel eich bod yn cael blas o'r gweithgareddau a ddigwyddodd yn y dosbarth dros yr wythnos.

## Dyddiadau i'w cadw mewn cof;

- Cynhelir Nosweithiau Rhieni blwyddyn Meithrin i flwyddyn 6 cyn yr hanner tymor.

**Cydymdeimlo.** Ar ran Pwyllgor yr "Eco" anfonwn ein cydymdeimlad i Nan Roberts, gohebydd y pentref, yn ei phrofedigaeth ddiweddar o golli ei brawd, Leslie Jones (Les Gadda). Ein cydymdeimlad hefyd â'i weddw ac â gweddill y teulu.

**Y Storfa Spar Llanrug**

Sgwâr Llanrug  
**01286 673108**

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun - Sadwrn 6:30am - 9 pm, Sul 8am - 9pm

North Wales  
**SIGNS**  
Gogledd Cymru

Uned Unit | **A9** | Cibyn Ind Estate | northwalessigns.com  
grid76.co.uk | 07766956673



## EISTEDDFOD



Cynhaliwyd yr Eisteddfod yn y Neuadd ar Hydref 19, a gobeithir cael adroddiad ac ambell i lun yn rhifyn mis nesaf. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfranodd yn ariannol at yr Eisteddfod. Yn y llun gwelir Llyr Elwyn ennillydd y Tlws Cynradd, ac Heledd Huws y Tlws Uwchradd yn yr Adran Lenyddol. Cyfeiriodd y beirniad Angharad Blythe at waith safonol iawn gan y ddau. Erfyniaf arnoch i gario ymlaen nid yn unig i gystadlu ond i freinio'r grefft o dderbyn beirniadaethau gan feirniaid profiadol.

## CYDNABOD RHAGORIAETH



Yn dilyn yr adroddiad wedi'r Ymchwiliad diweddaraf oedd yn cydnabod safonau yr Ysgol fel 'rhagorol' gwahoddwyd Gwion Owen y Prifathro i gyfarfod arbennig yn y Senedd (dim angen cyfieithiad!). Roedd Llywodraeth Cymru wedi gwahodd cynrychiolwyr o'r ysgolion gyrhaeddodd y safon aruchel yma. Cyflwynwyd tystysgrif benodol i'r Pennaethiaid ar ran y disgyblion (gwir sêr yr ysgolion) gan Kirsty Williams y Gweinidog Addysg a Meilir Rowlands, Pennaeth Estyn. Braff cofnodi fod yr un cydnabyddiaeth wedi ei roi i Ysgol Dolbadarn. Deunydd crai arbennig i Ysgol Brynrefail, dybiwn i.

### Y TÊ PNAWN

Unwaith eto daeth tyrfa dda i gefnogi draw yn y Neuadd. Hwn oedd yr achlysur olaf i'r tê gael ei gynnal gan fod y criw fu mor ffyddlon yn paratoi gwledd yng nghwir ystyr y gair yn dymuno tipyn o hoe bellach. Diolch iddynt am eu parodrwydd, ac hefyd rhoddi cyfle i bentrefwyr gael mangre bleserus i gymdeithasu. Ni ddymunant i mi eu henwi ond mae eu cyfraniad mewn sawl agwedd o fywyd y pentref yn amlwg. Diolch o galon i chwi i gyd. Rhannwyd yr elw o £700+ rhwng mudiad Mcmillan ac hefyd ymchwil Cystic Fyrosis.

### LLONGYFARCHIADAU

I Myfanwy Harper (Myfanwy Glan Gors), Tŷ Newydd, Llandegai ar gael ei hethol yn Aelod am Oes gan Fudiad y Ffermwyr Ifanc Rhanbarth Eryri fel cydnabyddiaeth o'i blynedd oedd o ymroddiad i'r mudiad.

## MERCHED YWAWR



Yn lleol rydym yn cysylltu Manon Lloyd Williams (Manon Jiws) am ei chyfraniadau aml-gamp ym myd chwaraeon. Tybed a oes rhai eraill wedi cyflawni ei champ o ennill capiau rhyngwladol ym myd rygbi a phêl-droed? Hefyd ei chyfraniad dros sawl tymor fel chwaraewr a hyfforddwraig tîm hoci Caernarfon. Yn redwr dawnus hefyd, wedi cystadlu yn aml yn Râs yr Wyddfa a Marathon Eryri.

I fyd hollol wahanol aeth Manon a ni fele ein gwraig wadd yng nghyfarfod yr Hydref. Fel Rheolwr yn Adran Gwasanaeth Safonau Masnachol y Cyngor Sir roedd ganddi neges bwysig ac amserol i ni. Aeth a ni i fyd sinistr y Sgam a'r Sgamiwr. Pwysleisiodd Manon y pwysigrwydd o rannu gwybodaeth os ydym yn amau dilysrwydd 'yr alwad ffôn o bell', yr e-byst cynnig y byd, neu'r galwr annisgwyl wrth y drws. Fel yr ydym yn ymwybodol dyma faes o dwyll sy'n cynyddu'n sylweddol y dyddiau hyn. Roedd neges Manon yn drylwyr a dealladwy gan obeithio bydd llai ohonom yn disgyn i rwyd tywyllodrus y sgamwyr. Diolchwyd i Manon gan Mary Wyn Jones.

Cafwyd adroddiad gan ein llywydd Mair Read. Cydymdeimlwyd ac Eryl Roberts ar golli ei chwaer, i Mary Wyn Jones ar golli modryb, ac i Nan Jones ar golli tad yng-nghyfraith. Dymuniadau am wellhad buan i Gwyneth Jones (Pentir) wedi llawdriniaeth ysbyty yn ddiweddar ac i Anwylyd Jones wedi anaf i'w braich. Llongyfarchiadau i Gwyneth Jones (Fachell) ar gael ei hethol yn Lywydd Rhanbarth Arfon o'r mudiad. Ein dymuniadau gorau hefyd i newydd ddyfodiad y mudiad sef cangen Llanberis/ Nant Peris.

Roedd Hydref 15 yn ddiwrnod 'Su' mae' ble'n hanogir i ddechrau pob sgwrs neu gyfarchiad drwy gyfrwng y Gymraeg. Gan fod MYW yn cefnogi'r achlysur tynnwyd llun o aelodau'r gangen gyda tystysgrif hysbysebu'r diwrnod.

Cafwyd ymateb da i'r apêl i'r aelodau ymuno â'r criw ffyddlon ar fore Hydref 23. Dyma'r criw sy'n blygeiniol pob bore Mercher yn cylchu'r pentref i gasglu y sbwriel â wasgarir yn ddi-gydwbybod.



## CAPEL Y CYSEGR



Cafwyd mis ble bu cryn bwyslais ar yr ifanc yn ystod mis Hydref. Ar y Sul cyntaf fe'n harweinwyd yn yr oedfa aml-oedran gan y fywiog Susan Williams, gweithiwr Cynllun E.F.E. Ei thema oedd stori Joseff, a gyda phlant yr Ysgol Sul yn ymateb yn dda atodwyd elfen gyfoes i'r hen stori. Bu gryn egni hefyd yn yr emynau cyfoes dan arweiniad Susan. Y Sul canlynol roedd Susan yn ei hól yng nghwmni y Parch. John Pritchard. Y tro hwn cynhaliwyd Cymanfa Blant., gyda aelodau Ysgolion Sul Cysegr, Capel Coch a Phenisarwaun. Braf oedd gweld cefnogaeth niferus i'r plant gan rieni ac aelodau'r capeli. Unwaith eto cafwyd oedfa fywiog, a phawb yn ddiolchgar o'r lluniaeth ysgafn wedi'r oedfa. Ar y trydydd Sul, plant yr Ysgol Sul yn y Cysegr fu'n arwain y Gwasanaeth Diolchgarwch. Daeth Meilyr Wyn, Prifathro Ysgol Hafod Lon, Penrhyndeudraeth draw i gymryd rhan. Yn ôl y traddodiad gwnaed casgliad rhydd gyda'r cyfraniadau yn mynd at yr ysgol arbennig honno a leolwyd gynt yn y FFôr. Y diwrnod canlynol bu Susan yn ôl ym Methel ac yn y Cysegr yn cynnal Gwasanaeth Diolchgarwch Ysgol Bethel. Yn ystod y Cyfarfod Diolchgarwch canodd y plant ddwy o ganeuon Meilir Wyn. Ddiwedd yr wythnos daeth rhai o ddisgyblion Hafod Lon draw i Ysgol Bethel i gyd-ganu. Braf yw cael cyhoeddi asbri newydd a hynny'n cael ei yrru gan egni y plant. Diolch i chwi rieni am eich cefnogaeth.

### YNG NGHANOL Y CYFFRO

Rwyn siwr fod nifer ohonnoch fel fi wedi hoelio ein sylw ar Japan yr wythnosau diweddar yma. Nid yn unig ar y rygbi ond hefyd y lluniau dramatig yn deillio o'r stormydd a'r difrodi. Dau sy'n dyst i'r cyfan yw Ifor a Mari Humphreys o Langristiolus bellach. Mae'r ddau yn gweithio fel gweithwyr camera llawryf yn y gemau. Mae'r ddau yn hen lawiau bellach ac yn ffilmio digwyddiadau o gwmpas y byd. Hwyoedd ymysg y criw ddaeth â'r gêm ryfeddol rhwng Japan a'r Alban i'n cartrefi. Mari wrth gwrs yw Mari Owen, Stad Tan-y- Cae gynt, merch Bet a Seiriol. Rwyn gobeithio y gallaf ei pherswadio i gynnig erthygl neu ambell i lun ar gyfer rhifyn nesaf yr Eco.

### CLWB 100 NEUADD GOFFA

Fe gynhelir Cyfarfod Blynnyddol y Neuadd ym mis Tachwedd pan gyflwynir y daflen Ariannol. Fel arfer, gofynir i mi restru ennillwyr y Clwb Cant am 2018-19. Y tair gwobr yw £25, £15 a £10.

- 11/18 : Helen Williams, Sheila Williams, Pat Owen
  - 12/18 : Jen Roberts, Gwynfor Morris, Sian Burton
  - 1/19 : Llinos Morris, Anne Elis, Dafydd Emrys
  - 2/19 : Tecwyn Hughes, Emrys Reed, Ceris Williams
  - 3/19 : Eleri Morgan, Donna Evans, Ellen Ellis
  - 4/19 : Yws Gwynedd, Wendy Grail, Mair James
  - 5/19 : Mair James, Gwenan Roberts, Susan Owen
  - 6/19 : Ellen Ellis, Glenda Hughes, Megan Humphreys
  - 7/19 : Dilys Perez, Ann Hughes, Mari Humphreys
  - 8/19 : Deilwen Hughes, Mair Jones, Nan Owen
  - 9/19 : Mark Thomas, Manon Griffiths, Mary Wyn Jones
  - 10/19 : Susan Owen, Gwilym Lewis, Ann Lewis
- Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

## AIL FYWHANES

Ers rhai blynnyddoedd bellach mae Bethan Marlow ( merch Iorwerth a Lis Williams) wedi ennill ei phlwy ym myd y ddrama fel awdur a chyfarwyddwr dalentog iawn. Bu hefyd yn feirniad Eisteddfodol yn yr Adran Ddrama. Mae crynganmoliaeth am ei chynhyrchiad diweddaraf sy'n croniclo hanes Terfysg yr Wyddgrug yn 1869. Bu yn achlysur gwaedlyd a thyngedfenol yn deillio o anghydfod diwydianol. Roedd perchenog un o'r glofeydd yn Sais a phenderfynodd wireddu toriad cyflog sylweddol I'w weithwyr Cymreig. Daeth terfysg yn sgil hyn â barhaodd am ddyddiau, gyda phedwar o'r glowyr yn cael eu lladd. Dyma agwedd a digwyddiad arall yn ein hanes na welodd olau dydd i lawer. Drwy sgript llawn egni a chignoeth ar brydiau mae Bethan wedi cynnwys elfen gymdeithasol i'r ddrama gyda nifer o drigolion cyfoes yr Wyddgrug yn portreadu y dorf dan ormes. Pob llwyddiant i Bethan ar ei chynhyrchiad diweddaraf.



### CLWB BRO

Yr hanesydd Gerwyn James o Lanfairpwll oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod Hydref. Testun ei sgwrs oedd ' Cyfraniad Plant yn y Rhyfel Byd Cyntaf', gyda sylw arbennig i ardaloedd Môn ac Arfon. Cyfranodd nifer wrth gwrs gyda'u bywydau gan iddynt ymuno â'r fyddin a hwythau o dan oed 'enlistio', rhai mor ifanc ac 16 oed. Yn y cyswllt yma roedd cyfraniad y plant yn ymestyn o oedran cynradd i'r uwchradd. Amharwyd yn sylweddol ar gyfundrefnau addysg yr ardaloedd gwledig. Gwelwyd nifer yn 'methu ysgol' gan eu bod yn gweithio ar y tir, gan fod nifer o'r gweision ffermydd i ffwrdd yn y ffosydd. Mae cofnod o blant yn gweithio diwrnodiau llafurus o hyd at 10 awr y diwrnod. Ceir cofnod o ferched ysgol am bedair blynedd yn defnyddio oriau gwersi yn gweu sannau, capiau, menyg ar gyfer y milwyr. Eraill yn coginio ac ar adeg casglu ffrwythau yn cynhyrchu mesur sylweddol o jamiau. Rhain i gyd yn cael eu trosglwyddo i faes y frwydr o fewn dyddiau. Ymdrech arbennig gan blant oedd crwydro'i hardaloedd yn casglu wyau ar gyfer y milwyr. Drwy Brydain casglwyd 43 miliwn o wyau drwy'r ymgyrch yma. Un arferiad oedd ysgrifennu enw y plentyn gyda'r ardal ar yr wyau. Mae cofnod i un milwr o ardal Brynsiencyn dderbyn wy a gasglwyd gan un o'r teulu. Gyda llaw, pris wy yn y siopau ar y pryd oedd 6c yr un!

Unwaith eto, pnawn ddifyr a phaned a sgwrs cyn mynd adref. Cofiwch fod croeso i unrhyw un ymuno i fwynhau'r amrywiaeth o bawniau â drefnwyd. Eto eleni bydd y Clwb yn gosod torch ger y gofeb yng nghwasanaeth Sul y Cofio. Y mae aelodau'r clwb yn gwerthfawrogi y rhodd o £200 gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen.

Y siaradwr gwadd mis nesaf (5/11) fydd Walter Williams â'i destun 'O Fôn ... ac yn ôl'.

### CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn a theulu y diweddar John Davies, 12 Y Ddôl. I Pauline, a'r plant Barry, Dawn a Scott draw yn Awstralia. Wrth ei alwedigaeth Swyddog Trethi oedd John, yn boblogaidd yn ei waith a wnaeth sawl cymwynas yn dawel. Un tawel oedd John a'i bwyslais ar ei deulu. Un â gwên parod, ac un a wynebodd y blynnyddoedd diwethaf o salwch yn ddewr a di-wrwnach.

### OEDFAON TACHWEDD

- Capel Saron (2pm): 3/11 Parch. Gwynfor Williams 10/11 Seiat 17/11 Islwyn Hughes 24/11 Parch. Richard Gillion (S)
- Capel Cysegr (10am): 3/11 Parch. Gwenda Richards 10/11 Gweinidog 17/11 Eurfryn Davies 24/11 Gweinidog
- Capel Bethel (10am) : 3/11 Parch. R.E. Hughes 10/11 Sul y Cofio (DG) 17/11 Edward Morris Jones 24/11 Richard Morris Jones

## Parhad BETHEL

### O'R CYNGOR CYMUNED

Yng nghyfarfod mis Hydref dosrannwyd y symiau canlynol i fudiadau a chymdeithasau ardal Bethel/Seion oedd wedi gwneud cais gydag mantolen gyfredol arwyddiedig.

Eisteddfod Bethel £300, Clwb Bro Bethel £200, Clwb Bowlio Bethel £200, Clwb Pêl-droed Ieuencid Bethel £200, Cylch Meithrin £150, Mudiad Mish-mash £150. Cyfanswm o £1200.

OND... O fewn ychydig ddyddiau o'r Cyngor ateb eu dyletswydd a chyfrifoldeb i baentio a llnau y ddwy sedd 'Mileniwm' â osodwyd yn y Cae Chwarae, gwelodd rhywun yn dda i ddifrodi un o goesau un o'r meinciau yn fwriadol. Rhaid felly bydd talu saer i adnewyddu y difrod. Beth yw cymhelliad unigolyn felly, tybed?

Mae rhywun yn ymwybodol bellach o'r cynnydd sylweddol mewn ceisiadau adeiladu led-led y plwyf, boed yn dai unigol neu ystadau. Trefnodd y Cyngor ddau gyfarfod yn ystod y mis i'w haelodau. Daeth Owain Wyn sy'n ymgynghorydd cynllunio draw i drafod yr holl broses gynllunio o dderbyn cais, amodau, cefnogaeth, gwrthwynebiad, Amod 106... hyd at y penderfyniad terfynol gan y Cyngor Sir. Yna daeth Arwel Owen, Pennaeth Tai Gwynedd i'n goleuo ynglyn â gosod tai o dan berchnogaeth y Sir. Yn benodol, i sôn am y polisi gosod newydd sydd dal i ddibynnu ar y system pwyntiau ond ddylsai roddi mwy o gyfle i bobl lleol berchnogi tai. Amser â ddengys.

Y sedd wâg! Unrhyw un am lenwi'r bwlch?



## GERAIN T OWEN

## CARPEDI

**CARPEDI**

**TEILS**

**VINYLS**

DEWIS MAWR  
O BATRYMAU

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd  
A Uned 5 Gwyrfa i Mill, Bontnewydd

**(01286)650552 Mob. 07712779475**



## Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau

TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED  
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED  
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

**Sion Roberts ▶ 07759415753**  
3 CARADOG PLACE • DEINIOLLEN • LL55 3H5

y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD  
the WALK AND DISCOVER PROJECT




RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163 www.menterfachwen.org.uk






### TEITHIAU CERDDED MIS TACHWEDD

**MAWRTH 5 TACHWEDD 2.00yp**

DARGANFOD EGLWYS LLANFAGLAN (1 milltir)

CYCHWYN: SAFLE PARCIO AR Y FORYD GER

EGLWYS LLANFAGLAN

SH 45350 60348

HAWDD IAWN.

**GWENER 22 TACHWEDD 10.00yb**

HANESION PENISARWAUN O'R LLYFR 'BRO DEINIOL' (2½ milltir)

CYCHWYN: EGLWYS PENISARWAUN

SH 55272 63876

CYMEDROL. SGIDIAU CERDDED.

**MERCHER 27 TACHWEDD 1.30yp**

CRWYDRO STRYDOEDD A LONYDD LLANBERIS I Tŷ DU (hyd at 2 filltir)

CYCHWYN: MENTER FACHWEN, 52 STRYD FAWR, LLANBERIS

CYMEDROL. SGIDIAU CERDDED.

**NODER:** Bydd taith ychwanegol yn adrodd hanes yr Iddewon yn Llandudno (ein prosiect mapio diweddaraf ar y cŵd a Phrifysgol Bangor) ar benwythnos 16/17 Tachwedd. Manylion i'w gadarnhau. Am ragor o fanylion, neu i dderbyn cylchlythyrau 'Cynllun Cerdded a Darganfod Menter Fachwen' (gyda rhestr y teithiau cerdded, sgysiaau a newyddion am y cynllun) e-bostiwrch [garethroberts754@yahoo.co.uk](mailto:garethroberts754@yahoo.co.uk).

## RHOSTIO MOCHYN

*Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau*

**AR GYFER  
POB  
ACHLYSUR**



PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD  
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU  
CIG O FFERMYDD LLEOL  
PARTION RHWNG 40-400!  
Cysylltwch a  
**John Brynafon**  
**LLANRUG**  
[www.ydyncig.co.uk](http://www.ydyncig.co.uk)

**675190 • 673188**  
Symudol- 07798 718188

## SAMARIAID

Mae

### Llinell Gymraeg

**0300 123 3011**

ar gael bob nos  
rhwng  
7.00pm ac 11.00pm



## HUW OWEN

### PLASTRWR ADEILADWR LLEOL

**22 BLWYDDYN  
O BROFIAD**

**Ffôn- 01286 677668**  
**Symudol- 07940023159**

Gladwyn Station Rd.  
LLANRUG, Caernarfon  
LL55 4AG

Ebostr- [lisa.huw@btinternet.com](mailto:lisa.huw@btinternet.com)

## ECO'r Wyddfa

Cefnogwch  
ein  
hysbysebwr



## Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol



Dros dymor yr Adfent a’r Nadolig bydd eglwysi a chapeli yn cofio sut y bu doniau un fam ifanc sicrhau fod neges Duw am gariad, gobaith a heddwch yn cyrraedd y byd ym mherson ei baban bach. Trwy’r doniau roddodd Duw iddi, gofalodd Mair am y baban Iesu a’i fagu i fod yn un drawsnewidiodd y byd.

O amgylch y byd heddiw, mae miliynau o ferched yn magu plant mewn sefyllfaoedd caled iawn oherwydd tlodi a rhagfarn. Ond fel Mair, maent hwythau yn defnyddio’u doniau i roi bywyd gwell i’w teulu.

Yn India, dechreuodd Ranjita, 30, fynd gyda’i mam i gasglu sbwriel pan oedd ond yn naw oed. Fel casglwr sbwriel, dioddefodd ddyddiau 10-15 awr o waith israddol oedd yn cynnwys glanhau, cario a symud carthion dynol o doiledau a charthffosiau - a hynny i gyda’i dwylo. Fel Dalit - yr isaf a’r mwyaf gwrthodedig yn system cast India - roedd yn dlawd ac ar y cyrion, a doedd ganddi fawr o gyfle i allu dianc y cylch systemig o dlodi yr oedd wedi ei dal ynddo.

Ranjita gaiff y sylw yn Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol eleni, oherwydd gyda help partner Cymorth Cristnogol yn India, ARUN, mae Ranjita wedi dysgu fod ganddi hawliau a cheisiodd am grant gan y llywodraeth yno, a thrwy hynny cychwynnodd ei busnes gwnïo ei hun. Trwy’r doniau roddodd Duw iddi, mae Ranjita wedi llwyddo i ddianc y tlodi eithafol hwn. Mae hyd yn oed yn gallu anfon ei merch ieuengaf, Soniya, i’r ysgol - y cyntaf o’i phlant i wneud hynny.

Y Nadolig hwn, beth am helpu mamau fel Ranjita i ddefnyddio’r doniau roddodd Duw iddynt i ddianc rhag tlodi, a chreu gobaith a dyfodol newydd iddynt hwy eu hunain a’u plant.

Mewn byd o anghydraddoldeb ac anghyfiawnder, gyda’n gilydd gallwn newid bywydau.

Bydd nifer o eglwysi a chapeli yn cynnal gwahanol weithgareddau er budd Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol dros y tymor hwn a bydd croeso mawr ichi fod yn bresennol. Os nad oes gweithgaredd yn eich ardal chi, cewch gyfle i gefnogi’r apêl trwy fynd i wefan Cymorth Cristnogol yn [caid.org.uk/christmas-appeal](http://caid.org.uk/christmas-appeal).

## Sbwriel yn llygru



Sawl gwaith y rhoddwyd sylw yn yr “Eco” i sbwriel wedi ei adael mewn gwahanol rannau o’r fro? Pam fod angen grwpiau cymunedol yn Llanberis, Llanrug, Deiniolen a phentrefi eraill i lanhau strydoedd a chaeau chwarae? A pha mor aml y mae llwybrau’r Wyddfa angen eu clirio, heb son am leoliadau eraill ar y mynyddoedd o amgylch?

Mae’n debyg fod y mwyafrif ohonom yn meddwl am boteli plastig, caniau diod a phecynnau bwyd fel y mathau mwyaf cyffredin o sbwriel, ond mae eraill hefyd na fyddem fel arfer yn eu cysidro yn sbwriel. A choeliwch neu beidio, mae ffrwythau yn un ohonynt. Dydi’r ffaith eu bod yn pydru yn ddim esgus dros eu gadael ar lawr. Mae sbarion afal yn cymryd wyth wythnos i bydru, ond mae croen oren neu groen banana yn cymryd dwy flynedd! A gallai cemegau o fewn y crwyn effeithio ar ecoleg bregus priddoedd y mynydd-dir. A pho uchaf ar y mynydd y cant eu gollwng, hwyaf yn y byd fydd y broses pydru; a hynny oherwydd yr oerni.



A dyma botel fetel a godwyd ar Gefn Du yn ystod y mis. Yn sicr doedd y person a oedd mor ddiog a diystyriol a gadael hon ar ôl wedi drachtio o’i chynnwys ddim yn enghraifft dda o werth y ddiod. Gallai gario potel lawn i fyny’r mynydd, ond er gwaethaf y “Natural Energy”, doedd dim digon o nerth i gario potel wag oddi ar y mynydd!

## Dyfodol yr ‘Eco’.

Cynhelir y cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol Eco'r Wyddfa yn y Sefydliad Coffa, Llanrug ar nos Fercher, Tachwedd 27ain am 7 o'r gloch.

# ECO'r Wyddfa

## O'r Cynghorau

### Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar y 17fed o Fedi 2019 Derbyn aelodau newydd.

Nodwyd fod Gwion Llwyd a Iola Parry wedi arwyddo eu datganiad stadudol ac fe’u llongyfarchwyd ar ddod yn aelodau o’r Cyngor Cymuned.

Ymweliad Llu Awyr yn y Fali

Adroddodd y Cadeirydd am ei ymweliady â’r safle yn Y Fali ar Awst 27ain yn dilyn gwahoddiad gan y Llu Awyr i gynrychiolwyr Cynghorau Cymuned. Pwrpas yr achlysur oedd rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau mewn hyfforddi peilotiaid sydd yn golygu y bydd mwy o hedfan uwch ben ardaloedd yng Ngwynedd a Môn.

Ceir yn gor-yrru

Adroddwyd fod cwynion wedi eu dderbyn am geir yn gor-yrru ar hyd Ffordd yr Orsaf a

Ffordd Minffordd, Llanrug. Penderfynwyd i gyfeirio’r mater at yr heddlu a gofyn am eu

presenoldeb yn un o gyfarfodydd y Cyngor Cymuned yn y dyfodol.

Cwyn gan aelod o’r cyhoedd am gyflwr wal y Maes Parcio ger y Siop Spar.

Nodwyd fod cwyn wedi ei dderbyn fod carreg yn y wal yn ymestyn i’r maes parcio a bod

car wedi cael difrod o’r herwydd.

Penderfynwyd na ellir gwneud dim

gan fod y garreg

yn ran o sylfaen y wal.

Adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Cwmyglo)

Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol

Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar y ddogfen uchod gyda dyddiad cau o 1af o Dachwedd sy’n dweud y niferoedd o dai mewn ardaloedd a lle ddylai unrhyw ardaloedd twf fod.

Cynllun Twf Gogledd Cymru

Y chwe sir yn dal i weithio yn dda hefo’u gilydd. Gobeithir cael arwyddo’r ‘Heads of Terms agreement’ yn fuan a chael Llywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan i’w arwyddo, a thrwy hynny sicrhau’r arian.

Cartrefi Cymunedol Gwynedd

Mae’r gymdeithas tai wrthi’n ail frandio, fel rhan o hyn bydd enw newydd i’r Gymdeithas sef “Adra”. Bydd hyn yn golygu newid lliwiau ar y fflyd ac yn y blaen. Bydd y lansiad swyddogol ar yr 8fed o Hydref

Trefn newydd casglu sbwriel

Bydd trefn newydd o gasglu sbwriel yn dod i mewn yn Arfon ar y 4ydd o Dachwedd,. Yn lle’r hen drefn lle’r oedd y gweithwyr yn mynd adre ar ôl gorffen y rownd, bydd pawb yn gweithio oriau sefydlog. Hefyd bydd yr un “gang” yn gwneud yr un llyfydd pob wythnos yn arwain at well perchnogaeth ac ymrwymiad i’r ardal. Bydd y drefn newydd yn golygu newid i’r dyddiau casglu a bydd yr Awdurdod yn hysbysu’r trigolion i gyd am y newid. Mae’r drefn wedi cychwyn ers ychydig o fisodd rwan yn Dwyfor, ac hyd yn hyn dim cwynion, gan staff na’r cyhoedd.

Plismona

Mae Heddlu Gogledd Cymru am gael mwy o blismyn ond maent yn rhagweld y bydd llawer o’r ‘PCSO’s’ yn cael y swyddi, fydd yn golygu, maen’r debyg y bydd ‘na ychydig o amser wedyn cyn ôl lenwi swyddi y PCSO’s.

Maent yn gweithio yn agos hefo Heddlu Glannau Merswy gan fod gangiau “County Lines” yn broblem fawr ym Mangor. Mae hyn yn sugno llawer o’i adnoddau. Ar y cyfan mae troseddu i lawr o 10% dros yr ardal ond bod llawer mwy o ymosodiadau ar yr heddlu, sydd hefyd yn golygu llai o blismyn allan ar y strydoedd.

Adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones (Llanrug)

Hafan Elan

Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd wedi cyflwyno cais cynllunio i Cyngor Gwynedd yn gofyn am ganiatâd i wneud rhagor o lefydd parcio yn Hafan Elan.

Mae’r cynllun yn paratoi 22 llefydd parcio yn hytrach na’r 10 presennol. Mae hyn yn newyddion da i’r trigolion a’r ymwelwyr i’r stad.

Gor-yrru, Ffordd yr Orsaf

Mewn ymateb i geisiadau i ostwng uchafswm cyflymder ar Ffordd yr Orsaf, cafwyd wybodaeth gan yr Uned Draffig fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar y posibilïadau o newid y cyfyngiad cyflymder ar gyfer pentrefi a.y.b o 30 mya i 20 mya ac, am hyny, byddent yn gohirio unrhyw benderfyniad ynglŷn a newid cyfyngiadau cyflymder yn Ngwynedd tan y derbynir arweiniad pellach gan y Llywodraeth. Mater i’r Heddlu yw gor-yrru ac felly yn y cyfamser awgrymir fod pobl yn cysyllu â’r Heddlu yn lle cyntaf.

Llwybr troed rhwng Stad Glanffynnon a Ffordd Llanberis

Yn dilyn cais i wella cyflwr y llwybr, deallir gan yr Uned Drafnidiaeth mae cyfrifoldeb perchennog y tir yw cynnal a chadw’r llwybr ac nad oedd cyllid ar gael gan y Cyngor Sir i wneud hyn. Nodwyd fod angen gwaith sylweddol i’w uwchraddio i gyflwr mabwysiedig sy’n hygyrch i bawb.

Caniatawyd y cais ar gyfer y tai ar y safle gydag amod fod rhaid adeiladu

llwybr cysylltu parhaol rhwng Ffordd Llanberis a Stad Glanffynnon cyn cychwyn y datblygiad.

Corlan y Rhos

Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i roi llinell wen o flaen mynedfa i’r stad gan fod cerbydau yn parcio o’i blaen.

Dyfynbrisiau a dderbyniwyd am waith ail-osod cerrig beddi yn y fynwent.

Yn dilyn penderfyniad y cyngor i fynd allan i dendr ar gyfer y gwaith o godi’r cerrig beddi a sicrhau fod y gwaith i safon gyfredol BRAAM adroddwyd fod tri tendr wedi dod i law a fod gwahaniaeth sylweddol yn y prisiau. Penderfynwyd cynnig y gwaith i gwmni yn amodol i dderbyn cadarnhad bydd y gwaith yn cael ei wneud i safon llyfr glas BRAAM ac i drefnu cyfarfod ar y safle gyda’r contractwr

Cae Chwarae ger Nant y Glyn, Llanrug

Adroddwyd fod gemau pêl droed cartref Llewod Llanrug dan 12 ar gae Nant y Glyn. Mae hyn yn creu problemau i rieni oherwydd diffyg mannau parcio ac yn achosi trafferthion i drigolion lleol i gael mynediad i’w tai. Mae rheolwyr y tim wedi gwneud cais i’r Cyngor Cymuned am allwedd i’r giât fel gellir parcio rhai o’r ceir ar y cae. Penderfynwyd i roi allwedd i’r ddau reolwr ar gyfer eu gemau ar yr amod mai eu cyfrifioldeb hwy yw gofalu am yr allwedd ac i sicrhau ei fod yn parhau yn eu meddiant ac nad ydynt i’w drosglwyddo i neb arall.

Y Fynwent.

Adroddwyd fod pwyllgor y fynwent yn y broses o edrych ar reolau’r fynwent a chreu asesiad risg o’r holl ofod y fynwent.

Deallir y bydd gwaith o ymestyn y llwybrau yn cychwyn yn y bythefnos nesaf a fod y Clerc yn creu system o ymchwilio i leoliadau beddi yn y fynwent i’w gwneud yn hawdd i leoli bedd.

Y Clwb Ieuentid

Adroddwyd fod y clwb ieuentid wedi agor yn Y Sefydliad Coffa a bod 42 o blant yn bresennol. Roedd y trefniadau i weld yn gweithio ac er nad oedd un aelod o staff yn gallu bod yn bresennol roedd Cyngor Gwynedd wedi gofalu fod aelod arall o staff yno..

Eglwys St Mihangel, Llanrug

Croesawyd y Parchedig Robert Townsend i’r cyfarfod a diolchwyd iddo am ddod. Eglurodd fod yr Eglwys wedi ei chau a fod yr eiddo oedd tu fewn i’r Eglwys wedi eu rhannu i Eglwysi lleol eraill. Eglurwyd fod angen i unrhyw un sy’n dymuno symud y placiau neu’r cofebion rhyfel o adeilad yr Eglwys Mihangel Sant gyflwyno cais cyfadran i Bwyllgor Cynghori’r Esgobaeth. Mae hwn yn bwyllgor lleol a byddai yn ei gwneud yn haws i ddelio gyda yn hytrach nac aros pan fydd yr Eglwys wedi ei throsglwyddo i Gaerdydd. Bydd angen i’r Cyngor Cymuned benderfynu os yw am wneud cais am y cofebau sydd yn yr Eglwys. Nodwyd fod enw un person o Cwm y Glo ar un gofeb.

Cadarnhaodd y Parchedig Robert Townsend ei fod yn gorffen ddiwedd y mis ac yn symudi i Biwmares. Bydd y broses yn cael ei drosglwyddo i’r Parchedig Lloyd Jones ac ef fydd ein pwynt cyswllt.

Y Wal

Adroddwyd fod Sean Allcock wedi gorffen rhan gyntaf y gwaith ar y wal a’i fod i ddod yn ôl ar ddechrau’r flwyddyn. Mae wedi cael ei hysbysu i adael i’r Parchedig Lloyd Jones wybod ac hefyd i gysylltu a’r cyngor cymuned.

Mynwent yr Eglwys

Adroddodd y Parch Robert Townsend nad oedd arian a dderbyniwyd am werthu’r adeiladau ddim ar gael i’w wario ar y fynwent.

Cytunodd i roi manylion y swyddog priodol yng Nghaerdydd i gychwyn trafodaethau ynglyn a’r posibilrwydd o drosglwyddo’r fynwent i’r Cyngor Cymuned.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Adroddwyd ei bod yn ofynnol ar awdurdodau cyhoeddus (sydd yn cynnwys Cynghorau Cymuned) o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd Cymru 2016 i baratoi a chyhoeddi cynllun yn amlinellu’r hyn y bwriadir ei wneud i gydymffurfio â’r ddyletswydd i Gynnal a Chryfhau Bioamrywiaeth o fewn eu meysydd gwaith presennol a’i bod yn ofynnol i’r polisi gael ei gyhoeddi cyn ddiwedd y flwyddyn ac wedyn ei adolygu bob tair blynedd. Penderfynwyd gofyn i’r Pwyllgor Hamdden ystyried y mater a chreu polisi drafft ar gyfer y Cyngor.

Ceisiadau Cynllunio

Penderfynwyd i gefnogi’r ceisiadau canlynol:

Cais i ddymchwel Bryngwyn Mawr, Llanrug a chodi tŷ newydd yn ei le.

Cais am dystysgrif o ddatblygiad amgen ar gyfer dau ddefnydd 'diwydianol' a

'masnachol' ar Fferm Bodrual, Rhosbodrual.

Cais i greu llecynnuau parcio newydd a ffurfioli’r drefn barcio bresennol ar Stad Hafan Elan, Llanrug

‘Doedd dim gwrthwynebiad i gais i godi sied amaethyddol ar gyfer diben storio cyfarpar

offer yn Penlon, Llanrug.

Torri gwair o flaen ystadau Llanrug.

Adroddwyd fod cais wedi dod i law i’r Cyngor Cymuned dorri gwair o flaen mynediad i ystadau yn Llanrug. Penderfynwyd peidio a cytuno i dorri gwair o flaen ystadau ar hyn o bryd.



# ECO'r Wyddfa

## O'r Cyngorau Cyngor Llanddeiniolen

Cofnodion Cyfarfod y 1af Hydref 2019

Ymweliad gan Tim Opsynnau Tai

Pleser oedd croesawu Mr. Arwel Wyn Owen, Pennaeth Cynorthwyol Tai a Llesiant.

Roedd gwahoddiad wedi ei roi i Arwel ddod i drafod ac i roi braslun ar y drefn o osod Tai Cymdeithasol yn yr ardal.

Hyfforddiant

Nos Fercher diwethaf, derbyniodd aelodau'r Cyngor Cymuned hyfforddiant dan arweiniad Mr Owain Wyn. Diolch yn Fawr iawn iddo am ei arweiniad da. Cafwyd esboniad ac engrefftiau ar be y dyliwn wneud wrth ymateb i geisiadau cynllunio.

Cofnodion Cyfarfod 3ydd Fedi 2019

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

Materion o'r cofnodion

Cae'r Foel, Dinorwig - Yn dilyn gyrru at Cyngor Gwynedd am ymateb i'n cwyn ynglyn a'r adeilad yma, derbyniwyd llythyr gan adran Cynllunio. Nodwyd fod aelod o tim gorfodaeth wedi bod mewn cysylltiad a'r perchenog, ond bod y broses yn gallu bod yn hir, ond am drio dilyn i fyny er mwyn dod a'r mater i ben. Teimlwyd fod yr ymateb yn eitha gwan, ond penderfynwyd aros am rhyw ddau fis i roi amser i'r adran ceisio datrys y broblem, neu dod i ryw gytundeb

Tan y Buarth - Dal i ddisgwyl ymateb gan y Cyngor Sir. Mae'r clerc wedi gyrru i atgoffa y Cyngor Sir am y sefyllfa ar y pafin, bydd yn dilyn i fyny eto mis yma i geisio cael ymateb pendant gan Cyngor Gwynedd.

Gohebiaeth a materion eraill

Cysgodfan Bws Penisarwaun - Mae'r llwybr o gwmpas y cysgodfan bellach wedi ei osod fydd yn sicrhau llwybr mwy diogel i'r cysgodfan o hyn ymlaen.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

Maes y Ffynnon, Bethel - Newid amod rhif 1 o ganiatad cynllunio er mwyn diwygio dyluniad y ty.

Fferm Tros y Waen - Codi Sied

Pendyffryn, Dinorwig - Codi modurdy newydd ac anecs

Penrallt, Brynrefail - Estyniad dau loft. d

Adroddiad Ffurflen Flynyddol

Derbyniwyd y Ffurflen flynyddol yn ôl gan yr archwilyr allanol. Newyddion da ar sail adolygiad archwilio, mae'r wybodaeth yn y Ffurflen Flynyddol yn cydymffurfio ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i sylw'r archwilyr sy'n peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni. Tynnwyd sylw at argymhellion yr archwilyr mewnol.

Cytunwyd ein bod wedi gweithredu yn barod neu yn y broses o

weithredu ar yr argymhellion hynny,

Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol yn unfrydol, a diolchwyd i'r clerc am ei gwaith trylwyr eto eleni yn dilyn y broses yma.

Ceisiadau Ariannol 2019

Derbyniwyd 16 cais am gymorth ariannol eleni. Mae amodau'r ceisiadau cymorth ariannol yn gofyn am Fantolen Ariannol wedi ei archwilio. Y rheswm am hyn ydi bod yn rhaid i'r Cyngor gydymffurfio a gofynion archwilio, ac nid oes posib i'r Cyngor roi cymorth ariannol i ddim un cymdeithas heb dderbyn hyn. Daeth 3 cais i law heb fantolen eleni. Cytunodd y Cyngor i neilltuo cyfraniad i'r cymdeithasau hynny, cyn belled fod y clerc yn derbyn mantolen ariannol o fewn wythnos i'r cyfarfod. Bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld a'r Sir yn 2021. Mae'r Cyngor felly yn ôl yr afer yn cyfrannu £1000 ar ran yr ardal tuag at yr Wyl. Penderfynwyd rhannu hyn dros 2 flynedd. Felly penderfynwyd clustnodi £500 eleni a £500 y flwyddyn nesaf o'r cyllid rhoddion i hyn.

Penderfynwyd rhannu arian i'r mudiadau eraill fel a ganlyn:

|                                 |        |
|---------------------------------|--------|
| Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen  | 300.00 |
| Eisteddfod Bentref Penisarwaun  | 300.00 |
| Eisteddfod Bentraf Bethel       | 300.00 |
| Pwyllgor Neuadd Penisarwaun     | 300.00 |
| Neuadd Bentref Rhiwlas          | 300.00 |
| Clwb Snwcer Deiniolen           | 200.00 |
| Clwb Bowllo Dan do Bethel       | 200.00 |
| Clwb Tennis Bwrdd Rhiwlas       | 200.00 |
| Clwb Rhiwen Rhiwlas             | 200.00 |
| Clwb Pensynwyr Penisarwaun      | 200.00 |
| LLais Ogwan                     | 50.00  |
| Clwb Bro Bethel                 | 200.00 |
| Clwb Pel Droed Ieuenctid Bethel | 200.00 |
| Cylch Meithrin Bethel           | 150.00 |
| Cynllun Efe.                    | 150.00 |
| Mish Mash Bethel                | 150.00 |
| Eisteddfod Genedlaethol         | 500.00 |

O gwmpas y Bwrdd

Rhiwlas - Golau yn y Kiosk ddim yn gweithio. Clerc i gysylltu a'r trydanwr.

Penisarwaun - Angen bin wrth ymyl y cysgodfan Bws

Bethel - Tyfiant drosodd o dir y fferm Llwyn Bedw yn tyfu dros llwybr yr hen rheilffordd - cysylltu a'r trefeddiannwr.

Deiniolen - Dwr yn llifo lawr y lon allan o'r tarmac ar lon Garnedd.

Cysylltu a Prifffyrdd.

Ty Mawr Cottages - Dilyn fyny y cwyn i rheolaeth cynllunio.

Hen Glybiau Ieuenctid - Gyrru eto ynglyn a trosglwyddo y balansau.



Asesiad a thriniaeth arbenigol a fforddiadwy ar agor nawr.  
Specialised and affordable assessment and treatment available.  
Cysylltwch am fwy o fanylion  
Contact for further information:  
Facebook: @ffisioeryriphysio  
Epost / E-mail: info@ffisio-eryri-physio.co.uk  
Ffôn 07387390465  
Canolfan Ddringo Beacon Climbing Centre  
Stâd Diwydiannol Cibyn Industrial Estate  
Caernarfon, LL55 2BD  
[www.ffisio-eryri-physio.co.uk](http://www.ffisio-eryri-physio.co.uk)



**Royal Victoria Hotel** LLANBERIS  
[www.theroyalvictoria.co.uk](http://www.theroyalvictoria.co.uk)

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau  
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul  
• PRIODASAU •

**Ffôn- 01286-870253**  
[enquiries@theroyalvictoria.co.uk](mailto:enquiries@theroyalvictoria.co.uk)

The ROYAL VICTORIA HOTEL  
Snowdonia



## O'r Cynghorau

### Cyngor Cymuned Llanberis

#### COFNODION CYFARFOD MIS MEDI 2019

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, nos Fercher yr 11eg o Fedi, 2019 am 7.30 y.h.

##### 1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Gwilym Evans, Bethan Holding, Heather L Jones, Cyng. Kevin Morris Jones, Helen Sharp, Trystan Thomas.

Ward Peris: Iola Owen. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau: Nicola Brown, Aneuryn Jones.

##### 2 DATGAN BUDDIANT:

Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

##### 3 CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 10fed o Orffennaf, 2019 fel rhai cywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd. Cynnig ac eilio: IO/BH

##### 4 MATERION YN CODI O'R COFNODION:

###### 1. Coed Doctor:

Adroddwyd fod ebost wedi ei dderbyn oddi wrth BG, swyddog amgylchedd gyda Cyngor Gwynedd (CG) yn nodi y bydd yn trefnu diwrnod agored yn y coed yn yr Hydref. Fu dim datblygiad pellach.

###### 2. Cae Chwarae Min y Llyn:

Adroddwyd mai'r wythnos hon yr oedd y gwaith wedi ei gwblhau ar y siglen, a'i bod ar gael i'r plant erbyn hyn. Roedd AWJ, un o swyddogion CG wedi gwneud ei orau, y cwmni cyflenwi'r partiau oedd ar fai.

###### 3. Cau Ffyrdd:

Cafwyd ar ddeall mai o Fedi'r 26ain y bydd y ffordd i ben Bwlch Llanberis, yr A4086, ar gau. Bydd hynny yn golygu y bydd ar gau yn gyfan gwbl am rai dyddiau rhwng 8.00 a 18.00. Yna yn rhannol wedi hynny gyda oedi gweddol hir.

###### 4. Defaid:

Wedi haf heb lawer o drafferthion gyda defaid crwydrol dywedwyd bod nifer wedi bod yn crwydro'n ddiweddar. Cafwyd gwybodaeth nad yw Brian Owen yn dymuno gwneud gwaith bugeiliol i'r Cyngor o hyn allan. Gofynnwyd i IO ddiolch iddo ar ran y Cyngor am ei barodrwydd i gynorthwyo ers nifer o flynyddoedd.

###### 5. Tyrchod daear yn y Fynwent:

Yn ôl y Clerc nid oedd rhithyn o dystiolaeth bod tyrchod yn problem yn y Fynwent. Dywedodd ei fod wedi trefnu, gydag un ymgymwrwr, i unrhyw bridd oedd yn weddill ar ôl claddedigaeth gael ei ddefnyddio i lenwi rhai o'r pantiau oedd wedi ymddangos yn ddiweddar.

##### 5 MATERION ERAILL:

###### 1. Cysgodfan Bws - Maes Parcio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE), Nantperis:

Cafwyd adroddiad gan IO a'r Clerc iddynt fynychu cyfarfod i ddatgelu cynlluniau'r Awdurdod ar gyfer codi cysgodfan. Mae'r dyluniad (a baratowyd gan Joe Roberts) i'w weld yn un digon dymunol ac addas gan fabwysiadu elfennau naturiol o dirwedd yr ardal. Mynegwyd siom nad oedd bwriad i ddefnyddio dulliau electronig diweddaraf i gyfleu negeseuon a gwybodaeth i ymwelwyr am e.e. y tywydd ac amser bysiau. Addawyd y byddai hyn yn cael ei ystyried.

Codwyd hefyd y pryderon a fynegwyd gan y Cyngor hwn am barcio yn y Nant, yn arbennig am nad oedd y maes parcio'n ddigon eang ar gyfer penwythnosau prysur, a bod un cais cynllunio am faes parcio ffurfiol wedi ei wrthod ddwy waith. Nodwyd ein bod yn deall y Rheol 28 Diwrnod ar gyfer defnydd caeau, ond nad oedd pawb yn dilyn y rheol honno wrth ganiatau parcio. Adroddodd y Clerc y bydd KMJ ac yntau yn codi'r mater eto yng nghyfarfod blynyddol APCE gyda'r cynghorau cymunedol ynghyd â'r gofid am drefniadau ar gyfer digwyddiadau ychwanegol (y Ras 24 Awr ydi un) ar Yr Wyddfa.

###### 2. Parcio:

Dywedodd KMJ ei fod mewn trafodaethau gyda CG i geisio cael tocynnau parcio tymor hir i drigolion Llanberis

###### 3. Castell Dolbadarn:

I ddathlu 800 mlwyddiant Castell Dolbadarn mae Y Ganolfan, Llanberis wrthi'n trefnu i Kevin Burgess greu tapestri anferth i'w osod yn y Neuadd Fach. Bydd KB yn cydweithio ar y gwaith celf yma gyda disgyblion o'r Ysgol leol. Eisoes mae'r ganolfan wedi sicrhau nawdd sylweddol oddi wrth Cadw a cwmni First Hydro (Engie), Llanberis.

Gofynnwyd a fyddai'r Cyngor yn foddol cyfrannu hefyd. 1/3

Wedi trafodaeth penderfynwyd cyfrannu £1,500 tuag at y cynllun unigryw, unwaith mewn oes hwn.

###### 4. Cae'r Ddôl:

Ar ddiwedd yr haf nodwyd fod cryn ddifrod a llanast wedi ei adael ar Gae'r Ddôl ar ôl un digwyddiad go sylweddol. Roedd teimlad cryf nad oedd y cae na'r pentref yn cael y parch dyladwy. Mae KMJ fel Cynghorydd Sir wedi cael trafodaeth gyda swyddogion o'r Cyngor am hyn.

###### 5. Parcio ar y Stryd Fawr:

Nodwyd fod parcio blêr ac anghyfreithlon mewn rhai mannau.

###### 6. Ymddiswyddo:

Derbyniwyd llythyr oddi wrth NB yn ymddiswyddo o'r Cyngor gan nodi fod ymrwymadau teuluol a'i gwaith dyddiol yn golygu na allai neilltuo amser i fod yn Gynghorydd Cymuned ac i wneud y gwaith gyda'r trylwyrdd y dymunai.

###### 6 GOHEBIAETH:

###### 1. CG - Cau Ffyrdd:

Rallt Goch, Llanberis ar y 9fed o Fedi, 2019.

###### 2. CG - Parcio:

Bwriad i greu safle parcio 'Deiliad trwydded breswyl anabl yn unig' ar ochr ddwyreiniol y ffordd di-ddosbarth y tu allan i'r eiddo a adwaenir fel 38 Maes Padarn, Llanberis.

###### 3. Cynhadledd:

Gwahoddiad i gynhadledd a drefnir gan nifer o awdurdodau: 'Sut y gallwn i gyd gyfrannu at Brydain Di-garbon' yn Mhortmeirion, ar y 13eg o Dachwedd, 2019. (Angen enw/enwau)

###### 4. Un Llais Cymru:

Nodyn i atgoffa ei bod yn ofynnol i gynghorau Cymuned/Tref amlinellu'r hyn y bwriadant ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i Gynnal a Chryfhau Bioamrywiaeth o fewn eu meysydd gwaith presennol. Yn ôl ULIC bydd Llywodraeth Cymru (LIC) yn cyhoeddi papurau maes o law fel Cwestiynau Mwyaf Cyffredin, Canllaw Arfer Da a Chanllaw Adroddiadau ac yn eu dosbarthu i'r cynghorau. Anfonwyd copi o waith y mae Cyngor Sir Gâr wedi ei gyhoeddi gyda'r nodyn.

###### 5. Carwyn Humphreys a Barry Davies:

Anfonwyd llythyr i gwyno am gyflwr Llanberis a Llyn Padarn atom ac at CG gan CH a oedd wedi ei syfrdanu'n ddiweddar gan gyflwr glannau'r llyn, cerbydau wedi parcio dros nos, pebyll a gwersylla anghyfreithlon, olion tannau yn y coed a phobl yn gyffredinol yn dangos diffyg parch dychrynlyd. Cyfeiriwyd hefyd at sefyllfa parcio ger Y Glyn a'r mân byllau (lagŵns), diffyg trefn ar barcio a pe digwyddai argyfwng pryder sut y byddai cerbydau ymateb yn gallu cael mynediad, ac ar ben hyn i gyd, sbwriel a phrinder cyfleusterau. Yn ei lythyr mae'n galw am strategaeth i wella'r lle (fel y mae y Cyngor hwn wedi galw amdano sawl tro) ac am arwyddion a biniau ar gyfer sbwriel, a chodi tâl parcio.

Yn ei ateb mae BD yn sôn fod cynlluniau ar y gweill i weddnewid y safle a'i reoli yn well, sonnir fod hynny i ddigwydd yn 2020. Gofynnwyd i'r Clerc nodi fod hyn oll wedi ei drafod fwy nag unwaith gyda CG, ond hyd yma, chafwyd fawr o ymateb. Bydd popeth yn digwydd y flwyddyn nesaf!

###### 6. APCE - Cyfarfod Cynghorau:

Bydd y cyfarfod blynyddol i gynghorau Cymuned yr ardal sydd yn y Parc, nos Lun y 30ain o Fedi, o 6.30 i 8.30yh ym Mhlas y Brenin, Capel Curig. Cytunwyd y byddai KMJ a'r Clerc yn mynd iddo.

###### 7 CYNLLUNIO:

###### APCE:

NP3/15/4H - 'Diwygiad ansylweddol i Ganiatâd Cynllunio NP3/15/4G dyddiedig 08/11/2016 i adael un ffenestr, ychwanegu un ffenestr ac amnewid y cladin llechi gyda byrddau pren' - 2 Mur Mawr, Llanberis Dim sylw.

NP3/15/71A - 'Estyniad deulawr yn y cefn' - Woodford, 12 Rhes Fictoria, Llanberis - Dim sylw.

###### Cyngor Gwynedd:

C19/0703/15/LL - 'Dymchwil tŷ presennol a chodi tŷ newydd yn ei le' - 10 Ffordd Tŷ Du, Llanberis - Dim sylw.



**Eglwys Sant Padarn** Cynhaliwyd Ffair Grefft Hydref lwyddiannus iawn yn Eglwys Sant Padarn ar ddydd Sadwrn, 19eg o Hydref. Roedd yr Eglwys yn llawn o stondinau lleol ac amrywiol, a daeth nifer dda i mewn i siopa ac i gael cinio blasus neu baned a theisen yn y caffi. Diolch yn fawr iawn i aelodau Pentref Taclus Llanberis am drefnu'r ffair ac i'r stondinwyr a chwsmeriaid am gefnogi. Diolch.

Ar Ddydd Sadwrn, yr 2ail o Dachwedd, am 7 o'r gloch, bydd y Welsh Whisperer yng Ngwesty'r Victoria, Tocyn £12 yn cynnwys bwyd. Bydd yr elw yn mynd tuag at Ymgyrch Cyfeillion Eglwys Sant Padarn. Mae tocynnau ar gael drwy ffonio 07867982518 neu 01286 871423.

## Cymdeithas Undebol Capel Coch

Oherwydd anhwylder, ni fedrwyd cynnal cyfarfod y Gymdeithas ar yr 8fed o Hydref.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf am 7 o'r gloch, nos Fawrth y 12fed o Dachwedd, yng nghwmni Robat Arwyn. Croeso i bawb!

Diolch. Dymuna teulu y diweddar Mrs Nellie Morris, Maes Padarn (gynt o Dol Elidir) ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli mam, nain, hen nain a chwaer.

**Diolch** arbennig i'r Canon Robert Townsend am ei wasanaeth, ac i Dafydd a Jane o E W Pritchard Llanberis am eu trefniadau trylwyr ac urddasol.

Diolch hefyd i bawb am y rhoddion hael er cof am Nellie, rhoddwyd gyfraniadau tuag at Clwb Peldroed Llanberis, Eglwys St Padarn a Cyfeillion Eglwys St Padarn.

## Gwasanaethau Capel Coch

Tachwedd 3ydd am 10yb: Mrs Nerys Griffiths

10fed am 10yb a 5yh: Y Gweinidog

17eg am 10yb: Parch Robert M. Morris

24ain am 10.30: Oedfa Deulu

## Rhagfyr 1af am 10yb: Parch Gwynfor Williams

8fed am 10yb a 5yh: Y Gweinidog

15fed am 10yb: Parch Eifion Wyn Williams

## Gwasanaethau Jerusalem am 2 y prynhawn

Tachwedd 3ydd: Y Parch John Pritchard

10fed: Mr John Roberts, Waunfawr

17eg: Dim Gwasanaeth

24ain: Canon Idris Thomas

Rhagfyr 1af: Parch Huw Tegid Roberts

8fed, 15fed,a'r 22ain: Dim Gwasanaeth

# Miloedd o Bunnoedd wedi eu codi i Hosbis i Oedolion er cof am Maggie

Wedi'u hysbrydoli gan y gofal yn Hosbis Dewi Sant, dangosodd teulu o Lanberis eu cefnogaeth trwy drefnu noson fingo elusennol.

Bu farw Maggie Price yn yr Hosbis ym mis Mehefin 1919. Fe wnaeth y gofal arbenigol a'r gefnogaeth a gynigiwyd i Maggie a'i theulu ysbrydoli ei dwy ferch, Claudette a Tracy, ynghyd â chwaer Maggie, Ann i godi cymaint o arian â phosibl i'r elusen leol.

### Meddai Claudette:

“Roedd pob un y daethom ar eu traws yn yr Hosbis yn ofalgar, meddylgar a sensitif. Pawb, o’r glanhawyr a’r gwirfoddolwyr i’r nyrsys a’r meddygon - i gyd yn bobl ryfeddol. I fod â’r gallu i weithio neu wirfoddoli’ch amser o fewn yr Hosbis, rwyf yn credu eich bod yn fath arbennig o berson. Gwirioneddol ryfeddol!

“Wnaf i byth anghofio cerdded i mewn a gweld nyrs yn eistedd, yn cysuro ac yn gafael yn llaw fy mam nes inni gyrraedd. Roedd yn golygu cymaint gwybod nad oedd hi wedi bod ar ei phen ei hun yn ystod ei hamser mwyaf bregus.

“Roedd fy mam wrth ei bodd gyda bingo ac roedd hi bob amser wedi bod yn godwr arian brwd. Roedd noson fingo elusennol gyda digonedd o raffls fel petai yn ddewis amlwg. Roedd yn llwyddiant mawr, daeth pawb allan i gefnogi. Mae busnesau lleol wedi bod yn anhygoel o hael wrth roi gwobrau gwych a hebddynt hwy ni fyddai'r noson wedi bod yn gymaint o hwyl!”

Cynhaliwyd y noson elusennol yng Ngwesty Dolbadarn yn Llanberis ar y 13eg Medi gyda dros 170 o bobl o bob oed o'r gymuned leol yn bresennol. Trwy'r bingo, y raffls a'r arwerthiant cododd y noson £5030.48 at Hosbis Dewi Sant.

## *Dyfodol yr 'Eco'.*

Cynhelir y cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol Eco'r Wyddfa yn y Sefydliad Coffa, Llanrug ar nos Fercher, Tachwedd 27ain am 7 o'r gloch.



# E. W. Pritchard

## Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE

LLANBERIS

FFON- (01286) 870202



# Gwesty Dolbadarn Llanberis

**Ffôn-(01286)-870277**





# Ar ben arall i'r lein

Dyma ni un waith eto, tymor arall ar ben ers 17eg Hydref, heblaw Llyn y Dywarchen sy'n dal i fynd ymlaen hyd ddiwedd Tachwedd. Ydi'r blynyddoedd 'ma yn camu yn eu blaen yn gynt a chynt tybed? Ond efallai mai fi sy'n i gweld hi felly, fel yna mae hi pan mae rhywun yn heneiddio medda nhw. Ond i mi tystiolaeth ydyw fy mod yn mwynhau fy hun, a phan mae hyn yn bod yna mae'r hen gloc mawr 'na yn mynd yn gyflymach bob dydd. Mae'r mwynhad yn dod trwy gerdded y glannau a rhwyfo rhyw ychydig ar y llynnoedd, rhwyfo!, na i fod yn gywir defnyddio'r injan fydda i fwy na dim y dyddiau yma.

Sut aeth hi felly yn ystod 2019? Wel, araf iawn oedd y tymor i ddechrau, ond mwyaf sydyn at tua diwedd Mehefin mi wnaeth pethau ddechrau dod at ei gilydd, a fel yr aeth y misoedd ymlaen mi wnaeth droi allan yn dymor ardderchog.

Yr atyniad mwyaf yw'r eog, ac eleni daeth 31 i'r rhwyd a'r rhan fwyaf wedi eu rhyddhau, dyma'r tymor gorau ers 2007. Yn ogystal daeth 150 o wyniadau i'r lan, y tymor gorau ers 1991. Pam fod hyn yn bod? Wel, wrth gwrs, dwi ac eraill wedi bod yn pregethu drwy gyfrwng yr Eco a chylchgronau eraill, yn ogystal ac mewn cyfarfodydd di-ri am helyntion Padarn a sut yr oedd yn effeithio ar holl ddyfroedd dalgylch y Seiont. Do, mi gymerodd yr awdurdodau bron i bum mlynedd ar hugain i dderbyn hyn, ond o'r diwedd mae Dŵr Cymru wedi, ac y dal i weithredu, i daclo'r

problem oedd i gyd i wneud ac arllwysyadau carthffos. Mae gwirionedd yn y dywediad, 'Mi ymatebith natur mewn ffordd gadarnhaol ond iddo gael y cyfle.' A dyna sydd wedi digwydd yn y fan yma. Oes, mae llawer i edrych ymlaen ato dros y blynyddoedd nesaf gan bod yr afon hefyd yn llawn o frithyll brown bach.

Yn ogystal, mae'r cynllun stocio torgoch yn dal i fynd ymlaen. Rhoddwyd dros 8,000 yn y Llyn o'r Gilfach Ddu ar 17 a 24 Hydref, a rheini yn bysgod mewn cyflwr arbennig. Diolch i staff deorfa Cynrig a Walter Hanks o swyddfa Bangor am eu hymroddiad.

Efallai y bydd llawer o edrych ymlaen am y flwyddyn 2020 ond mae tipyn o bryder yn rhedeg drwy gymdeithasau pysgota Cymru oherwydd yr is-ddeddfau newydd sydd i fod i gael eu cyflwyno mis Ionawr nesaf. Mi fydd rhain yn gosod cyfyngiadau llym ar ein dull o bysgota ac ar be fydd i'w roi yn y badell. Mae digon wedi ei ddweud am hyn dros y misoedd diwethaf, ond gwreiddyn yr holl beth yw niferoedd isel o eogiaid a gwyniadau sy'n dychwelyd i'n afonydd. Wrth gwrs, targed hawdd yw rhoi cyfyngiadau ar bysgotwyr, gan mai ym meddyliau penaethiaid CNC, y pysgotwyr sy'n gyfrifol am yr holl argyfwng.

Does run o'r awdurdodau yn cyfeirio at y gwir problem, sef llygredd. Dyma oedd y problem yn y fro hon, ond yn dilyn ein brwydro trwy'r llysoedd mae'r problem yn cael ei thaclo, a gyda gwellhad yn safon y dŵr mae'r pysgod yn ymateb. Wel Cyfoeth

**Gwasanaeth Gwres  
a Plymio**

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio  
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

**Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW**  
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

**AVW** Vehicle Workshop  
Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porsche

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

**01286 673559**

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - [www.AVWBosch.co.uk](http://www.AVWBosch.co.uk)





Naturiol Cymru a chwithau, y rhai sy'n eistedd yn y Senedd yna yng Nghaerdydd, beth am gydnabod be sy'n digwydd yn y gornel fach yma o Arfon, a rhoi eich ysgwyddau iddi a thaclo'r broblem enfawr yma sy'n effeithio ar holl ddyfroedd ein gwlad?

Dyma enghreifftiau o be sy'n mynd ymlaen. Ar y BBC yn Lloegr yn ddiweddar roedd adroddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn dweud mai ond 5% o afonydd Lloegr sy'n ddiogel i nofio ynddynt, ac eu bod yn rhybuddio yn gryf bod pawb, os wedi bod yn nofio mewn dyfroedd mewndirol, i gael cawod boeth cyn gynted a bo'r modd. Ni ddaeth sylwad ar hyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru na dim chwaith gan BBC Cymru yn ôl be dwi'n ddeall. Pan oeddem yn trafod hyn yn y Cwt Traddodi yn Crawia dywedodd rhywun, 'Wyt ti ddim yn disgwyl dim ar hyn gan y cyfryngau, os nad ydi o i'w wneud â gwrthwynebu BREXIT,' Dyma'r enw newydd ar y BBC - Bwrdd Bwganod Cymru! Wel, ydi Afonydd Cymru yn ddi-

lygredd ac yn hollol wahanol i Loegr? Dydw i ddim yn meddwl. Er bod Llyn Padarn yn cael ei ddynodi fel safle glân i nofio ynddo, yn dilyn ein hymdrechion ni, wrth gwrs. Ond beth am y gweddill o'r wlad, oherwydd mae'n anodd iawn cael unrhyw wybodaeth ar be sy'n mynd ymlaen - heblaw drwy erthyglau mewn cylchgronau pysgota a natur. Dyma i chwi beth oedd newyddion pennaf cylchgrawn y Trout & Salmon y mis yma:-

Llythrau'r Golygydd. - Yn ystod Rhagfyr 2016 o ganlyniad i ddigwyddiad o lygredd enfawr fe laddwyd miloedd o eogiaid, brithyll-môr a brithyll brown ar rannau uchaf o'r Afon Teifi, sef un o afonydd pwysicaf Cymru. Ers hynny mae pysgotwyr lleol, clybiau, tywyswyr a busnesau sy'n ddibynol ar bysgota wedi dioddef yn enfawr. Yn dilyn yr hyn a oedd y llygredd gwaethaf ers y chwyldro diwydiannol. Dywedodd Dr. Stephen Marsh-Smith, Prif Weithredwr Afonydd Cymru, sef corff gweithredol ar gyfer Ymddiriedolaethau Afonydd drwy Gymru, " Mae Cymru yn prysur ddod yn prifddinas llygredd-amaeth Ewrop".

Drwy ymchwiliad CNC fe adnabuwyd y troseddwy'r ond, er syndod i bawb, fe benderfynwyd i beidio â'u herlyn. Fe dalwyd cost yr ymchwiliad, sef £20,000 i Gyfoeth Naturiol Cymru a £15,000 i'r Ymddiriedolaeth Afonydd lleol, ond dim dimau i'r cymdeithasau a'r busnesu lleol am eu colled ariannol enfawr. Fel ninnau yma mae llawer i glwb a busnes ar y Teifi yn aelodau o Fish Legal sydd yn awr yn ceisio iawndal trwy'r llysoedd. Mae peth fel hyn yn chwerthinllyd o gysidro fod Cwmni Dŵr De-Orllewin Lloegr, yn dilyn eu llygru o Aber Afon Tavy yn Nyfnaint pan laddwyd 100 o frithyll brown, wedi cynnig setliad o £350,000 i Ymddiriedolaeth Afonydd De-Orllewin Lloegr. A oes bosib gwneud rhyw synnwyr o beth fel hyn tybed?

Wel dyma ni am fis arall, mi gaf rhyw seibiant bach oddi wrth y cyfrifiadur mis nesaf oherwydd bydd adroddai blynyddol y Cadeirydd at eich sylw yn rhifyn cyntaf Rhagfyr.

Huw Price Hughes



## Un funud fach ...

### DIM GÊM

O'r hyn a welais roedd hi'n gêm gyffrous. Roedd Gareth Bale wedi ei anafu, ond er nad oedd o'n chwarae, ac er na fu ei dîm ar ei orau yn ddiweddar roedd disgwyl iddynt ennill y gêm hon. Sgoriwyd unig gôl y gêm o fewn yr ugain munud cyntaf. A thîm Bale a orfu: Galatasaray 0, Real Madrid 1.

Chwaraewyd y gêm hon yng Nghynghrair y Pencampwyr ar adeg gythryblus i'r ddwy wlad a gynrychiolid gan y timau. Am awr a hanner, roedd Twrci a Sbaen yn llygaid y cyfandir oherwydd gêm bêl droed yn hytrach na'r argyfyngau gwleidyddol sy'n bopeth ond hwyl a chwarae. Gwaetha'r modd anghofiwyd tros ennyn gyrch milwrol gwaedlyd Twrci yn erbyn y Cwrdiaid yng Ngogledd Syria ac ymosodiad ffaidd heddlu Sbaen ar bobl sy'n protestio yng Nghatalonia yn erbyn carcharu rhai o arweinwyr yr ymgyrch dros annibyniaeth. Y noson honno, roedd gêm bêl droed yn tynnu sylw oddi ar fwled i milwyr Twrci a'r lladdfa yn Syria, a phastynau'r heddlu a'r curo yng Nghatalonia. Nid bod angen gêm bêl droed i wneud hynny chwaith gan mai cymharol ychydig o sylw a roddwyd i'r naill argyfwng a'r llall; a llai fyth o gondemnio a gafwyd yng ngweddill y Cyfandir ar yr hyn a all fod yn droseddau rhyfel yn Syria a chreulonder anghyfiawn heddlu Sbaen ar ran eu Llywodraeth.

Ceisiwn ddeall beth sy'n mynd ymlaen, heb ddibynnu'n llwyr ac yn unig ar gyfryngau arferol y teledu a'r papurau newydd cyfarwydd sy'n medru rhoi un ochr i'r stori neu beidio â chyfeirio o gwbl at y stori. Y mae'r rhyngwyd a'r cyfryngau cymdeithasol yn medru bod o help i roi i ni ddarlun mwy cyflawn o'r hyn sy'n digwydd yn ein byd.

Gweddiwn dros y pethau hyn: dros y bobl sy'n dioddef yn nhrefi Syria ac ar strydoedd Barcelona; dros y gwleidyddion a'u harweinwyr yn Sbaen a Thwrci a fedrai atal y pastynau a'r bwledi pe byddai'r ewyllys ganddynt i wneud hynny; a thros bawb yn y gwledydd hyn sy'n gweithio er sicrhau cymod a chyfiawnder.

A cheisiwn beidio ag anghofio'r bobl a'r sefyllfaoedd hyn. Daliwn i weddio drostynt a thros bawb sy'n eu cefnogi trwy bledio ar eu rhan gerbron arweinwyr eu gwledydd. Gweddiwn am ddewrder a dyfalbarhad i'r rhai sy'n pwysu ar yr Arlywydd Erdogan yn Nhwrcei a'r Arlywydd gweithredol Sanches yn Sbaen i gefnu ar y llwybrau y maent wedi eu dilyn hyd yma. A pha gyfle bynnag a ddaw i ninnau i ddweud gair neu anfon llythyr neu gefnogi protest o blaid y rhain a phawb arall sy'n dioddef anghyfiawnder yn ein gwlad ein hunain ac yng ngwledydd y byd, gwnawn hynny, os ydym yn ddilynwyr i Grist, fel rhan o'n gwasanaeth iddo Ef ac i'n cymdogion.

JOHN PRITCHARD

## Cyfarfod Blynyddol Cynllun Efe

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cynllun Efe yng Nghapel y Rhos, Llanrug nos Fawrth, Hydref 15.

Dechreuwyd y cyfarfod mewn gweddi gan y Parchg Marcus Robinson. Cafwyd braslun o hanes Cynllun Efe gan y Parchg John Pritchard, ac adroddiad gan Mrs Susan Williams am ei gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf. Cafwyd adroddiad am y sefyllfa ariannol gan y Trysorydd, Mr Clive James, a diolchwyd i bawb gan Mr Richard Lloyd Jones.

Adroddiad llawn yn y rhifyn nesaf

Pigion Byd Natur  
Pincas/Pincws Robin



Fe'i ceir yn dyfiant dros dro at goesyn Rhosyn Gwyllt.

Ar dudalen 806 Geiriadur Cymraeg Gomer (2016) dywedir mai pincas ydyw clustog fach y gwthir pinnau a nodwyddau iddi er mwyn eu cadw'n ddiogel. Enw anwes, er mwyn anwylo person/plentyn, ac hefyd adar, creaduriaid, planhigion ayb ydyw Robin. Ie! Bob, neu Rhobat/Robat ydyw enwau er'ill amdano. 'Bob Robin' ydyw'r enw yn Stirling, Yr Alban, am Robin Goch.

Y mae'r enwau Pincas Robin yn adrodd cyfrolau. Ffurf ei dyfiant, a rydd iddo yr enw pincas. Ceir yn ogystal enw arall arno, sef Chwyddiant Bedeguar, Bedegar/Bedequar sy'n air o'r iaith Ffrangeg, sef bedegar, ac yn iaith Persia bad-awar ydyw. Golyga 'yr hyn a chwyth y gwynt'. Ie! y gacynen a ddaeth yno ar awel, neu hwrdd o wynt cymedrol neu nerthol. Mwy yn y man amdani hi!

Erbyn tymor yr hydref, a'r amser yr ysgrifennaf hyn o druth, ymyla pincas Robin ar fod bron 'run lliw â mynwes Robin Goch.

Gorchudd sy'n lloches dros dro ydyw'r chwyddiant a geir ar goesyn y Rhosyn Gwyllt a welais eleni gerllaw pentref Llanrug. Cynrhon cacynen/ gwenynen farch/ picwnen a fu'n gyfrifol amdano. Pedair milimetr ran ei hyd ydyw benyw cacynen / gwenynen farch a hon, welwch chwi, sy'n mynd ati i chwythu (sef dodwy) ym mis Mai ar goesau Rhosod Gwylltion ac wedi deor o'r wyau, tylla'r cynrhon i feddalwch coesau'r planhigion gan ffurfio chwyddiadau, sy'n fwyd a chartref benthyg yn ystod tymhorau'r hydref a'r gaeaf. Bydd rhaid aros wedyn hyd dyfodiad tymor y gwanwyn cyn gweld yr oedolion yn ymddangos o'r pincas. Yr adeg honno, nid cynrhon mohonynt, ond cacwn!

Dafydd Guto Ifan

O.N.

Derbyniodd y colofnydd lythyr hynaws a ffotograff hynod ddiddorol oddi wrth Bet, Crud yr Awel, Bethel, a llawer iawn o ddiolch iddi amdanynt. Dywed am y draenog a welwyd 10fed dydd mis Rhagfyr 2018:

Y cena bach heb fynd i gysgu, yn crwydro yn yr ardd ffrynt. Seiriol (sef gŵr Bet) yn tynnu llun a minnau yn dal y golau a'i gario mewn desgyl i'r gegin, sôn am strach, ei roi dan y coed yn y cefn gan obeithio yr eith o i gysgu.

Y mae hyn yn adrodd cyfrolau am y draenog gan y'i ystyrir yn un o'r saith cysgadur ym myd Natur a'i fod fel creadur yn mynd i gysgu yn nhymor y gaeaf.

## Dyfodol yr 'Eco'.

Cynhelir y cyfarfod cyhoeddus i drafod dyfodol Eco'r Wyddfa yn y Sefydliad Coffa, Llanrug ar nos Fercher, Tachwedd 27ain am 7 o'r gloch.



## RHEDEG MYNYDD



Mae'r tymor rhedeg mynydd yn dirwyn i ben am eleni, ond mae'r llwyddiannau lleol yn parhau. Yn Ras Melin Trefriw ddechrau'r mis heriodd tua hanner cant o redwyr y ddringfa o'r dyffryn i fyny am Lyn Cowlyd. Miranda Grant, Llanberis oedd y ferch gyntaf, gan orffen yn unfed ar ddeg.

Bu'n fis wedyn o rasys ffordd a rasys traws-gwlad, gyda'r clwb rhedeg lleol, Rhedwyr Eryri yn profi cryn lwyddiant. Roedd ras draws-gwlad gyntaf y tymor yn Wrecsam, ar gaeau chwarae Ysgol Morgan Llwyd, a daeth tim y merched yn gyntaf. Yn anffodus, dim ond pedwar o ddynion fu'n cystadlu, a chafodd y tim eu cosbi am fethu cael tim cyfan.

Gwaethygu wnaeth y tywydd ar gyfer yr ail ras draws-gwlad ym Mae Colwyn, a phawb yn drybola o fwd, ond tim y merched yn ennill unwaith eto, a'r tro hwn, y tim dynion yn dod yn ail.

Rhwng y ddwy ras traws-gwlad cynhaliwyd y ras gyntaf yng Nghynghrair y Gororau, cystadleuaeth i glybiau rhedeg o ogledd Cymru a gorllewin Swydd Caer. Mae'r gynghrair yn bodoli ers 1983, a does dim tal am gystadlu, ond rhaid bod yn aelod o glwb rhedeg. Eleni mae 17 o glybiau yn y gynghrair, a chynhaliwyd y ras gyntaf yng Nghaernarfon ar gwrs 10 cilometr o amgylch Y Foryd – a gwlyb socian oedd yr amgylchiadau eto. Ond torrwyd record y cwrs am y nifer mwyaf o gystadleuwyr, gyda 350 yn gorffen y ras. Roedd dros 30 o aelodau'r clwb yn rhedeg, gyda Mathew Roberts yn ennill, ac unarddeg o'r dynion yn gorffen o fewn y cant cyntaf. Dyma'r criw fu'n cystadlu o amgylch Y Foryd. Erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd bydd Marathon Eryri wedi ei chynnal o amgylch yr Wyddfa, a chynhelir Ras Penmaenmawr ar Dachwedd 16eg; yn draddodiadol, y ras fynydd olaf yn y cyffiniau hyn am y flwyddyn.

## DIM OND DYFALU

Oherwydd dyddiad rhoi'r Eco i'w wely mae'r amseriad yn fy amddifadu o allu croniclo sawl gêm bwysig. Y mwyaf wrth gwrs yw Cymru v De'r Affrig. Gobeithio ein bod wedi cael y perfformiad yn erbyn Ffrainc allan o'r system. Er teg dweud fel Gatland mai ar y lefel yma yr ennill sy'n bwysig. Does neb yn cofio collwyr!

Oherwydd gohiriadau mae Llanrug a Llanberis yn dal yng Nghwpan Cymru ac yn Nhlws C.P.D. Cymru. Os bydd Llanberis yn trechu Porthmadog yn y prif gwpan yna byddent gartref i Gresffordd o brif Gynghrair y Gogledd.. Mae Port wedi cael dechrau siomedig i'r tymor gan roddi llygedyn o obaith i'r Darans. Os llwyddo bydd Gresffordd hefyd yn gêm anodd. Taith i Fodedern yw her y Tlws i'r Darans.

Rwyf wedi gweld ambell i gêm yn Llanrug yn ddiweddar a rhaid cyfaddef mai siomedig oeddwn a safon chwarae y timau. Ychydig iawn o basio a chreu symudiadau gan or-ddefnyddio y gic hir lawr y cae. Heb os mae rhai timau gwan iawn yn yr 'Uwch Adran' yma. Pan ail wampir y cynghreiriaau ar lefel lleol diddorol fydd sylwi sawl adran fydd yma yng Nghwynedd – tair efallai - a pha dimau fydd yn y gwahanol adrannau. Tybed a ydym yn cyrraedd y pwynt ble mae gormod o dimau a dim digon o chwaraewyr. Hefyd yn amlwg mai prinder timau dan 16 yn yr ardal – sy'n cynnwys chwaraewyr o du allan – yn arafu y llif i fwydo'r timau hyn?

Yn y Tlws bydd Llanrug yn mentro i Lanuwchllyn. Yn y brif gwpan os llwyddir i guro Aberffraw yna bydd taith i wynebu Mold Alex sy'n bedwerydd ar hyn o bryd yn Uwchgynghrair Cylch Wrecsam. Mae Waunfawr yn gyffyrddus ei safle yng nghanol Cynghrair Gwynedd ac wedi dechrau'r daith yn llwyddiannus mewn ambell i gwpan. Eto truenus yw gweld canlyniadau y timau ar waelod cynghrair Gwynedd gan gynnwys Bethesda a Llanerchymedd – dau dim cryf o'r gorffennol agos. Cyfleusterau da ond methu denu tim. 4 pwynt gan Bethesda a 0 pwynt gan y Llan wedi 9 gem yr un. Gaeaf hir dybiwn i!

## CERRIG MILLTIR

Ym myd y campau pa ddigwyddiadau neu berfformiadau sy'n sefyll allan yn eich barn chwi? Bydd rhai yn emosiynol. Munich, Heysel, Hillsborough, Gemau Olympaidd Munich a'r lladdfa... Mae'r ymchwiliad i drychineb Hillsborough yn dal i rygnu ymlaen er bod cyhuddiadau cyfreithiol bellach ar droed. Fe siglwyd byd y campau drwy'r digwyddiadau gan arwain at ail gynllunio stadia chwaraeon, stiwardio a gwarchod yn y digwyddiadau mawr.

Beth am berfformiadau. Jesse Owens, Bannister, Ali yn ad-ennill Pencampwriaeth Pwysau Trwm y Byd, Geraint Thomas ... ac yn awr rhedeg y Farathon glasurol mewn llai na dwy awr. Eto caed dylanwad o'r perfformiadau hyn. Y prif ddylanwad wrth gwrs yw denu mwy – o bob oed – i ymgymeryd a'r campau. Yn ddios, gwelir mwy yn seiclo ers camp y 'Titw', a chynyddu mae'r galw am sefydlu mwy o 'lonydd beicio'. Mae mwy yn ymddiddori mewn rhedeg – boed yn gystadleuol neu o ran pleser/fitrwydd. Mae Râs yr Wyddfa a Marathon Eryri yn achlysuron rhyngwladol. Braf wedi sefydlu Clwb Rhedeg Bethel yw gweld nifer yn mynd i redeg ar liwt eu hunain o gwmpas yr ardal. Rhaid cyfaddef fod y tirlun gyda'i ambell allt heriol ac adrannau fflat hirion yn gweddu i'r dim.. A hyn i gyd gyda'r golygfeydd gwych yn gefndir. Rydym wedi croniclo campweithiau Clwb Rhedwyr Eryri ers blynnyddoedd. Eraill yn magu hyder i herio eu hunain.

Cyfeiriais at ymgais gyntaf Kelly O'donnell a'i ffrindiau yn herio Ras yr Wyddfa am y tro cyntaf, a'r lluniau ysbrydoledig ohonynt wedi cyflawni'r gamp. Ymlaen aeth Kelly, Ifan Rowlands ac eraill o'r ardal yma i gystadlu yn Hanner Marathon Caerdydd am y tro cyntaf, a'r ddau o siarad gyda hwy yn benderfynol o gystadlu y flwyddyn nesaf a gwella ar eu hamser.

Un sesiwn sy'n bodloni nifer o'r 'rhedwyr rhan amser' yw'r dull Rasus y Parc. Mae hwn yn ddull ledled y byd. Ni does angen bod yn aelod, dim ond troi fynny a rhedeg, fel arfer dros gwrs o rhyw 5Km. Yn yr ardal yma cynhelir rasmus o'r fath tu fewn i furiau Parc y Penrhyn. Denir niferoedd i gymeryd rhan. Bydd y ddau frawd, Meilir a Dafydd Emrys yno yn aml ond bellach cawsant gyfle i ymestyn eu gorwelion. I ddathlu penblwydd eu tad yn ..oed, trefnodd y ddau i'w gyrchu i ardal Cologne yn yr Almaen. Tra yno sylwi fod Ras y Parc yno. Ymlaen a'r ddau a cynnal eu pencampwriaeth deuluol eu hunain.

Ie, boddhad llwyr ar gost o bar o bymps, crys-T a shorts.



# Chwaraeon

## PÊL-DROED MERCHED AR GYNNYDD



Yn ddios mae datblygiad pêl-droed merched yn un o lwyddianau byd y campau Cymreig. Mae ein tim cenedlaethol a chyfle da i gyrraedd rowndiau terfynol Pencampwriaeth Ewrop am y tro cyntaf. Yn yr ardal yma mae tîm merched Bethel wedi hen ennill eu plwy er teg nodi mai tîm ardal yw bellach yn denu chwaraewyr o du allan i'r pentref. Nomadaidd o hyd ydynt yn chwarae eu gemau cartref unai yn y Felinheli neu ar faes pob tywydd Nantporth. Heb godi hen grachen trist yw gweld yr elfen hon yn enwedig o sylwi cyn lleied o gemau sy'n cael eu cynnal ar Faes Coed Bolyn. Derbyniais yr adroddiad hwn ar sefyllfa gyfredol y clwb gan Gwenno Gibbard Bolton, cyn chwaraewr a bellach yn swyddog/hyfforddwr uchel ei pharch yn y clwb.

“ Yn dilyn tymor llwyddianus y llynedd fel Pencampwyr Adran Gyntaf y Gogledd a chyrraedd dwy ffeinal cwpan, mae'r rhediad da yn parhau. Mae'r tîm hŷn wedi ennill eu pedair gêm gyntaf ac

yn wynebu Rhyl yn ail rownd Cwpan Cymru. Erin Maloney sy'n denu sylw gyda 7 gôl eisioes. Rydym wedi denu sawl chwaraewr newydd i'r gwahanol oedrannau dros yr Haf. Edrychwn ymlaen at eu datblygiad. Am y tro cyntaf mae'r clwb wedi sefydlu carfan dan 12, ac mae gemau ar eu cyfer bob dydd Sadwrn. Nid yw'r garfan dan 14 wedi colli gêm ychwaith hyd yma. Mae'r garfan dan 14 yn falch iawn o nawdd kit hael gan Ceir Cymru ac Engie First Hydro.

Mae tipyn o ddyfnder yn y garfan dan 16 elenni. Prawf fod trefniadaeth y clwb yn denu chwaraewyr. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno a charfannau dan 12, dan 14 neu dan 16 y clwb mae croeso i chi ymuno yn nosweithiau hyfforddi y clwb bob nos Lun rhwng 7-8pm ar gae pob tywydd Ysgol Brynrefail. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch ar bethelladiesfc@gmail.com.”

## Llwyddiant Sgio



Cynhaliwyd cystadleuaeth Pencampwriaeth Sgïo Ysgolion Cymru yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog dros benwythnos olaf fis Medi.

Roedd oddeutu 150 yn cystadlu o sawl ysgol ar draws Cymru ac yn eu plith roedd deuddeg o ddisgyblion Ysgol Brynrefail a daeth cryn llwyddiant i'r ysgol.

Yn cystadlu yn y categori bechgyn o dan 14oed oedd Geraint Roberts ac Eiddon Morris-Williams. Genethod o dan 14 oedd Issy Shaw, Megan Ingle, Alaw Swyn, Eirwen Howorth, Lois Owen a Cadi Owen. Genethod o dan 16oed oedd Molly Chisholm,

Cerys Roberts a Mared Evans ac o dan 18oed Alys Chisholm. Dyma'r canlyniadau:

Issy Shaw 1af    Megan Ingle 2il                    Alaw Swyn 3ydd  
Molly Chisholm 1af    Alys Chisholm 2il  
Daeth dau dîm y merched yn 2il ac yn 6ed ac yn cael y cyfle i gystadlu ym Mhencampwriaeth Ysgolion Prydain ym mis Tachwedd.

Daeth llwyddiant hefyd i Beca Owen o Ysgol Gynradd Llanrug - yn 2il yn y categori o dan 10 oed.  
Llongyfarchiadau pawb a phob lwc.